



ERS
Research &
Consultancy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthusiad o Raglen Treftadaeth Ddigidol Casgliad y Werin Cymru / People's
Collection Wales

Adroddiad Effaith



ERS

30 Queen Square
Bristol
BS1 4ND

T: 0117 927 3401

F: 0117 929 4189

E: bristol@ers.org.uk

www.ers.org.uk

Tabl Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	iii
Pennod 1: Cyflwyniad	iii
Pennod 2: Fframwaith y Gwerthusiad	iii
Pennod 3: Cyd-destun Polisi	iii
Pennod 4: Gweithredu'r Rhaglen	iv
Pennod 5: Prif Gyflawniadau, Canlyniadau ac Effeithiau	v
Pennod 6: Casgliadau ac Argymhellion	vii
1.Cyflwyniad	1
Strwythur yr Adroddiad	1
Amcanion y Gwerthusiad	2
Crynodeb o Argymhellion Gwerthusiad Interim Casgliad y Werin	3
Rhaglen Casgliad y Werin	5
Gweledigaeth y Rhaglen 2011-17 a 2014-17	7
Prif Gyflawniadau'r Rhaglen	8
2.Methodoleg y Gwerthusiad	10
Fframwaith y Gwerthusiad	10
Ymchwil Sylfaenol	12
3.Adnewyddu'r Cyd-destun	16
Cyd-destun Polisi Cymru	16
Polisiâu a Strategaethau Allweddol Llywodraeth Cymru	16
Cyd-destun Strategol a Pholisi Allweddol Cam 2	16
Strategaeth ac Amcanion Strategol Casgliad y Werin	19
Crynodeb	22
4.Gweithredu'r Rhaglen	23
Crynodeb o Weithgarwch y Rhaglen	23
Crynodeb Ariannol	23
Cynaliadwyedd Ariannol	25
Prosesau Rheoli a Llywodraethu	27
Prosesau Monitro a Gwerthuso	30
Strwythur y Rhaglen: y Llinynnau a'r Model Gweithredu	31
Ymgysylltu â Defnyddwyr a Phartneriaid Prosiect	32
Bodlonrwydd Defnyddwyr a Phartneriaid Prosiect	36
Barn am Gasgliad y Werin	37
Arferion Gweithredu Gorau	38
Heriau wrth Weithredu	40
Dysgu Allweddol	42

Gweithredu yn y Dyfodol	43
Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau yn ymwneud â Gweithredu'r Rhaglen	43
5.Cyflawniadau, Canlyniadau ac Effeithiau	45
Prif Gyflawniadau	45
Cyflawniadau yn erbyn Blaenoriaethau	46
Effeithiau	53
<i>Effaith Gymdeithasol</i>	52
<i>Effaith Arloesi</i>	56
<i>Effaith Prosesau</i>	56
<i>Effaith Economaidd</i>	57
Astudiaethau Achos Defnyddwyr	61
Effeithiau Ehangach	65
Astudiaethau Achos Effaith	66
6.Casgliadau ac Argymhellion	78
Prif Gasgliadau	78
Llwyddiannau	79
Heriau	80
Argymhellion	80
Argymhellion Gwerthusiad Terfynol 2016	80
Argymhellion Strategol	81
Argymhellion ynghylch y Gynulleidfa a Defnyddwyr	83
Argymhellion Gweithredol	86
Crynodeb o'r Argymhellion	89
Atodiad 1: Rhestr o'r Partneriaid Prosiect a Rhanddeiliaid Allanol yr ymgynghorwyd â hwy	92

Ysgrifennwyd a lluniwyd yr adroddiad canlynol gan Kate Vittle (KVittle@ers.org.uk), Fran Haswell-Walls (FHaswell-Walls@ers.org.uk) a Tim Dixon (TDixon@ers.org.uk) o ERS (www.ers.org.uk) ar ran Casgliad y Werin Cymru.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Pennod 1: Cyflwyniad

- E.1. Ym mis Rhagfyr 2013 comisiynwyd ERS i gynnal gwerthusiad hydredol o raglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru (CyW). Mae'r Gwerthusiad Terfynol hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn a gyflawnwyd rhwng 2014 a 2016 gan fod â ffocws ar ganlyniadau ac effeithiau sydd wedi codi.
- E.2. Mae Casgliad y Werin yn blatfform digidol a dwyieithog sydd wedi'i ategu gan raglen ehangach o weithgareddau, ac mae'n galluogi defnyddwyr i ddarganfod, rhannu a chyfrannu at gasgliad ar-lein o dreftadaeth Cymru. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gweithredu gan bartneriaeth ffederal rhwng tri chorff cenedlaethol sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth, sef Amgueddfa Cymru-National Museum Wales (AC-NMW); Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC); a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC). Amcanion craidd y rhaglen yw '*galluogi, ymgysylltu, a thrawsnewid*'.

Pennod 2: Fframwaith y Gwerthusiad

- E.3. Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar ddull 'Theori Newid' sy'n sefydlu cyswllt rhwng mewnbynnau ac effeithiau rhaglen. Mae'r gwerthusiad hwn wedi addasu Model Effaith Gwerth Cytbwys Tanner¹ i asesu effeithiau ar draws pedair thema graidd:
- **Gwerth Cymdeithasol:** e.e. gwybodaeth a sgiliau, cydlyniant cymunedol, lles;
 - **Gwerth Arloesi:** e.e. technolegau newydd neu ffyrdd newydd o weithio;
 - **Gwerth Prosesau:** e.e. arbedion adnoddau; arbedion effeithlonrwydd;
 - **Gwerth Economaidd:** e.e. datblygu sgiliau a gwariant uwch gan ymwelwyr.
- E.4. Yn yr ymchwil sylfaenol cynhaliwyd e-Holiadur i Ddefnyddwyr (38 o atebion cyflawn), ac ymgynghoriadau â 'Phartneriaid Prosiect, y Tîm Craidd, a'r Grŵp Rheoli' Mewnol, yn ogystal â 'Rhanddeiliaid Strategol a Phartneriaid Prosiect' Allanol.

Pennod 3: Cyd-destun Polisi

- E.5. Mae **Rhaglen Llywodraeth 2011-16 Cymru**² am hyrwyddo mynediad digidol a'r '*potensial i'r cyfryngau digidol hybu diwylliant drwy Gasgliad y Werin Cymru a mentrau ar-lein eraill*'. Yn ogystal, mae Casgliad y Werin yn cyd-fynd â mentrau polisi allweddol, gan gynnwys: y Rhaglen Cyfuno³; a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁴.
- E.6. Mae Casgliad y Werin wedi dod yn fwyfwy 'hyblyg' ac mae parch mawr i'w allu i ychwanegu gwerth at nifer o feysydd o bwys strategol e.e. lles, cynhwysiant digidol, cydlyniant cymunedol. Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd amlwg wrth gyflwyno arlwy a "chynnig" clir ac wrth sicrhau bod nodau ac amcanion yn cael eu

¹ http://www.kdcs.kcl.ac.uk/fileadmin/documents/pubs/BalancedValueImpactModel_SimonTanner_October2012.pdf

² <http://archive.cynnalcywru.com/sites/default/files/Rhaglen%20Llywodraethu.pdf>

³ <http://gov.wales/topics/cultureandsport/tackling-poverty-through-culture/?lang=cy>

⁴ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

deall yn fras gan randdeiliaid mewnol ac allanol a'u bod yn cyd-fynd â'u hamcanion hwythau.

Pennod 4: Gweithredu'r Rhaglen

- E.7. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £1,200,000 o gyllid craidd i'r rhaglen yng nghyfnod y Gwerthusiad Terfynol (2014-16). Ar gyfer 2015-16 mae'r rhaglen wedi gosod, a rhagori ar, dargedau creu incwm, a hynny yn wyneb gostyngiad yn y cyllid craidd; fodd bynnag mae cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn her allweddol i'r rhaglen.
- E.8. Mae gwella parhaus i'w weld yn amlwg ar draws pob llinyn gwaith a nifer o'r meysydd gweithredu, gan gynnwys rheoli a llywodraethu symlach, partneriaeth ffederal gryfach, ac adfer ers effaith yr 'adnewyddu technegol' a wnaed. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid a chyfraniadau defnyddwyr yn dangos cynnydd arbennig o gadarnhaol.

Arferion Gweithredu Gorau

- E.9. Mae'r 'cynnig craidd' a'r cylch gwaith i hyfforddi ac ymgysylltu â chymunedau wedi'u crisialu'n glir. Pan fo cyflenwi'r gwasanaethau hyn ynghlwm ag ardal ddaearyddol ddiffiniedig ac amcan strategol clir, gwelir bod y cyflenwi yn arbennig o effeithiol, e.e. fel y gwelir mewn cysylltiad â'r Rhaglen Cyfuno (*Fusion*) a chydweithredu rhyngwladol megis Patagonia 150. Ystyrir bod y gwaith rhyngwladol gyda chymunedau Cymry alltud yn faes gwaith allweddol sydd wrthi'n datblygu.
- E.10. Credir yn eang fod Casgliad y Werin yn adnodd arbenigol y gellir ymddiried ynddo, ac mae natur anfasnachol y rhaglen yn cyfrannu ymhellach at y gred hon.

Heriau wrth Weithredu

- E.11. Er bod cydnabyddiaeth fod y rhaglen yn gwneud "*llawer gydag ychydig*", mae adnoddau yn her allweddol wrth ymgysylltu â chymunedau. Dylai'r rhaglen ystyried ffyrdd amgen o sicrhau presenoldeb 'ar lawr gwlad' mewn ardaloedd blaenoriaeth, yn enwedig gan yr ystyrir bod y sesiynau cyfryngu yn hanfodol i gefnogi grwpiau cynulleidfa allweddol i ddefnyddio gwefan CyW.
- E.12. Roedd ymatebwyr ar draws pob grŵp yn gyson yn sôn am farchnata fel y brif flaenoriaeth ar gyfer datblygu. Mae hyn yn seiliedig ar ysfa i sicrhau bod rhagor o bobl yn cael cyfle i ymwneud â'r rhaglen.

Dysgu Allweddol

- E.13. Mae dysgu allweddol o safbwynt ymgysylltu â'r gymuned wedi digwydd, a datblygwyd ymhellach gylch bywyd Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol a dulliau Hyfforddi'r Hyfforddwr, a'r rhain yn cael eu hystyried yn allweddol i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol.

E.14. Yn ogystal, ystyrir bod y Tîm Craidd wedi gwella eu sgiliau ar draws nifer o feysydd megis: gweithio gyda rhanddeiliaid allanol; ymgysylltu â phartneriaid; creu incwm; a dyrannu amser yn fwy effeithiol.

Pennod 5: Prif Gyflawniadau, Canlyniadau ac Effeithiau

E.15. Mae Casgliad y Werin wedi esblygu yn barhaus ers ei sefydlu, gan ddod yn rhaglen fwy cadarn a hyblyg sydd â chynnig craidd clir. Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Cyfrannu at Agenda Tlodi Llywodraeth Cymru, yn enwedig drwy waith yn yr Ardaloedd Arloesi fel rhan o'r Rhaglen Cyfuno;
- Cryfhau partneriaethau strategol allweddol, e.e. gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri;
- Llwyddo i gael digon o gynnwys;
- Datblygu'r 'cynnig rhyngwladol';
- Datblygu iBeacon, mabwysiadu dull o arloesi sy'n cynnwys treialu, cael tystiolaeth, ac arddangos;
- Datblygu'r isadeiledd technegol (h.y. microwefannau ac ategion [widgets]).

Mae crynodeb o'r cyflawniadau yn erbyn Blaenoriaethau Strategol Casgliad y Werin wedi'u cynnwys yn Nhabl E.1.

Tabl E.1 Cyflawniadau yn erbyn Blaenoriaethau Strategol 2014-17

Blaenoriaeth Un: Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth yng Nghymru ac i'r byd drwy blatfform digidol cynaliadwy a chynhwysol sy'n cael ei rannu. Mae canfyddiadau'n awgrymu bod y rhaglen yn annog cyfranogiad mewn treftadaeth, a defnyddwyr, er enghraifft, wedi nodi'r canlynol: gwell dealltwriaeth a gwybodaeth; mwy o ddiddordeb yn nhreftadaeth Cymru, bod y rhaglen yn galluogi defnyddwyr sydd yn cyfranogi'n fawr i fod â rhan weithredol yng nghadwraeth eu treftadaeth; ac ystyrir bod rhyngweithio yn bleserus.

Blaenoriaeth Dau: Galluogi a gweddnewid cymunedau lleol ac unigolion i ddefnyddio gwefan, offer ac adnoddau Casgliad y Werin i rannu, cyflwyno a dehongli eu diwylliant a'u treftadaeth eu hunain. Mae'r rhaglen yn rhoi rhagor o sgiliau a chyfleoedd i bobl gael mynediad at dreftadaeth Cymru ac i gyfrannu ati, yn ogystal â chefnogi eraill i wneud hynny. Pwysleisiodd rhai ymgynghoreion fod cymunedau yn cael eu "grymuso" o ganlyniad, gan alluogi'r rheiny sydd â sgiliau digidol, a hebddynt, i gofnodi a churadu hanes.

Blaenoriaeth Tri: Defnyddio gwefan ac offer Casgliad y Werin, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, i gefnogi gweithgareddau a strategaethau dysgu gydol oes a chreu adnodd ar-lein dwyieithog hygyrch ar gyfer dysgwyr ffurfiol. Ceir tystiolaeth o rywfaint o gynydd, gyda nifer fach o addysgwyr yn adrodd am effeithiau cadarnhaol o fewn eu haddysgu yn sgil defnyddio adnoddau dysgu o'r safle. Mae defnyddwyr (e.e. academyddion) wedi sôn am werth Casgliad y Werin fel adnodd ymchwil, a hyn yn ddatblygiad allweddol.

Blaenoriaeth Pedwar: Cefnogi a chynghori'r sector treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru wrth ddatblygu ymagwedd gydlynol at faterion digidol, gan nodi cyfleoedd i gyfrannu at economi Cymru. Mae dull gweithio cydweithredol y rhaglen wedi arwain at weithio mwy

cydgyssylltiedig o fewn y bartneriaeth ffederal, er bod egluro union gwmpas uchelgais strategol y rhaglen yn parhau i fod yn hollbwysig. O ran cyfleoedd i gyfrannu at economi Cymru, nid yw effeithiau busnes a thwristiaeth (e.e. gwariant ymwelwyr) wedi cael eu cyflawni eto, er bod y gweithgarwch wedi symud ymlaen gryn dipyn o'i gymharu â'r Gwerthusiad Interim.

Effeithiau

- E.16. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos tystiolaeth o effeithiau cymharol fach ar draws pob un o'r pedwar maes mesur (cymdeithasol, arloesi, prosesau, ac economaidd), yn enwedig o ran effeithiau cymdeithasol a phrosesau. Mae effeithiau'r rhaglen o ran defnyddwyr unigol a gweithgareddau penodol y rhaglen yn cael eu hastudio'n fanwl yn yr Astudiaethau Achos Defnyddwyr ac Astudiaethau Achos Effaith (Atodiadau 3 a 4).

Effeithiau Cymdeithasol

- E.17. Mae tystiolaeth o effaith gymdeithasol yn codi ar draws y meysydd canlynol:
- **Sgiliau a Gwybodaeth:** Adroddodd defnyddwyr effaith fach ar eu sgiliau digidol yn ogystal â datblygu sgiliau meddalach e.e. gwaith tîm a chyfathrebu;
 - **Gwerth Ymchwil:** Roedd ymchwilyr o'r farn fod adnodd Casgliad y Werin yn un y gellid "ymddiried ynddo" a'i fod yn gynhwysfawr. Ystyriwyd hefyd fod mynediad i adnoddau wedi'u lanlwytho gan gymunedau Cymry alltud yn werthfawr;
 - **Dilyniant Gyrfa a Gwirfoddoli:** Roedd hanner y rhai a atebodd gwestiwn ar effaith y rhaglen ar ddilyniant gyrfa wedi nodi rhywfaint o effaith, a hynny gan amlaf o safbwynt gwirfoddoli allanol e.e. rhagor o sgiliau;
 - **Mwynhad:** Mae'r atebion i'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn adrodd rhywfaint o effaith ar eu 'bywyd cymdeithasol' e.e. mwynhad, diddordeb mewn treftadaeth, a chyfle i gael profiadau newydd;
 - **Cydlyniant Cymunedol:** Mae hyn wedi'i gyflawni drwy gefnogi prosiectau allanol sy'n ceisio dod â gwahanol grwpiau o bobl at ei gilydd (e.e. cenedlaethau gwahanol), ac/neu alluogi grwpiau sy'n aml heb gynrychiolaeth ddigonol i rannu eu straeon (e.e. ymfudwyr).

Effeithiau Arloesi

- E.18. Yr effaith arloesi fwyaf amlwg yw '*effaith ysgogi*', gyda chynghor ac arweiniad Casgliad y Werin yn ysbrydoli partneriaid allanol i fabwysiadu technolegau newydd neu gynnal prosiect cysylltiedig. Mae effaith arloesi arall yn cynnwys y gallu i hyrwyddo arbenigedd Cymreig mewn technolegau a dulliau gweithio yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Effeithiau Prosesau

- E.19. Mae'r prif effeithiau o ran prosesau yn cynnwys effeithlonrwydd ac arbedion adnoddau i randdeiliaid a phartneriaid allanol, oherwydd y gallu i elwa ar blatfform Casgliad y

Werin heb orfod buddsoddi yn ei ddatblygiad. Mae hyn yn arbennig o amlwg i nifer o brosiectau a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yr ymgynghorwyd â nhw, lle mae bodolaeth y safle wedi arwain at arbedion amser ac allbynnau'r prosiect yn para'n hirach.

- E.20. Mae parch mawr hefyd i ddull gweithio cydweithredol y rhaglen; dywedodd un ymgynghorai ei bod wedi bod ar flaen y gad wrth annog sector treftadaeth ddiwylliannol 'cydgysylltiedig'.

Effaith Economaidd

- E.21. Wrth ystyried effaith economaidd y rhaglen, edrychwyd ar ddau lwybr: datblygu sgiliau (y budd o gael 71 o hyfforddeion Casgliad y Werin yn cyflawni sgiliau achrededig Lefel 2) ac effeithiau ymwelwyr (dros 25% o'r defnyddwyr a ymatebodd wedi nodi bod cymryd rhan yn y rhaglen wedi ysgogi ymweliad twristiaeth ddiwylliannol). Dylid nodi bod yr effeithiau economaidd braidd yn fach oherwydd eu bod yn ategol at ganlyniadau craidd y rhaglen.

Effeithiau Ehangach

- E.22. 'Effaith ehangach' o bwys yw'r gwerth y mae defnyddwyr yn ei roi ar eu cyfraniad tuag at warchod adnoddau, straeon a hanesion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pennod 6: Casgliadau ac Argymhellion

- E.23. Amlinellwyd y prif argymhellion ar draws pedwar maes allweddol, sef: strategol; gweithredol; cynulleidfa a defnyddwyr; a chreu incwm. Mae'r argymhellion yr awgrymir y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wedi'u nodi isod yn Nhabl E.2.

Tabl E.2: Argymhellion Gwerthusiad Effaith 2016
Argymhellion Strategol
Adnewyddu a diwygio Blaenoriaethau Strategol y rhaglen , yn enwedig o ran cydweithio rhyngwladol, arweinyddiaeth ddigidol, a blaenoriaethau polisi sy'n codi e.e. lles, cydlyniant etc.
Targedu adnoddau at weithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y meysydd blaenoriaeth a nodwyd (h.y. ymgysylltu â'r gymuned, cynnal y platfform technegol, hyrwyddo'r rhaglen, a datblygu creu incwm ac/neu gynaliadwyedd ariannol), gan nodi cyswllt clir rhwng y buddion a'r adnoddau a fuddsoddwyd.
Argymhellion o ran Cynulleidfa a Defnyddwyr
Ystyrir mai blaenoriaeth allweddol i'r rhaglen yn y dyfodol yw targedu marchnata a hyrwyddo. Dylid datblygu strategaeth glir sy'n cefnogi codi ymwybyddiaeth am raglen Casgliad y Werin ac am ei hamcanion a'i gwasanaethau, yn ogystal â'r llwyddiannau allweddol hyd yn hyn ymysg cynulleidfaoedd targed gan ddeall yr adnodd penodol sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn.
Diffinio'n glir gynulleidfaoedd targed sy'n flaenoriaeth i'r rhaglen, pan fo hynny'n berthnasol o ran gwasanaethau a chynnyrch penodol y rhaglen. Anelu i ddeall yn well anghenion cynulleidfa benodol mewn perthynas â gwasanaethau sydd am ddim ac y telir amdanynt (a strategaeth brisio gysylltiedig), yn ogystal â 'phrofiad y defnyddiwr' a 'theithiau ymgysylltu'.
Argymhellion Gweithredol

Dyblygu'r 'map arloesi' a ddefnyddiwyd i weithredu prosiectau iBeacon yn llwyddiannus wrth gynnal gweithgareddau newydd h.y. Cynhyrchu syniad yn seiliedig ar alw clir a bod adnoddau ar gael> Treialu a phrofi'r syniad o fewn amserlen benodol> Lledaenu a'i lunio i raddfa (dull yn seiliedig ar dystiolaeth)

Mae sesiynau cyflwynol/cyfryngol yn hanfodol ar gyfer grwpiau cynulleidfa penodol er mwyn galluogi eu cyfranogiad llawn mewn hyfforddiant. Dylai adnabod cynulleidfaoedd i'w targedu gynorthwyo wrth fedru cyfeirio adnoddau at y cymunedau a'r unigolion hynny a fyddai'n elwa fwyaf o sesiynau cyfryngu, yn ôl blaenoriaethau'r rhaglen.

Creu incwm (thema drawsbynciol)

Egluro ymhellach a datblygu cyfleoedd i greu incwm ochr yn ochr â gweithgareddau craidd. Gall meysydd i'w hystyried gynnwys twristiaeth, ehangu talu-am-wasanaethau a chynnyrch, strategaethau prisiau haenedig ar gyfer grwpiau cynulleidfa penodol, ac/neu ymgyrchoedd ariannu creadigol e.e. ariannu torfol neu 'noddi Beacon' etc.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Ym mis Rhagfyr 2013 comisiynwyd ERS i gynnal gwerthusiad hydredol o raglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru (CyW). Ariannir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac mae bellach yn ei seithfed blwyddyn ers ei dechrau ac yn ei phedwaredd blwyddyn ar ei ffurf bresennol. Mae'r Gwerthusiad Terfynol hwn, a luniwyd yn 2016, yn canolbwyntio'n bennaf ar y gweithgarwch a wnaed rhwng 2014 a 2016, er bod canfyddiadau o'r Gwerthusiad Interim blaenorol hefyd wedi'u hystyried er mwyn asesu cynnydd yn erbyn y meincnod hwn ac i gynnig argymhellion cadarn. Oherwydd amseriad yr Adroddiad Interim, yn fuan ar ôl ailwampio technegol cynhwysfawr, roedd yr adroddiad hwnnw'n canolbwyntio'n fanylach ar faterion yn ymwneud â'r broses a gwersi a ddysgwyd drwy'r gweithgarwch. Mae'r Adroddiad Terfynol hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ac effeithiau.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.2 Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Pennod 1: Cyflwyniad** – mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o raglen Casgliad y Werin ynghyd â'i datblygiad, amcanion y gwerthuso a chrynodeb o'r Gwerthusiad Interim. Caiff y blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod 2014-17 hefyd eu hamlinellu.
- **Pennod 2: Methodoleg y Gwerthusiad** – yma manylir am fethodoleg y gwerthusiad a'r ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd, gan gynnwys: yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr; Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid; ac Astudiaethau Achos.
- **Pennod 3: Adnewyddu'r Cyd-destun** – yma sonnir am y prif ddatblygiadau strategol a pholisi diweddar sy'n berthnasol i nodau ac amcanion y rhaglen. Trafodir blaenoriaethau strategol y dyfodol, ynghyd â barn ymgynghoreion mewnol ac allanol am aliniad strategol a chyfeiriad y rhaglen.
- **Pennod 4: Gweithredu'r Prosiect** – pennod sy'n trafod themâu a datblygiadau allweddol yn ymwneud â chynnal y rhaglen yn y cyfnod gweithredu diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ariannol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), yn ogystal ag arferion gorau a heriau ar draws nifer o themâu, megis monitro a llywodraethu, ymgysylltiad â phartneriaid, a chynaliadwyedd.
- **Pennod 5: Canlyniadau ac Effeithiau** – amlinellir cyflawniadau a chynnydd allweddol y rhaglen yn erbyn amcanion yn y cyfnod gweithredu diweddaraf. Edrychir ar ganlyniadau ac effeithiau'r rhaglen ar wahanol grwpiau o randdeiliaid (hyd yma) yn ôl y pedwar maes effaith sy'n sail i'r gwerthusiad hwn, sef effeithiau cymdeithasol; arloesi; prosesau; ac economaidd. Mae 'Astudiaethau Achos Effaith' hefyd yn canolbwyntio ar bob un o'r meysydd hyn, ynghyd ag Astudiaethau Achos Defnyddwyr.
- **Pennod 6: Casgliadau ac Argymhellion:** Yma cyflwynir prif gyflawniadau, llwyddiannau a heriau'r rhaglen, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach.

- 1.3 Sylwer, drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir terminoleg sy'n ymwneud â grwpiau o ymatebwyr penodol, gan gynnwys: 'Defnyddiwr' (gyda phriflythyren, sy'n cyfeirio at ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr); 'Rhanddeiliaid Strategol a Phartneriaid Prosiect Allanol' (yn cynnwys ymgynghoreion allanol y rhaglen), ac 'Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd, a'r Grŵp Rheoli Mewnol' (ymgynghoreion mewnol). Mae'r term 'defnyddiwr' (llythrennau bach) yn cyfeirio at gynulleidfaoedd allanol sy'n cynnwys defnyddwyr a phartneriaid, ac yn gwahaniaethu rhwng 'defnyddwyr' yn ehangach ac ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr.

Amcanion y Gwerthusiad

- 1.4 Fel y nodwyd ym manyleb gychwynnol y gwahoddiad i dendro, amcanion cyffredinol gwerthuso rhaglen Casgliad y Werin yw:
- Gwerthuso pa mor effeithiol fu buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn rhaglen Casgliad y Werin;
 - Darparu tystiolaeth gynnar o'r effeithiau a'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau strategol y rhaglen.
- 1.5 Y **cwestiynau gwerthuso** y mae'r gwaith hwn felly yn ceisio'u hateb yw:
- Beth fu effaith Casgliad y Werin o ran: gwerth Cymdeithasol, Arloesi, Prosesau, ac Economaidd?
 - Beth oedd wedi mynd yn dda, beth gellid ei wella a pham?
- 1.6 Cynhaliwyd y gwerthusiad hydredol mewn dau gam. Manylir am fethodoleg ymchwil y Gwerthusiad Terfynol ym Mhennod 2, ac mae trosolwg o Amcanion y Gwerthusiad Interim a Therfynol i'w gweld isod. I gael cyd-destun, mae crynodeb o'r Gwerthusiad Interim wedi'i gynnwys dros y dudalen.
- 1.7 **Cam 1: Gwerthusiad Interim (2014)** roedd hwn wedi sefydlu llinell sylfaen ac yn cyflwyno'r canfyddiadau cychwynnol. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y canlynol: mesur cynnydd tuag at amcanion strategol; amlygu arfer da; darparu tystiolaeth gynnar o effaith Casgliad y Werin; yn ogystal ag yn cynnwys argymhellion i gefnogi cyflawni amcanion strategol y rhaglen ac ychwanegu gwerth at fentrau strategol ehangach. Aseswyd effeithiau ar draws pedwar maes allweddol: prosesau; cymdeithasol; arloesi; economaidd.
- 1.8 **Cam 2: Gwerthusiad Terfynol (2016)** –nod hwn yw llunio dadansoddiad cynhwysfawr a chadarn o allbynnau, canlyniadau ac effeithiau rhaglen Casgliad y Werin ynghyd ag adolygu'r gwaith o'i gweithredu. Defnyddiwyd strwythur a methodoleg tebyg i Gam 1 (er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn y llinell sylfaen), ond dyranwyd adnoddau i'r gwahanol dasgau mewn modd oedd yn adlewyrchu gwahanol anghenion y Gwerthusiad Terfynol h.y. cynrychioli esblygiad gweithgareddau'r rhaglen a'r angen i ganolbwyntio llai ar y broses fewnol. O ganlyniad rhoddwyd mwy o ffocws ar elfennau strategol, effeithiau, ac etifeddiaeth (gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cynaliadwyedd).

Crynodeb o Argymhellion Gwerthusiad Interim Casgliad y Werin

Roedd y Gwerthusiad Interim (2014) yn canolbwyntio ar waith a wnaed rhwng Ebrill 2011 a 2013/14, gan gyflwyno canfyddiadau cychwynnol yn erbyn amcanion strategol 2014-17 y rhaglen er mwyn sefydlu llinell sylfaen. Roedd y prif gyflawniadau yn ystod y cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Cwblhau'r **'adnewyddu technegol'**: sef diweddarau'r wefan mewn ymateb i newidiadau technolegol (gan ganiatáu e.e. ar gyfer defnyddio platfformau symudol i adlewyrchu newid yn newisiadau defnyddwyr ac ati).
- Adborth calonogol iawn gan y mwyafrif mewn perthynas â **staff y rhaglen**, eu brwdfrydedd ac wrth ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau.
- Mae'r rhaglen wedi dangos esblygiad **parhaus**, e.e. gwelliannau i strwythur a phrosesau llywodraethu.

Cyflawni yn erbyn Blaenoriaethau Strategol 2014-17 (Crynodeb)

Blaenoriaeth 1: Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth yng Nghymru ac i'r byd drwy blatfform digidol cynaliadwy a chynhwysol sy'n cael ei rannu:	▪ Datblygu ac adnewyddu'n llwyddiannus blatfform technegol dwyieithog, er bod cyllid yn y dyfodol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd. ▪ Prif fanteision ymwneud â Chasgliad y Werin i ddefnyddwyr oedd 'gwybod mwy' a mwynhad.
Blaenoriaeth 2: Galluogi a gweddnewid cymunedau lleol ac unigolion i ddefnyddio gwefan, offer ac adnoddau Casgliad y Werin i rannu, cyflwyno a dehongli eu diwylliant a'u treftadaeth eu hunain	▪ Mae atebion yr holiadur yn dangos fod y rhaglen wedi cefnogi rhai unigolion i ennill gwybodaeth a sgiliau digidol. ▪ Gwelwyd hefyd enghreifftiau o CyW yn galluogi neu'n cyfrannu at lwyddiant prosiectau a gweithgareddau allanol.
Blaenoriaeth 3: Defnyddio gwefan ac offer Casgliad y Werin, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, i gefnogi gweithgareddau a strategaethau dysgu gydol oes a chreu adnodd ar-lein dwyieithog hygyrch ar gyfer dysgwyr ffurfiol	▪ Datblygu llwyddiannus ar adnodd dwyieithog, ar-lein, er bod cyfyngiadau technegol wedi oedi gweithgareddau dysgu ffurfiol a gynlluniwyd.
Blaenoriaeth 4: Cynorthwyo / cynghori'r sector treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru wrth ddatblygu ymagwedd gydlynol at faterion digidol, gan nodi cyfleoedd i gyfrannu at economi Cymru.	▪ Mae adborth ynghylch diben strategol CyW yn gymysg, ac mae angen egluro rôl arweinyddiaeth y rhaglen. ▪ Ni welwyd tystiolaeth arwyddocaol o effaith economaidd ar y cam hwn, ac mae angen ystyried y maes hwn ymhellach.

Argymhellion Gweithredu

Trefnwyd yr argymhellion o dan dri maes: strategol; cynulleidfaoedd a defnyddwyr; a gweithredol.

Argymhellion Strategol:

- **Sefydlu rôl benodol** i'r rhaglen (yn arbennig, diffinio bwriadau Casgliad y Werin mewn perthynas ag: arweinyddiaeth; cadwraeth; arloesi; effaith economaidd; a dysgu).
- **Cynaliadwyedd ariannol** angen sylw h.y. mynd ati'n rhagweithiol i gael buddsoddiad allanol a chreu incwm (ar yr un pryd â pharau yn agored ac yn hygyrch).

Argymhellion Cynulleidfa a Defnyddwyr:

- **Deall defnyddwyr y rhaglen yn well**, a'u hymddygiad, nodweddion a'u dewisiadau er mwyn cynorthwyo â gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- **Cyhoeddi mwy o wybodaeth** am raglen CyW ar y wefan, gan gynnwys amcanion a llwyddiannau'r rhaglen.
- Sicrhau bod **model cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned** yn cael ei gyflwyno, ac sy'n realistig yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael.
- Datblygu ymhellach dulliau **ymgysylltu â'r gymuned ar-lein** neu'n rhithwir.

Argymhellion Gweithredol:

- **Gwella a symleiddio strwythur llywodraethu a rheoli'r rhaglen.** Nodi'n gliriach rolau ac awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau, a chryfhau'r bartneriaeth graidd.
- **Cynnal yr ymarferoldeb technegol** (a ystyrir i fod yn annatod i gynnal 'brand' CyW) a rhoi blaenoriaeth i ddatrys problemau sy'n cael eu codi gan ddefnyddwyr yn hytrach na phethau arloesol newydd.
- **Cynyddu faint o gynnwys sy'n cael ei greu gan ddefnyddwyr a chynnwys cymunedol** er mwyn cryfhau'r statws mai casgliad 'y werin' ydyw ac atal "hadau" cynnwys partneriaid rhag cymryd drosodd y safle.

Crynodeb o Argymhellion y Gwerthusiad Interim a'r Cynnydd a wnaed arnynt:

- 1.9 Ar y cam hwn mae hefyd yn berthnasol rhoi sylw yn fyr i gyflawniadau'r rhaglen a'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion y Gwerthusiad Interim. Ar y cyfan, mae'n amlwg y gweithredwyd ar yr argymhellion a bod cynnydd wedi'i wneud ar draws meysydd yr argymhellion sef Strategol; Cynulleidfa a Defnyddwyr; a Gweithredol. I grynhoi, mae'r argymhellion wedi cael sylw fel a ganlyn:

Tabl 1: Crynodeb o Argymhellion y Gwerthusiad Interim a'r Cynnydd a wnaed arnynt	
Argymhelliad	Cynnydd a wnaed
Argymhellion Strategol 2014	
Sefydlu rôl benodol i'r rhaglen	Tystiolaeth bod rôl Casgliad y Werin o ran ei 'chynnig craidd' wedi cael ei chrisialu ac yn cael ei deall yn dda. Mae hyn yn gweithio'n arbennig o dda mewn cwmphas daearyddol a strategol sydd â ffocws iddynt e.e. Ardaloedd Arloesi, gan gadarnhau dealltwriaeth glir ymhlith rhanddeiliaid a phartneriaid prosiect o gylch gwaith y rhaglen.
Mynd ati'n rhagweithiol o ran cynaliadwyedd ariannol	Targedau creu incwm wedi'u gweithredu a'u cyflawni.
Argymhellion Cynulleidfa a Defnyddwyr 2014	
Deall defnyddwyr y rhaglen yn well	Cynhaliodd Casgliad y Werin waith i ddeall defnyddwyr y rhaglen yn seiliedig ar grwpiau cynulleidfa Simon Tanner. ⁵ Prif amcanion y gwaith hwn oedd: ▪ Cysylltu diffiniadau Cynulleidfa Tanner â chynulleidfaoedd rhaglen Casgliad y Werin; ▪ Dechrau ystyried grwpiau cynulleidfa blaenoriaeth; ▪ Ystyried ymhellach daith ymgysylltu i ddefnyddwyr.
Cyhoeddi mwy o wybodaeth am raglen Casgliad y Werin ar y wefan	Mae ERS yn nodi bod rhagor o wybodaeth ar wefan Casgliad y Werin, er enghraifft, o ran yr hyn y mae Gorsaf Treftadaeth Ddigidol yn ei gynnig, a mwy o amlygrwydd i gyfraniadau'r Pencampwyr. Yn gysylltiedig, mae gwaith wedi dechrau yn ddiweddar i lunio llyfrynau sy'n dangos rhai o wasanaethau Casgliad y Werin.
Sicrhau model cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned	Mae adnoddau yn parhau i fod yn her allweddol i raglen Casgliad y Werin. Mae gwaith i gwtogi'r ymrwymiad 'ar lawr gwlad' (e.e. sefydlu dysgu cyfunol a 'chymorthfeydd Skype') yn dangos ymdrechion i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Mae gweithio drwy eraill sydd eisoes mewn cysylltiad â chymunedau hefyd i'w weld yn ddull effeithiol.
Datblygu dulliau ymgysylltu â'r gymuned yn rhithwir neu ar-lein	Mae presenoldeb y rhaglen ar y cyfryngau cymdeithasol a'i gallu i gyfathrebu â defnyddwyr wedi'i wella ers cyfnod y Gwerthusiad Interim.

⁵ Comisynwyd ERS i gynnal [Gwaith Cynulleidfa](#) i gyfrannu at yr amcanion uchod ym mis Awst 2015. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau [Gweithdy Fframwaith Ymgysylltu Digidol](#) (Mawrth 2015), dan arweiniad Jasper Visser a Jim Richardson ochr yn ochr ag ERS, a [Gwaith Mapio Data ERS](#) (Hydref 2015), sy'n cyd-fynd â gwaith parhaus ar y Strategaeth Farchnata a gweithgareddau gan Dîm y Rhaglen.

Argymhellion Gweithredol 2014	
Gwella a symleiddio strwythur llywodraethu a rheoli'r rhaglen.	Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus gan fod adborth yn dangos bod prosesau presennol yn addas i'r pwrpas a bod morâl a chysylltiadau wedi'u meithrin a'u cryfhau.
Cynnal yr ymarferoldeb technegol a rhoi blaenoriaeth i broblemau defnyddwyr	Mae'r ymarferoldeb technegol wedi gwella ac wedi'i gadw yn dilyn yr adnewyddu technegol ac mae'r platfform yn parhau'n sefydlog.
Cynyddu faint o gynnwys sy'n cael ei greu gan ddefnyddwyr a chynnwys cymunedol	Teimlir bod y wefan wedi llwyddo i gael 'digon' o gynnwys. Er bod yr adnewyddu technegol a gynhaliwyd wedi cael effaith negyddol ar gyfraniadau defnyddwyr, mae dangosyddion perfformiad allweddol yn dangos bod cyfraniadau defnyddwyr a phartneriaid (allanol) ehangach gyda'i gilydd erbyn hyn wedi rhagori ar y lefelau cyn yr adnewyddu, gan bron â dyblu'r ffigwr hwn yn y cyfnod diweddaraf sydd ar gael (25,909 o gyfraniadau yn 2015-16).

- 1.10 Lle bo hynny'n berthnasol (h.y. pan geir cyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach a phan fo'r cyfleoedd hyn yn parhau'n berthnasol i amcanion y rhaglen) mae argymhellion yn ymwneud â'r themâu uchod wedi'u hymgorffori yn argymhellion Pennod 6. Y themâu allweddol sydd wedi'u dwyn ymlaen yw: egluro'r hyn y mae Casgliad y Werin yn ei gynnig, datblygu ymhellach ar gymunedau ar-lein, nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ymgysylltu cymunedol llwyddiannus, a pharhau i gynhyrchu cynnwys gan bartneriaid allanol a defnyddwyr.

Rhaglen Casgliad y Werin

- 1.11 Mae'r adran ganlynol yn manylu'n gryno ar esblygiad rhaglen Casgliad y Werin o ran y cyfnodau gweithredu a datblygu amcanion y rhaglen.
- 1.12 Caiff Casgliad y Werin ei gweithredu gan bartneriaeth ffederal rhwng tri chorff cenedlaethol sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth, sef Amgueddfa Cymru-National Museum Wales (AC-NMW); Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC); a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC). Mae Casgliad y Werin wedi datblygu platfform digidol a dwyieithog sy'n rhoi modd i ddefnyddwyr ddarganfod, rhannu a chyfrannu at gasgliad ar-lein o dreftadaeth a hanes pobl Cymru. Caiff cynnig craidd y wefan ei ategu gan raglen ehangach o weithgareddau sydd â'r nod o gefnogi, er enghraifft, cynhwysiant digidol a diwylliannol, sgiliau a dysgu gydol oes, a thwristiaeth ddiwylliannol.

Esblygiad y Rhaglen

- 1.13 Mae rhaglen Casgliad y Werin wedi mynd drwy dri phrif 'gam' gweithredu ers ei sefydlu. Amlinellir y camau hyn dros y dudalen.

Cam y Datblygiad Cychwynnol (2008-2011)

- 1.14 Roedd y cam cychwynnol wedi sefydlu fersiwn beta o safle Casgliad y Werin, yn ogystal â'r bartneriaeth ffederal, wedi'i threfnu gan Brifysgol Aberystwyth. Cafodd model gweithredu a llinynnau gwaith hefyd eu datblygu, gan lansio rhaglen Casgliad y Werin (a gwefan gychwynnol) ym mis Awst 2010, i fod yn offer ar y we, yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ac yn bodoli'n unswydd i gofnodi hanes Cymru a'i phobl.⁶

Cam 2: Adnewyddu Technegol (2011-13/14)

- 1.15 Mae'r bartneriaeth ffederal wedi gweithredu rhaglen Casgliad y Werin ers 2011. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru, drwy Is-adran Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau (MALD), wedi bod â rôl monitro a chefnogi rhaglen Casgliad y Werin, heb ymwneud â'r gwaith o'i gweithredu. Cytunir gyda Llywodraeth Cymru ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer y Rhaglen yn flynyddol ac fe gânt eu monitro bob chwarter gan MALD.
- 1.16 Gwaith allweddol a wnaed yn ystod Cam 2 oedd yr adnewyddu technegol, a oedd yn cynnwys diweddau'r wefan a'r isadeiledd technegol mewn ymateb i newidiadau technolegol megis mwy o ddefnydd ar blatfformau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â newid yn newisiadau defnyddwyr. Roedd y wefan wedi aros yn fyw drwy gydol yr adnewyddu er bod rhai cyfyngiadau ar swyddogaethau a oedd yn effeithio ar weithgareddau'r rhaglen.
- 1.17 Ar yr un pryd, daeth y gweithredu yn fwy rhaglennol, gan fod â mwy o ffocws ar becyn holistig o gynigion Casgliad y Werin ochr yn ochr â'r wefan. Fesul cam cyflwynwyd rhaglen o ailymgysylltu â phartneriaethau cymunedol ac addysgol yn ogystal â rhanddeiliaid gweithredol ehangach.⁷ Cafodd mwy o fomentwm ei greu yn y cyfnod ailymgysylltu, er y nodwyd risg y gallai'r rhaglen fynd yn fwy cymhleth ac y gallai hyn effeithio ar gynnydd y cynnyrch craidd h.y. yr adnoddau ar-lein.

Cam 3 (2014/15-presennol)

- 1.18 Mae gweithredu'r rhaglen ar hyn o bryd yn cael ei wneud yn unol â'r nodau ac amcanion a nodwyd yng Nghynllun Busnes 2014-17. Yn fras, roedd prif weithgareddau'r rhaglen yn 2015-16 (gyda'r wefan yn greiddiol i hyn) yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Cefnogaeth i agenda strategol diwylliant a thlodi;
 - Themâu allweddol megis Patagonia 150; digwyddiadau i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf;
 - Datblygu cynnig sgiliau a hyfforddi Casgliad y Werin, gan gynnwys drwy'r Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol;
 - Datblygu gwasanaethau yn gysylltiedig ag iBeacon, rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API), datblygiadau microwefannau;
 - Arweinyddiaeth Ddigidol.

⁶ Casgliad y Werin (2013), Gwybodaeth i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

⁷ Casgliad y Werin (2013), Gwybodaeth i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1.19 Mae datblygiadau mawr diweddar sy'n effeithio ar weithredu Casgliad y Werin yng Ngham 3 (ac a amlinellir yn fanwl ym Mhennod 4) yn cynnwys:

- Newidiadau cyllido (gostyngiad yn y cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru);
- Strwythur Llywodraethu (h.y. newidiadau i'r Grŵp Rheoli);
- Newidiadau i'r Llinynnau Gweithio (h.y. newidiadau i'r Llinyn Marchnata, datblygu'r Llinyn Dysgu).

Gweledigaeth y Rhaglen 2011-17 a 2014-17

Esblygiad Amcanion y Rhaglen

1.20 Mae nodau ac amcanion rhaglen Casgliad y Werin wedi esblygu drwy gydol y cyfnodau gweithredu a amlinellir uchod. Ers 2011, mae cynlluniau busnes blynyddol wedi'u llunio i lywio cyfeiriad strategol a gweithgarwch gweithredol, gyda strategaeth hirdymor wedi'i llunio ar gyfer y cyfnod 2014-17. Mae strategaeth 2014-17 yn cynnwys meysydd newydd, er enghraifft, ymchwilio i gyfleoedd ariannu ychwanegol.

1.21 Datblygodd y weledigaeth gyffredinol dros linell amser y rhaglen yn ei chyfanrwydd:

- **2011-12:** darparu *'platform unigryw i gyfrannu deunydd ar-lein'* yn ymwneud â threftadaeth Cymru – yn y Gymraeg a'r Saesneg – gan roi lle blaenllaw i ffocws cynnar ar sefydlu offer ar-lein.
- **2012-13:** *'datblygu cael defnyddwyr i gymryd rhan yn frwdfrydig ac i barhau i wneud hynny yn aml, ac i rannu gwybodaeth a straeon yn gyson'*, gan ddangos mwy o bwyslais ar barhad ymgysylltu wrth adeiladu cynnwys y safle *'drwy waith ar llinynnau gwaith Casgliad y Werin'*.
- **2014-17:** *'Bydd cyfranogwyr yn cael mynediad agored ac am ddim i blatfform rhithwir dibynadwy ac i raglen o wasanaethau wedi'u cyfryngu a digyfryngiad. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bob person yng Nghymru, a phobl sydd â diddordeb yn ei diwylliant a'i threftadaeth, wella eu dealltwriaeth ac ennill sgiliau achrededig i gyhoeddi eu deunydd eu hunain.'*

1.22 Mae'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer 2014-17 yn nodi pwysigrwydd defnyddio sgiliau a gwybodaeth y bartneriaeth ffederal ar draws yr holl waith sydd i'w wneud, gan arwain at *'wella capasiti a gallu cymunedau lleol i gofnodi a rhannu eu hanes a'u treftadaeth eu hunain'*. Mae'r weledigaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd y rhaglen.

1.23 Mae Strategaeth 2014-17 yn amlinellu pedair blaenoriaeth strategol yn ogystal ag egwyddorion craidd Casgliad y Werin i 'Alluogi, Ymgysylltu a Thrawsnewid'. Manylir am y rhain dros y dudalen.

- | |
|---|
| <ul style="list-style-type: none">▪ Blaenoriaeth 1: Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth yng Nghymru ac i'r byd drwy blatfform digidol cynaliadwy a chynhwysol sy'n cael ei rannu;▪ Blaenoriaeth 2: Galluogi a gweddnewid cymunedau lleol ac unigolion i ddefnyddio gwefan, offer ac adnoddau Casgliad y Werin i rannu, cyflwyno a dehongli eu diwylliant a'u treftadaeth eu hunain; |
|---|

- **Blaenoriaeth 3:** Defnyddio gwefan ac offer Casgliad y Werin, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, i gefnogi gweithgareddau a strategaethau dysgu gydol oes a chreu adnodd ar-lein dwyieithog hygyrch ar gyfer dysgwyr ffurfiol; a
- **Blaenoriaeth 4:** Cefnogi a chynghori'r sector treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru wrth ddatblygu ymagwedd gydlynol at faterion digidol, gan nodi cyfleoedd i gyfrannu at economi Cymru.

Prif Gyflawniadau'r Rhaglen

- 1.24 O ran y cyfnodau gweithredu 2014-15 a 2015-16, mae cyflawniadau allweddol y rhaglen a'r llinynnau gwaith yn ymwneud yn uniongyrchol â strategaeth 2014-17, gyda blaenoriaethau yn cynnwys:

Ymgysylltu â'r Gymuned a Dysgu

- Parhau i gynnig hyfforddiant digideiddio a hanes llafar, gyda'r opsiwn o achrediad, ac yn enwedig datblygu gwaith penodol gyda chymunedau a chynulleidfaoedd allweddol e.e. myfyrwyr, NEETs;
- Sefydlu **Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol** mewn lleoliadau allweddol (drwy ddarparu hyfforddiant ac offer digideiddio) er mwyn galluogi cymunedau i lanlwytho a chyhoeddi eu deunyddiau eu hunain i wefan Casgliad y Werin. Ffocws ar gefnogi sgiliau digidol a chynhwysiant, yn enwedig cymunedau dan anfantais;
- Cefnogi **dysgu gydol oes a dysgu ffurfiol** drwy'r adnoddau a'r hyfforddiant a ddarperir gan y rhaglen, gan gynnwys creu adran ddysgu ffurfiol ddwyieithog ar gyfer Casgliad y Werin fel rhan o Gam 2 gweithredu'r rhaglen;
- Canfod ac/neu hyfforddi rhagor o **Bencampwyr Casgliad y Werin** h.y. unigolion sy'n dangos brwdfrydedd a chefnogaeth i brosiect gwefan Casgliad y Werin.

Arloesi a Thechnoleg

- Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau newydd yn y sectorau twristiaeth a threftadaeth ddiwylliannol gan ddefnyddio **technoleg iBeacon**, gan gynnwys gosod iBeacon mewn lleoliadau allweddol;
- Cwblhau'r Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) er mwyn rhoi modd **datblygu 'microwefannau'** (h.y. platfformau annibynnol [*stand-alone*] sy'n cysylltu â gwefan Casgliad y Werin ac yn defnyddio isadeiledd technolegol Casgliad y Werin). Y nod yw galluogi rhanddeiliaid i ddatblygu eu microwefannau eu hunain ar themâu, prosiectau, neu ddathliadau perthnasol gan gysylltu dolen â gwefan Casgliad y Werin, yn ogystal ag anelu at gynyddu faint o gynnwys sy'n cael ei gyhoeddi.

Strategaeth, Partneriaethau a Buddsoddiad


- Archwilio dulliau newydd ac arloesol o **gynyddu cyllideb y rhaglen** 10 y cant (£50,000) drwy fuddsoddiad gan ffynonellau cyllid allanol ac/neu greu incwm;
- Archwilio a chytuno ar strategaeth **cadwraeth ddigidol** a safbwynt clir ar gadwraeth mewn perthynas â gwasanaethau Casgliad y Werin;
- Cynorthwyo wrth hwyluso a datblygu **strategaeth diwylliant a threftadaeth ddigidol i Gymru gyfan**;
- Hyrwyddo **partneriaeth â Gofod Ymchwil ac Addysg y BBC** (BBC RES) ynghylch mynediad i ddeunydd archifol.

Cynnwys

- Cyfrannu at **elfennau digidol mentrau a digwyddiadau cenedlaethol** megis coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, dathlu 150 Patagonia, a Rygbi Cymru.

2. METHODOLEG Y GWERTHUSIAD

- 2.1 Mae'r Gwerthusiad Terfynol yn adeiladu ar y Gwerthusiad Interim a gynhaliwyd yn 2014, gan fod â mwy o bwyslais ar gael tystiolaeth o ganlyniadau ac effeithiau sydd wedi codi. Mae'r Gwerthusiad Terfynol yn defnyddio offer a strwythur ymchwilio tebyg (er mwyn galluogi olrhain cynnydd yn erbyn y llinell sylfaen), er bod yr adnoddau wedi'u dyrannu i adlewyrchu gwahanol anghenion y Gwerthusiad Terfynol.
- 2.2 Amlinellir y dull gwerthuso yn fras yn Ffigwr 1 isod.



Ffigwr 1: Crynodeb o Fethodoleg y Gwerthusiad Terfynol

Fframwaith y Gwerthusiad

- 2.3 Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar ddull Cadwyn Resymeg sy'n sefydlu 'Theori Newid' rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau, ac effeithiau. Mae hyn yn rhoi modd olrhain yr adnoddau a ddyrannwyd i'r rhaglen a'r canlyniadau a'r effeithiau sy'n deillio o hynny i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid gwahanol.
- 2.4 Mae'r Gadwyn Resymeg ar gyfer y cyfnod gweithredu 2014-17 dros y dudalen.

Cadwyn Resymeg Rhaglen CyW 2014-17

Cenhadaeth: Mynediad agored ac am ddim i blatfform rhithwir dibynadwy. Cyfle i bob person yng Nghymru wella eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth a gwella sgiliau.

Mewnbynnau	Gwaith parhaus	Allbynnau	Canlyniadau	Effeithiau
Cyfanswm Cyllideb: £1,650,000 Refeniw: £1,500,000 Cyfalaf: £150,000 Amser Staff Llyfrgell Genedlaethol £487,850 Amser Staff Amgueddfa Cymru £966,350 Amser Staff Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru £115,300	- Marchnata/Hyrwyddo(March.) - Ymholiadau (ymg.cymuned) - Golygu e.e. tud.flaen (Cynnwys) - Amlyncu cynnwys (ymg.cym) - Cymedroli (Cymedroli) - Dangosfwrdd ystadegau (Tech.)	- Cyflymder llwytho tt., uptime - Nifer y defnyddwyr - Sylw yn y wasg - Elfennau wedi'u cymedroli - Deunyddiau marchnata (etc.) - Cynnwys wedi'i gynaeafu	- Brand ac adnodd dwyieithog, dibynadwy nad yw'nddadleuol - Profiad / bodlonrwydd defnyddwyr - Cynnwys wedi'i greu gan ddefnyddwyr - Cadwraeth hirdymor - Ailddefnydd cynaliadwy ar gynnwys	Cymdeithasol: Cadw adnoddau diwylliannol; deall a chael mynediad i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru Proses: cydlynad a phartneriaethau ar draws y sector treftadaeth ddigidol Economaidd: Manteision defnyddio'r cynnwys
	Datblygu Strategaeth	Allbynnau	Canlyniadau	Effeithiau
	Hwyluso datblygu strategaeth treftadaeth ddigidol Cymru	- Cyfarfodydd â phartneriaid allweddol - Fframwaith/Egwyddorion	Wedi cytuno ar strategaeth treftadaeth ddigidol Cymru Gyfan ar draws y partneriaid a'r sector	Proses: Cydlynad ar draws treftadaeth ddigidol Cymru
	Prosiectau	Allbynnau	Canlyniadau	Effeithiau
	Datblygu rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) Arwain: Tech	API amlswyddogaethol sy'n galluogi data gwthio tynnu o blatfformau a nodwyd	- Cael allwedd API - Cyfraniadau drwy API - Eitemau yn weladwy ar blatfformau eraill	Arloesi: defnydd arloesol o API Proses: Arian wedi'i arbed gan bartneriaid drwy fod technoleg ar gael
	Rhaglen Ddysgu Ffurfiol Arwain: Dysgu	- Swm y cynnwys dysgu - Defnyddwyr yr adran ddysgu - Ysgolion, Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd yr ymgysylltwyd â hwy	- Ffynhonnell ddibynadwy i adnoddau addysg - Sgiliau athrawon wedi cynyddu - Ymgysylltu ag Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd, Archifdai drwy ddefnyddio platfform CyW	Proses: Arbedion £, amser (athrawon, ysgolion, amgueddfeydd, llyfrg., archifdai lleol) Cymdeithasol: Mwy o gyd-destun Cymreig; Mwy o fynediad (todi diwylliannol)
	Labordai Arloesi Arwain: Arloesi	- Diwrnodau hacio - Cyfleoedd ariannu torfol - Llwybrau hyperleol - Llwybrau at fasnacheiddio	- Ymgysylltu â sefydliadau AU (e.e. TG, astudiaethau enwau lleoedd) - Apiau unigryw o fewn yr hanesyddol - SME yn defnyddio cynnwys CyW	Arloesi: Arweinyddiaeth mewn treft. ddigidol gan ddefnyddio 'ymyl i'r craidd' Cymdeithasol: Mewnbyn i ast. academiaidd Economaidd: Cefnogi twf SME
	Coffáu / Digwyddiadau e.e. Cymru'n Cofio, Dylan Thomas 100 Arwain: Cynnwys	Cynnwys perthnasol ac amserol ar gyfer Cymru'n Cofio	- Microwefannau o ran digwyddiadau - Defnyddio cynnwys perthnasol - Cynnwys pwnc-benodol gan ddefnyddwyr.	Cymdeithasol: Mwy o ddealltwriaeth o Gymru a'r Rh.B.1 ac ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau cofio
	Datblygu gwirfoddolwyr/pencampwyr Arwain: Ymg.Cymuned	- Digwyddiadau wedi'u cynnal - Sgiliau digidol wedi'u hachredu - NEETs wedi'u cefnogi - Graddedigion hanes wedi'u cefnogi	- Gwirfoddolwyr yr ymgysylltwyd â nhw - Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol - Sgiliau digidol - Atgyfeiriadau i Gyrfaoedd Cymru	Cymdeithasol: Cymunedau yn rhannu ac yn dehongli eu treft. ddiwylliannol eu hunain. Mynediad/defnyddio gwas. digidol Economaidd: Parod i waith
	Partneriaethau Twristiaeth Ddiwylliannol Arwain: Ymg.Cymuned	- Partneriaethau â: gwestai, awdurdodau lleol etc. - Dolenni/croesyfeiriadau ar y we	- Defnyddwyr / ymweliadau i'r wefan drwy wefannau twristiaid megis VisitWales - Defnyddio apiau twristiaeth	Economaidd: Rhagor o ymweliadau /rhai hirach i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru
	Cam 2 Datblygu Technegol Arwain: Tech	- Ymgynghoriadau ar gyfer Cam 2 - Diffinio manyleb Cam 2	- Gweithredu addasiadau / nodweddion sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr - Y we semantig	Arloesi: Arfer gorau arweinyddiaeth mewn technoleg treftadaeth ddigidol

- 2.5 Canlyniad anuniongyrchol y gwerthuso a'r monitro yw bod dull y Gadwyn Resymeg wedi'i fabwysiadu gan y rhaglen i gynorthwyo wrth gynllunio busnes a monitro cynnydd. (Trafodir y prosesau gwerthuso a monitro yn fanylach ym Mhennod 4.)

Model Effaith Gwerth Cytbwys Tanner

- 2.6 Mae'r gwerthusiad hwn wedi addasu Model Effaith Gwerth Cytbwys Tanner⁸ er mwyn cael asesiad effaith symlach. Mae'n seiliedig ar gysail y pedwar gwerth craidd sydd i adnoddau ar-lein, sef:
- **Gwerth Cymdeithasol:** e.e. gwybodaeth a sgiliau, cydlyniant cymunedol, lles;
 - **Gwerth Arloesi:** e.e. technolegau newydd neu ffyrdd newydd o weithio, neu ffyrdd newydd o ddefnyddio technolegau neu ffyrdd o weithio sy'n bodoli eisoes;
 - **Gwerth Prosesau:** e.e. tystiolaeth o arbedion adnoddau yn sgil cynyddu effeithlonrwydd arferion gweithio; a
 - **Gwerth Economaidd:** e.e. y gwerth ychwanegol i'r economi drwy ddatblygu sgiliau a mwy o wario gan ymwelwyr.

Ymchwil Sylfaenol

- 2.7 Gwnaed ymchwil sylfaenol gydag unigolion sydd eisoes yn rhan o'r rhaglen, gan gynnwys, fel y nodwyd yn flaenorol: Defnyddwyr; Rhanddeiliaid Strategol a Phartneriaid Prosiect Allanol; Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd, a'r Grŵp Rheoli Mewnol.

E-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 2.8 Cynhaliwyd e-Holiadur i Ddefnyddwyr, gyda'r rhan fwyaf o'r cwestiynau craidd wedi aros yn ddigyfnewid ers yr e-holiadur blaenorol i ddefnyddwyr a wnaed gan ERS yn 2014, er mwyn gallu cymharu. Cafodd rhai cwestiynau eu diweddarau neu eu dileu i adlewyrchu gweithgareddau gwahanol y rhaglen o'i gymharu â'r ddarpariaeth yng Ngham 2. Er enghraifft, tynnwyd y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r 'adnewyddu technegol' a gynhaliwyd gan fod y gweithgaredd hwn wedi'i gwblhau ac nid yw'r cwestiynau bellach yn berthnasol i'r sefyllfa bresennol. Fel yn 2014, cynigwyd yr holiadur yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 2.9 Amcangyfrifir bod tua 3000 o ddefnyddwyr cofrestredig ar wefan Casgliad y Werin. Oherwydd rhesymau diogelu data, nid oedd yn bosibl i ERS anfon yr holiadur yn uniongyrchol at yr holl ddefnyddwyr cofrestredig trwy e-bost. O gofio'r gyfradd ymateb isel i e-holiadur y Gwerthusiad Interim (sef 15 ymateb wedi'u cwblhau) gan na ellid gwneud dim ond ei gyhoeddi ar y wefan a'i gynnal yn ystod y cyfnod adnewyddu technegol, roedd hi'n holl bwysig fod dulliau dosbarthu uniongyrchol yr holiadur ar gyfer y Gwerthusiad Terfynol yn cael cyfradd ymateb uwch er mwyn sicrhau canlyniadau mwy cadarn.

⁸ Tanner's Balanced Value Impact Model

http://www.kdcs.kcl.ac.uk/fileadmin/documents/pubs/BalancedValueImpactModel_SimonTanner_October2012.pdf

- 2.10 Y tro hwn gosodwyd dolen i'r holiadur ar hafan gwefan Casgliad y Werin a hyrwyddwyd yr holiadur ar y cyfryngau cymdeithasol (yn ddwyieithog yn y ddau achos). Yn ogystal, dosbarthwyd yr holiadur i restr bostio tanysgrifwyr gwefan Casgliad y Werin (cyfanswm o 385 o unigolion ar adeg yr arolwg). Yn gyfan gwbl, derbyniwyd 38 o ymatebion cyflawn (o gyfanswm o 70 o ymatebwyr a ddechreuodd yr holiadur), felly llwyddwyd i gael cyfwng hyder (*confidence interval*) o 11.58 +/- 11.58 y cant. Mae hyn yn welliant mawr o'r astudiaeth flaenorol; er y byddai cyfwng hyder o dan 10 y cant wedi bod yn fwy dymunol. At ei gilydd, daeth 33 o'r ymatebion cyflawn hyn drwy'r fersiwn Saesneg a 5 drwy'r un Cymraeg.
- 2.11 Cafwyd cynnydd sydyn yn nifer yr ymatebion ar adeg cyhoeddi'r cylchlythyr (cyfanswm o 13 ymateb ar 16 Chwefror), felly mae'n debygol iawn fod yr ymatebwyr wedi dod o'r gronfa o 385 o danysgrifwyr y cylchlythyr, yn hytrach nag o blith y 3000 o ddefnyddwyr. Mae'r atebion i'r holiadur a gyflwynir yn yr adroddiad hwn felly yn ddangosol ac fe'u cyflwynir fel barn unigolyn ac/neu astudiaethau achos yn hytrach na bod yn gynrychioliadol o'r holl ddefnyddwyr cofrestredig. Buddiol fyddai gwella ymhellach y sianelau adborth a chyfathrebu gyda defnyddwyr presennol er mwyn cynyddu faint o wybodaeth sydd ar gael ynghylch ymddygiad defnyddwyr, eu dewisiadau, meddylfryd, a'u barn.

Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid a Phartneriaid Allanol

- 2.12 Cysylltwyd â chyfanswm o 14 o randdeiliaid a phartneriaid prosiect allanol (e.e. Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe, y Cyngor Prydeinig) i ofyn am gyfweiliad dros y ffôn, yn seiliedig ar argymhellion rheolwyr y rhaglen ynghylch unigolion y byddai'n addas i siarad â nhw. O'r 14 o randdeiliaid y cysylltwyd â hwy, cwblhawyd 10 cyfweiliad (gan ragori ar y targed o 8). Dilynwyd patrwm cyfweiliad lled-strwythuredig pro forma er mwyn bod yn hyblyg yn dibynnu ar gysylltiad yr ymgynghorai â'r rhaglen. Ceir rhestr lawn o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad 1.

Ymgynghoriadau â'r Grŵp Rheoli Mewnol

- 2.13 Cynhaliwyd ymgynghoriadau â'r Grŵp Rheoli drwy gyfweiliadau ffôn lled-strwythuredig. Llwyddwyd i holi pob un o 6 aelod y Grŵp Rheoli. Er mwyn adlewyrchu bod rhai ymgynghoriadau wedi'u hailadrodd ac er mwyn medru cymharu â chanlyniadau'r Gwerthusiad Interim, cafodd y cwestiynau eu cadw yn debyg iawn i'r gwerthusiad blaenorol. Roedd yr ymgynghoriadau yn canolbwyntio ar newidiadau a datblygiadau allweddol ers y cyfnod ymgynghori blaenorol.

Ymgynghoriadau ag Arweinwyr Llinynnau Mewnol

- 2.14 Er mwyn rhoi'r cyfle i Arweinwyr Llinynnau adfyfrio a rhannu syniadau, cynhaliom sesiwn gweithdy gwerthuso yng nghyfarfod Grŵp yr Arweinwyr Llinynnau ym mis Gorffennaf 2016. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys trafodaeth ryngweithiol ar 'gyflawniadau allweddol' a 'dysgu allweddol' yn ogystal â chynnydd tuag at amcanion y rhaglen.

- 2.15 Defnyddiwyd y dull hwn i adlewyrchu'r ymgynghori unigol helaeth a wnaed gydag Arweinwyr Llinynnau yn rhan o'r Gwerthusiad Interim yn ogystal â'r angen i roi cyfle i Arweinwyr Llinynnau roi adborth fel grŵp ac i ganolbwyntio ar newidiadau allweddol a blaenoriaethau gweithredu yn ystod cyfnod y Gwerthusiad Terfynol.

Astudiaethau Achos Effaith

- 2.16 Yn dilyn trafodaeth â rheolwyr y rhaglen, datblygwyd pedwar pwnc Astudiaeth Achos Effaith i ddarlunio effeithiau gwahanol agweddau ar weithgarwch y rhaglen. Dewiswyd y rhain i gyd-fynd â phedair Effaith Tanner sy'n cael eu hasesu'n fras gan y gwerthusiad (cymdeithasol, arloesi, prosesau, ac economaidd). Dyma feysydd gweithgarwch y rhaglen a ddewiswyd i adlewyrchu'r rhain orau yn ystod y cyfnod gweithredu:

- **Ardaloedd Arloesi (effaith gymdeithasol);**
- **Cydweithio Rhyngwladol (effaith arloesi);**
- **Cronfa Dreftadaeth y Loteri (effaith prosesau);**
- **Culture Beacons (effaith economaidd).**

- 2.17 Mae'r methodolegau ar gyfer pob un o'r Astudiaethau Achos Effaith wedi amrywio, er eu bod yn gyffredinol wedi golygu cynnal ymchwil sylfaenol trwy gyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb ynghyd ag ymweliadau maes i ddigwyddiadau perthnasol wedi'u cynnal gan Gasgliad y Werin.

Astudiaeth Achos Effaith Ardal Arloesi (Effaith Gymdeithasol)

- 2.18 Mynychodd ERS y digwyddiad i lansio Gorsaf Treftadaeth Ddigidol yn Ardal Arloesi Casnewydd i ymgynghori wyneb-yn-wyneb â chynrychiolwyr grwpiau cymunedol ac aelodau sydd wedi ymwneud â rhaglen Casgliad y Werin yn yr Ardal Arloesi hon. Roedd eu cyfraniad yn amrywio, gan gynnwys hyfforddiant, benthyg offer, neu weithgareddau eraill. Ymgynghorwyd â 16 o unigolion gan ddefnyddio pro forma lled-strwythuredig.
- 2.19 Dewiswyd yr Ardaloedd Arloesi fel yr Astudiaeth Achos ar gyfer Effaith Gymdeithasol er mwyn rhoi modd astudio gwaith Casgliad y Werin gyda chymunedau difreintiedig, ac i ddeall pa effaith y mae rhyngweithio â'r rhaglen wedi'i gael ar yr unigolion a'r mudiadau cymunedol yr ymgynghorwyd â hwy.

Astudiaeth Achos Effaith Cydweithio Rhyngwladol (Effaith Arloesi)

- 2.20 Cynhaliwyd pedwar cyfweiliad lled-strwythuredig dros Skype neu dros y ffôn gydag unigolion mewn gwahanol leoliadau rhyngwladol h.y. yr Ariannin a'r UDA.
- 2.21 Roedd gwaith parhaus Casgliad y Werin ag RES y BBC wedi'i ddewis yn wreiddiol i fod yn Astudiaeth Achos ar gyfer Effaith Arloesi, ond roedd oedi yn y pen draw yn y maes gwaith hwn wedi golygu nad oedd yn cyd-fynd ag amserlen y gwerthusiad. Felly dewiswyd gwaith cydweithio rhyngwladol y rhaglen i fod yn Astudiaeth Achos Effaith Arloesi er mwyn archwilio enghreifftiau o ddefnydd Casgliad y Werin o dechnoleg (a ffyrdd newydd o weithio gyda thechnoleg) i ennyn diddordeb cymunedau rhyngwladol

mewn gweithgarwch treftadaeth Gymreig na fyddent o bosibl wedi cael cyfle fel arall i gymryd rhan ynddynt.

Astudiaeth Achos Effaith Cronfa Dreftadaeth y Loteri (Effaith Prosesau)

- 2.22 Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig dros y ffôn â phedwar prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) a oedd wedi defnyddio Casgliad y Werin fel rhan o'u prosiect. Cynhaliwyd cyfweiliad gyda chynrychiolydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri hefyd.
- 2.23 Dewiswyd gwaith gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn Astudiaeth Achos ar gyfer Effaith Prosesau er mwyn archwilio'r effeithlonrwydd a grëwyd gan ddull cydweithredol Casgliad y Werin o weithio fel partneriaeth strategol.

Astudiaeth Achos Effaith Culture Beacons (Effaith Economaidd)

- 2.24 Trwy gyfweiliadau lled-strwythuredig dros y ffôn, ymgynghorodd ERS â 6 unigolyn sy'n cynrychioli cyrff sy'n cynnal prosiectau iBeacon ochr yn ochr neu o ganlyniad i ryngweithio â rhaglen Casgliad y Werin (fel rheol yn ymwneud ag amcanion twristiaeth ddiwylliannol).
- 2.25 Dewiswyd gwaith y Culture Beacon yn Astudiaeth Achos ar gyfer yr Effaith Economaidd er mwyn edrych ar effeithiau posibl a allai godi o gynyddu nifer yr ymwelwyr, gwariant ymwelwyr, ac ati, o ganlyniad i dechnoleg iBeacon. Yn wreiddiol, roedd datblygiad llwybrau penodol yn gysylltiedig â busnesau lleol i fod yn ganolbwynt ar gyfer yr Astudiaeth Achos; fodd bynnag, ar adeg y gwerthusiad, nid oedd y prosiectau hyn wedi datblygu digon i daflu goleuni ystyrlon arno. Felly ymchwilwyd i faes astudio arall (cyllid ac arian cyfatebol), ynghyd â rôl Casgliad y Werin fel 'sbardun' i gyrff a mudiadau ddatblygu ac ariannu prosiectau.

3. ADNEWYDDU'R CYD-DESTUN

Cyd-destun Polisi Cymru

- 3.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi strategaethau perthnasol sy'n ymwneud â nodau ac amcanion rhaglen Casgliad y Werin. Gan fod y Gwerthusiad Interim wedi mynd ati'n fanylach i adolygu ehangder a dyfnder llawn y cyd-destun polisi y mae rhaglen Casgliad y Werin yn gweithredu ynddo, bydd y bennod hon yn hytrach yn canolbwyntio ar **ddatblygiadau a newidiadau allweddol** a allai fod wedi dylanwadu ar y cyfeiriad strategol yn ystod y 12-18 mis diwethaf, neu a all effeithio ar aliniad y rhaglen yn y dyfodol.
- 3.2 Un o nodweddion allweddol y rhaglen, a nodwyd yn y lle cyntaf yn y Gwerthusiad Interim, yw gallu rhaglen Casgliad y Werin i addasu i flaenoriaethau polisi sy'n newid, a'r angen iddi wneud hynny. Mae'n bwysig felly deall y newidiadau polisi mawr a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn y gwerthusiad hwn.
- 3.3 Yn seiliedig ar ymgynghoriadau, tynnir sylw hefyd at farn ymgynghoreion mewnol ac allanol ar strategaeth ac aliniad y rhaglen, ynghyd ag ystyried themâu strategol allweddol megis cadwraeth, arloesedd, ac arweinyddiaeth ddigidol.

Polisiau a Strategaethau Allweddol Llywodraeth Cymru

- 3.4 Mae'n hollbwysig nodi esblygiad tirwedd strategol Cymru yn ystod y cyfnod hwn yng ngwaith y Rhaglen er mwyn (ail)ystyried aliniad strategol y rhaglen yn ogystal â sut y mae newidiadau polisi neu strategol o bosibl wedi effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar weithredu'r rhaglen.
- 3.5 Yn y cyfnod cyflenwi interim a'r cyfnod mwyaf diweddar, mae Casgliad y Werin wedi arddangos aliniad cryf â nifer o bolisiau ac amcanion strategol cysylltiedig Llywodraeth Cymru ar draws y meysydd canlynol:
- Treftadaeth, y Celfyddydau a Diwylliant;
 - Dysgu, Sgiliau Digidol a Chynhwysiant;
 - Tlodi a Lles.
- 3.6 Maes allweddol yn ystod y cyfnod hwn yw alinio â **Rhaglen Lywodraethu (2011-16)**⁹ a **Cyflawni Cymru Ddigidol**¹⁰ **Llywodraeth Cymru**. Mae **Rhaglen Lywodraethu 2011-16** wedi nodi'n benodol y nod o hyrwyddo mynediad digidol a '*datblygu'r potensial i'r cyfryngau digidol hybu diwylliant drwy Gasgliad y Werin Cymru a mentrau ar-lein eraill*'.

Cyd-destun Strategol a Pholisi Allweddol ar gyfer Cam 2 Gweithredu'r Rhaglen

- 3.7 Amlinellir dros y dudalen y prif ddatblygiadau polisi sydd yn enwedig o berthnasol i Gam 2. Yn ystod y cyfnod hwn, mae meysydd ffocws penodol Llywodraeth Cymru

⁹ Llywodraeth Cymru (2011), Y Rhaglen Lywodraethu 2011-16
<http://archive.cynnalcymru.com/sites/default/files/Rhaglen%20Llywodraethu.pdf>

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2010), Cyflawni Cymru Ddigidol / Delivering a Digital Wales

wedi cynnwys mynd i'r afael â thlodi, lles, a chydabod rôl cynhwysiant mewn diwylliant a threftadaeth wrth gefnogi cyflawni amcanion cymdeithasol.

Y Rhaglen Cyfuno: Trechu Tlodi drwy Ddiwylliant (2015-16)

- 3.8 Yn 2014, argymhellodd adroddiad y Farwnes Kay Andrews, sef **Diwylliant a Thlodi**¹¹ y gellid harneisio potensial cyrff y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i ehangu cyfranogiad mewn diwylliant er mwyn cyfrannu tuag at leihau tlodi, gan alluogi pobl i ennill sgiliau a datblygu hyder ac ymdeimlad o hunaniaeth, a thrwy ganolbwyntio ar gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnig 33 o argymhellion, a llawer o'r rhain yn cyd-fynd â gwaith Casgliad y Werin. Er enghraifft, mae'r argymhellion yn cynnwys: cynyddu sesiynau hyfforddi drwy ddefnyddio cyfleusterau diwylliannol; ymgorffori diwylliant mewn addysg drwy ddefnyddio un porth ar gyfer adnoddau; cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon; cydweithio ar draws sefydliadau diwylliannol; a chynnal sgysiau cydgysylltiedig am ddiwylliant.
- 3.9 Yn deillio o'r argymhellion hyn, sefydlwyd y Rhaglen Cyfuno (Fusion), gyda'r nod o fynd i'r afael â thlodi drwy ddiwylliant. Cynhaliwyd blwyddyn beilot Ardaloedd Arloesi yn ystod y cyfnod 2015-16, gan sefydlu chwe Ardal Arloesi sef yng Ngwynedd, Caerdydd a Merthyr, Casnewydd, Abertawe, Torfaen, a Wrecsam. Gwellir gweld gwerthusiad 2016 o'r flwyddyn beilot [yma](#).¹²
- 3.10 Mae gallu Casgliad y Werin i gyfrannu at amcanion strategol y Rhaglen Cyfuno yn cael ei gydnabod yn eang ymysg y bartneriaeth ffederal a rhanddeiliaid allanol sy'n gysylltiedig â'r gwaith gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Teimlir hefyd fod cael y ffocws strategol hwn wedi rhoi ffocws i waith Casgliad y Werin mewn cyfeiriad cadarnhaol. Dangosir y cyfraniadau cadarnhaol hyn yn y dyfyniadau isod o eiddo rhanddeiliaid strategol allanol yr ymgynghorwyd â hwy:
- "Mae gwaith Casgliad y Werin wedi bod yn ddigon di-drefn yn y gorffennol, h.y. pan oedd cyfleoedd yn codi. O fewn rhaglen Cyfuno maen nhw wedi bod â mwy o ffocws ac yn fwy strategol, yn targedu adnoddau (eu prif adnodd yw'r bobl sy'n ymwneud â'r rhaglen, ac offer)... Mae'r rhaglen yn fwy na dim ond canlyniadau caled. Mae Casgliad y Werin yn gallu cynnig hyfforddiant achrededig ac mae hyn yn arf pwerus."*
- "Rwyf wrth fy modd â'r syniad hwnnw [sef defnyddio treftadaeth ddigidol i gyfrannu at amcanion cymdeithasol eraill e.e. cynhwysiant digidol]. Mae amser ac adnoddau staff yn allweddol; er enghraifft, mae [enw aelod y tîm cyflenwi]¹³ yn llawn egni. Mae'n gweithio'n dda rhoi hyfforddiant wedi'i dargedu i'r rhai sy'n elwa fwyaf ac mae'n cyd-fynd â chynlluniau lleol."*
- 3.11 Ehangwyd y rhaglen Ardaloedd Arloesi wedyn yn 2016-17, a bellach mae yna 10 Ardal Arloesi. Mae Casgliad y Werin yn parhau i gefnogi'r rhaglen Ardal Arloesi ac yn trafod y gweithgareddau ar gyfer 2016-17 gyda swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru ar

¹¹ Andrews, Y Farwnes Kay (2014) Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru <http://gov.wales/docs/dra/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf>

¹² <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160303-pioneer-area-programme-pilot-year-cy.pdf>

¹³ Tynnwyd yr enw o'r sylw.

gyfer y Rhaglen Cyfuno. Sicrhawyd hyd at £5000 o gyllid ychwanegol i Gasgliad y Werin o gyllideb y Rhaglen Cyfuno i gefnogi'r gwaith hwn yn 2016-17.

- 3.12 Mae adborth gan y Tîm Craidd yn awgrymu bod mapio gwasanaethau Casgliad y Werin yn erbyn agenda'r Ardaloedd Arloesi wedi bod yn ddefnyddiol, gan arwain at “strategaeth â mwy o ffocws iddi” a “meddwl cydgysylltiedig”. Teimlwyd bod hyn wedi arwain at wasanaethau cliriach sydd wedi'i grisialu'n well (yn enwedig yn ymwneud â'r hyfforddiant achrededig) ac wedi helpu Ardaloedd Arloesi i lunio eu darpariaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

- 3.13 Gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus i les, cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) gan Lywodraeth Cymru i gefnogi meddylfryd tymor hwy, cynaliadwyedd, a chyfrifoldeb tuag at genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn y dyfodol. Yn y Ddeddf ceir saith o 'Amcanion Llesiant', pump o 'Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy', a 46 o 'Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol'. Rhoddir pwyslais ar gydweithio tuag at weledigaeth tymor hir sy'n cael ei rhannu.
- 3.14 Mae'r Ddeddf yn berthnasol i amcanion strategol Casgliad y Werin ar hyd nifer o themâu allweddol, gan gynnwys:
- **Amcanion Llesiant:** Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru o gymunedau cydlynol.
 - **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy:** cydweithredu; cyfranogi.
 - **Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol:** pobl yn cymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; ymdeimlad o gymuned.¹⁴

- 3.15 Gwnaeth un rhanddeiliaid strategol allanol y cysylltiad fod Casgliad y Werin mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r agenda lles, wrth gyfeirio at y Ddeddf Llesiant. Ategwyd y cysylltiad hwn gan ymgynghorai mewnol fel maes posibl ar gyfer mwy o ffocws.

Meysydd Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol

- 3.16 Mae goblygiadau etholiad diweddar Llywodraeth Cymru (2016) yn dal i ddod i'r amlwg wrth i'r llywodraeth ddatblygu ei strategaeth i'r dyfodol, a disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn ystod hydref 2016. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd nifer o feysydd ffocws yn y dyfodol yn cyd-fynd â llwybr presennol rhaglen Casgliad y Werin; er enghraifft, mae meysydd tebygol yn cynnwys:
- Twristiaeth ddiwylliannol;
 - Hyrwyddo Cymru dramor a ledled y Deyrnas Unedig;
 - Denu buddsoddiad a chreu incwm;
 - Cydweithio, gan gynnwys gweithio ledled Cymru gyfan;
 - Tlodi, sgiliau, a chynhwysiant cymdeithasol a digidol.

¹⁴ <http://www.c3sc.org.uk/news/3941-wellbeing-of-future-generations-wales-act-2015-summary>

- 3.17 Fel y manylir yng ngweddill yr adroddiad, mae'r meysydd uchod yn gorgyffwrdd yn sylweddol â meysydd gwaith y rhaglen sy'n bodoli eisoes ac sydd ar y gweill.

Strategaeth ac Amcanion Strategol Casgliad y Werin

- 3.18 Mae'r adran ganlynol yn ystyried i ba raddau y mae rhaglen Casgliad y Werin yn cydfynd ag amcanion strategol partneriaid a Llywodraeth Cymru.

Aliniad Strategol

- 3.19 Yn seiliedig ar holi ymgynghoreion allanol a mewnol, mae'r canfyddiadau yn dangos ymdeimlad cryf fod Casgliad y Werin yn cefnogi cyflawni strategaeth a blaenoriaethau **presennol** Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae adborth yn cefnogi'r syniad y gellid gosod y rhaglen o dan ystod o amcanion strategol (e.e. iechyd a lles, cynhwysiant, diwylliant a thlodi ac ati) a'i bod yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i bob un ohonynt.
- 3.20 Wrth ymateb i newidiadau mewn blaenoriaethau strategol (h.y. o ganlyniad i'r angen i fod yn hyblyg wrth ymateb i gyd-destun polisi yng Nghymru wrth iddo esblygu), ceir cytundeb cyffredinol fod y rhaglen yn llawer mwy 'hyblyg' o'i chymharu â'r cylch ymgynghoriadau blaenorol. Teimlwyd mai tystiolaeth o'r llwyddiant hwn yw penderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau i ariannu'r rhaglen.
- 3.21 Yn gyffredinol, mae mwy o ymdeimlad bod y rhaglen yn cael ei hystyried i fod yn cydfynd yn dda ac yn cydategu strategaethau sefydliadau'r partneriaid ffederal. Caiff Casgliad y Werin ei hystyried yn **rhan** o strategaethau'r sefydliadau partner h.y. wedi integreiddio'n dda ac nid yn gweithredu ar wahân.
- 3.22 Ymysg y grŵp ymgynghori allanol, ar y cyfan, mae llai o wybodaeth **benodol** o ran aliniad rhaglen Casgliad y Werin â strategaethau eu sefydliadau eu hunain, er yr ystyrir ei bod yn gyffredinol yn cyd-fynd â'u hamcanion cyffredinol. Mewn rhai achosion (megis mewn perthynas â'r Rhaglen Cyfuno a gweithio yn rhyngwladol, er enghraifft) teimlid bod y cyswllt hwn yn hynod amlwg, er na theimlid bod bwriadau yn y dyfodol o ran meysydd gwaith tebyg bob amser yn glir.

Nodau ac Amcanion wedi'u diffinio'n glir

- 3.23 O safbwynt gofyn a yw nodau ac amcanion y rhaglen yn cael eu deall yn glir ac yn gyson, mae gwaith diweddar wedi cadarnhau 'cynnig clir' o ran y model hyfforddiant achrededig. Teimla ymgynghoreion mewnol fod y ddealltwriaeth ehangach hon wedi gwella yn gyffredinol – yn enwedig ymysg partneriaid strategol – a'i bod wedi cynorthwyo ag ymgysylltu mwy effeithiol. Gwelir hyn drwy'r gweithio llwyddiannus mewn partneriaeth, er enghraifft, gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a'r BBC.
- 3.24 I ymgynghoreion allanol, roedd llai o ddeall ar nodau ac amcanion y rhaglen yn ei chyfanrwydd, gan yr ymddengys eu bod (yn ddealladwy) yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau sy'n berthnasol i'w maes gwaith penodol hwy. Cafwyd rhai achosion lle nad oedd pobl oedd yn rhan o brosiectau yn ymwybodol o'r gwasanaethau ehangach a gynigir gan Gasgliad y Werin e.e. ni wyddai un ymgynghorai fod hyfforddiant achrededig yn cael ei gynnig. Argymhellir felly y dylid cyfleu cynnig Casgliad y Werin yn gliriach.

- 3.25 Yn seiliedig ar adborth yr ymgynghoriad, teimlid bod rhai meysydd gwaith Casgliad y Werin ychydig yn llai clir. Amlinellir y rhain isod.

Ymgysylltiad â Phartneriaid

- 3.26 Nid oes consensws cyffredinol yn fewnol ar rôl a blaenoriaeth ymgysylltu ag amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai lleol ar hyn o bryd. Teimlai rhai ymgynghoreion eu bod yn ganolwyr pwysig mewn cymunedau lleol, tra nododd eraill (lleiafrif) nad yw'r gweithgaredd hwn yn y cynllun busnes a dylid ei wneud yn unig fel llwybr i gael mynediad at gymunedau neu roi cymorth uniongyrchol i gymunedau. Mae'n amlwg bod angen eglurder o ran sut i fynd ati i weithio gydag amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai lleol.

Cwmpas Daearyddol

- 3.27 Soniodd un ymgynghorai allanol am eu diffyg eglurder hwy ynghylch bwriadau'r rhaglen o ran **cwmpas daearyddol**. Mynegwyd hyn wrth gydnabod potensial i gydweithio gyda Chasgliad y Werin yn y dyfodol, a nodi llwybrau clir ar gyfer y cyfranogiad posibl hwn, er bod diffyg ymwybyddiaeth ynghylch uchelgais Casgliad y Werin o ran gweithio'n rhyngwladol a pha ardaloedd yr ystyrid sydd 'o fewn y cwmpas'.
- 3.28 Dywedodd ymatebydd o'r grŵp ymgynghoreion mewnol y bu oedi wrth egluro bwriadau i'r dyfodol o ganlyniad i aros i feysydd gwaith penodol gael eu cwblhau. Fodd bynnag, gellid o bosib ei wneud yn gliriach yn y cyfathrebu ar lefel strategol yn ogystal ag ar lefel weithredol er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd cydweithredu gwerthfawr yn cael eu colli.
- 3.29 O safbwynt strategol, mae cwmpas daearyddol Casgliad y Werin yn arbennig o bwysig i'w egluro yn y cam hwn, o ystyried datblygu gweithio rhyngwladol ymhellach. Dylai'r rhaglen ystyried i ba raddau y mae'n ceisio gwasanaethu cymunedau a phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac ym mha ffyrdd. Ceir llwybrau clir i gefnogi cymunedau yng Nghymru a chymunedau Cymry alltud, er bod cydbwyso'r ddau yn effeithiol (gan gydnabod mai'r cylch gwaith craidd yw'r flaenoriaeth) yn gofyn am safbwynt strategol clir.

Strategaeth ac Arweinyddiaeth Ddigidol

"Mae (Casgliad y Werin) yn cynnig mecanwaith i wneud rhywbeth diddorol a chyffrous. Heb sefydliad i ddarparu'n briodol ac yn strategol gallai (sefydliadau) fynd ar goll. Mae cymryd rhan yng Nghasgliad y Werin yn ysgogi pethau i ddigwydd i gymunedau ar lawr gwlad." Ymatebydd ymgynghori allanol

- 3.30 Credai nifer o ymgynghoreion allanol fod Casgliad y Werin yn "arwain" yn y sector treftadaeth ddiwylliannol i ryw raddau. O ran y ffyrdd y mae Casgliad y Werin yn cyflawni'r rôl hon, mae dylanwad y rhaglen ar **ymarfer digidol** yn fwy amlwg (wrth i sefydliadau gael eu hannog neu eu cynorthwyo i fabwysiadu llwybrau iBeacon neu Orsafoedd Treftadaeth Ddigidol, er enghraifft).
- 3.31 Un cyflawniad allweddol i'r rhaglen ledled iteriadau diweddaraf y Cynllun Busnes yw gweithio tuag at ddatblygu dull cydlynol a chyson yn ymwneud â **strategaeth ddigidol**

ar draws Cymru. Yn 2015, cydweithiodd Casgliad y Werin yn llwyddiannus gyda phartneriaid i ddatblygu ‘*Strategaeth Ddigidol ar gyfer Diwylliant a Threftadaeth Cymru*’, ac ar hyn o bryd mae’n gweithio tuag at ddatblygu papur gwyrdd ochr yn ochr â phartneriaid i ddatblygu’r maes gwaith hwn ymhellach. Mae gallu’r rhaglen i ddwyn ynghyd nifer o randdeiliaid yn arwydd cadarnhaol o waith a wnaed tuag at yr amcan hwn.

Arloesi

- 3.32 Mae meddylfryd Casgliad y Werin o ran arloesedd wedi cael ei wneud yn gliriach ers cyfnod y Gwerthusiad Interim h.y. ystyried ffyrdd arloesi technegol ac annhechnegol. O gofio’r cyfyngiadau adnoddau, roedd un ymgynghorai mewnol o’r farn fod arloesi yn llai o flaenoriaeth nag a fu mewn cyfnodau gweithredu blaenorol, ac roedd o blaid canolbwyntio ar gylch gwaith y rhaglen graidd.
- 3.33 Mae enghraifft o arloesedd y rhaglen yn y cyfnod gweithredu diweddaraf yn cynnwys datblygu cydweithio pellach ar y Culture Beacon, a hynny’n deillio o gyfnod llwyddiannus yn profi a gwerthuso technoleg iBeacon. Ymhellach, mae’r ‘pecyn’ cymorth sy’n gysylltiedig â Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol yn dangos cyfuniad effeithiol o ymgorffori technoleg yn rhan o gynnig penodol sy’n cyfrannu’n effeithiol at amcanion y rhaglen. Caiff hyn ei ystyried yn ffordd arbennig o arloesol o weithio gan y cymunedau rhyngwladol cysylltiedig (yn ôl yr adborth sydd ar gael).
- 3.34 Pan fo arloesedd yn cael ei gyflwyno i gefnogi amcanion y rhaglen, yn hytrach nag er ei fwyn ei hun, ymddengys fod hyn wedi bod yn llwyddiannus. O ystyried cyflymder y newid, mae’n anodd iawn (os nad yn amhosibl) dilyn y dechnoleg ddigidol ‘*ddiweddaraf*’. Felly dylai’r pwyslais fod ar Gasgliad y Werin yn arloesi yn y ffordd y mae’n gweithio, gan arddangos neu dreialu technoleg arloesol i’r graddau y mae hyn yn caniatáu gweithredu gwell neu well canlyniadau i amcanion y rhaglen.

Cadwraeth

“Rydyn ni’n helpu i achub Treftadaeth Cymru gan y werin ar gyfer y werin. Mae’n ffordd ddiogel ac onest o edrych ar fywyd beunyddiol.”

–Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 3.35 Gan gadarnhau canfyddiadau o’r Gwerthusiad Interim, mae argraff a disgwyliad cryf gan ddefnyddwyr a grwpiau cymunedol bod y **deunyddiau y maent yn eu lanlwytho yn cael eu cadw ar gyfer y dyfodol ac ni fyddant yn cael eu colli**.
- 3.36 Mae’n bwysig sylweddoli nad offer cadwraeth ddigidol yw Casgliad y Werin, er bod dulliau ar gael trwy’r bartneriaeth ffederal i gadw eitemau yr ystyrir i fod o bwys cenedlaethol. Felly, y flaenoriaeth yw **rheoli disgwyliadau defnyddwyr** a chyfathrebu clir. Mae’n hanfodol i’r rhaglen gyfleu yn glir i ddefnyddwyr i ba raddau y mae’r adnoddau digidol a lanlwythir i’r safle yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod defnyddwyr o’r farn mai pwynt gwerthu unigryw plattfform Casgliad y Werin yw bod iddo fwy o ‘*ymdeimlad o sefydlogrwydd*’ o gymharu â chystadleuwyr tebyg. Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i argraff defnyddwyr o

natur 'swyddogol' a dibynadwy y sefydliadau yn y bartneriaeth ffederal a'r hirhoedledd a gysylltir â hynny.

Crynodeb

- Cytunir bod Casgliad y Werin yn llwyddiannus wedi dangos **hyblygrwydd a'r gallu i addasu**.
- Wrth **weithredu â ffocws clir** (e.e. ardal ddaearyddol, amcan penodol, cynnig clir, cynulleidfa darged) mae'r llwyddiant wrth weithio ac ymgysylltu â phartneriaid yn gryfach fel y gwelwyd wrth ymgysylltu â'r Ardaloedd Arloesi.
- Mae parch mawr i allu Casgliad y Werin i **ychwanegu gwerth** at nifer o feysydd o bwysigrwydd strategol y tu hwnt i gwmpas treftadaeth (er yn gysylltiedig) e.e. lles, diwylliant, cynhwysiant digidol, cyflogadwyedd, cydlyniant cymunedol.
- Llwyddwyd i wneud gwelliannau wrth ymgysylltu â phartneriaid strategol a chynnydd wrth **egluro 'cynnig' clir**.
- Byddai'n fuddiol gwella cyfathrebu er mwyn hwyluso **deall nodau ac amcanion** ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid a chynulleidfa.
- Mae'n bwysig egluro'r uchelgais o ran **cwmpas daearyddol**, yn enwedig gan fod tystiolaeth o lwyddiant pan fo cylch gorchwyl daearyddol clir yn gymorth i gael ffocws.

4. GWEITHREDU'R RHAGLEN

4.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y cyfnod o 2014/15 hyd at fis Gorffennaf 2016.

Crynodeb o Weithgarwch y Rhaglen

4.2 Mae'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn cynnwys:

- Gweithio i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno (Fusion) yn yr Ardaloedd Arloesi;
- Cymryd rhan yng nghofio Patagonia 150;
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf;
- Datblygu'r cynnig Gorsaf Treftadaeth Ddigidol;
- Datblygu microwefannau digidol;
- Ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau (gan gynnwys cymunedau tramor);
- Cynnal a datblygu platfform technegol.

Crynodeb Ariannol

Trosolwg o Gyllideb y Rhaglen

4.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £5.75 miliwn o gyllid craidd i raglen Casgliad y Werin o 2008-09 i 2016-17. Cafodd y Rhaglen fuddsoddiad cychwynnol sylweddol yn ystod y cyfnod datblygu (2008-2011), sef 34 y cant o gyfanswm y swm a wariwyd rhwng 2011 a 2017. Mae hyn yn adlewyrchu cyllid cyfalaf mawr oedd ei angen ar gyfer creu gwefan a phlatfform technegol Casgliad y Werin ar y dechrau yn ystod y cyfnod cynharaf hwn.

4.4 Yn ystod y cyfnod gweithredu ffederal cafwyd rhandaliadau cyllid rheolaidd, gyda chyfanswm o £1,200,000 wedi'i roi yn ystod cyfnod y Gwerthusiad Terfynol (2014-16). Mae'r cyllid refeniw wedi gostwng £100,000 bob blwyddyn o 2014-15 ymlaen.

Tabl 2: Trosolwg o Gyllideb Casgliad y Werin				
		Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm
Cyfnod Datblygu Cychwynnol	2008-09 hyd at 2010-11			£2,000,000
Cyfnod Gweithredu Ffederal	2011-12	£600,000	£100,000	£700,000
	2012-13	£600,000	£100,000	£700,000
	2013-14	£600,000	£50,000*	£650,000
	2014-15	£600,000	£50,000	£650,000
	2015-16	£500,000	£50,000	£550,000
	2016-17	£400,000	£50,000	£450,000
Cyfanswm		£2,900,000	£350,000	£5,700,000
*Roedd £50,000 ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer yr adnewyddu technegol wedi'i restru'n flaenorol yma yn y tabl cyfatebol yn adroddiad y Gwerthusiad Interim (2014). Yn lle hynny, mae hwn nawr wedi'i gynnwys ochr yn ochr â chyllid ychwanegol arall yn Nhabl 5.				

- 4.5 Ynghyd â'r gostyngiad o £100,000 yn y cyllid refeniw ar gyfer y cyfnod 2015/16, gosodwyd targed ar gyfer creu incwm. Cafodd y targed hwn ei gynnwys yng Nghynllun Busnes Casgliad y Werin ar gyfer 2015-16 a'i nodi hefyd yn llythyr cyllid y Gweinidog i'r partneriaid gweithredu arweiniol. Yn 2015-16 mae'r rhaglen wedi rhagori ar ei thargedau creu incwm fel y dangosir yn Nhabl 3.

Tabl 3: Creu incwm 2015-16		
Cyfnod Gweithredu	Targed	Incwm wedi'i greu
2015-16	£50,000	£63,478

Dyraniadau Partneriaid Arweiniol

- 4.6 Yn Nhabl 4 isod gwelir dosbarthiad y cyllid i bob partner yng nghyfnodau diweddaraf gweithgarwch y rhaglen. Mae'n dangos bod Amgueddfa Cymru a LIGC yn parhau i dderbyn mwy o gyllid na CBHC. Mae rhaniad y cyllid yn gymesur â nifer y llinynnau gwaith a meysydd allweddol y maent yn unigol gyfrifol amdanynt yn y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys costau canolog a reolir gan Amgueddfa Cymru, a'r llinynnau gwaith wedi'u cydlynu gan bob partner arweiniol. Mae cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i bob un o'r partneriaid wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2013-14, gan adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yng nghyllideb y rhaglen.

Tabl 4: Cyllideb Casgliad y Werin yn ôl Partner							
Partner Arweiniol	Diben y cyllid	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Amgueddfa a Cymru	Arwain y Llinynnau: Datblygu Cynulleidfa, Dysgu, Technoleg				£202,500	£111,000	£107,500
	Costau Rheoli'r rhaglen ganolog (ar wahân ar gyfer 2014-17).	£295,000	£295,000	£295,000	£110,000	£165,050	£120,300
	Rheoli cynnal a datblygu technoleg (cyfalaf)	£100,000	£100,000	£100,000	£50,000	£50,000	£50,000
Llyfrgell Gen	Arwain y Llinynnau: Ymgysylltu â'r Gymuned, Cynnwys a Golygyddol, Cymedroli	£220,000	£220,000	£220,000	£202,500	£165,050	£120,300
CBHC	Arwain y Llinyn: Arloesi	£46,000	£46,000	£46,000	£46,000	£39,900	£29,400
MALD Llyw. Cymru	Rheoli cyllideb ar gyfer eitemau amrywiol gan gynnwys Grantiau Her, Gwerthuso, elfen wrth gefn ar gyfer blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn.	£39,000	£39,000	£39,000	£39,000	£19,000	£22,500
	Cyfanswm	£700,000	£700,000	£700,000	£650,000		

- 4.7 Mewn rhai achosion, cafwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol i'w cynnal gan raglen Casgliad y Werin.

Dyfarnwyd cyllid ychwanegol yn 2013-14, 2014-15, 2015-16, a 2016-17 (fel y manylir yn Nhabl 5 isod):

Tabl 5: Cyllid Llywodraeth Cymru a sicrhawyd					
	Diben y cyllid	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Llywodraeth Cymru	Adnewyddu Technegol	£50,000			
	Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol Ardaloedd Arloesi		£23,000		
	Cofio Gallipoli, Rhyfel Byd Cyntaf		£21,380		
	Cyllid ychwanegol ar gyfer coffáu Frongoch, Rhyfel Byd Cyntaf			£15,000	
	Cyllid ychwanegol fel rhan o'r Rhaglen Cyfuno (Fusion)				£5,000

Cynaliadwyedd Ariannol

- 4.8 Gan gymryd y 'cyllid ychwanegol' i ystyriaeth yn ogystal ag incwm wedi'i greu, mae cyfanswm y cyllidebau cyfun (gan gynnwys cyllid craidd a chyllid di-graidd) ar gyfer pob blwyddyn gweithredu i'w gweld yn Nhabl 6 isod. Nid yw 2016-17 wedi'i gynnwys gan fod y cyfnod gweithredu hwn yn anghyflawn ar adeg yr adroddiad. Yn ddiddorol, er gwaethaf gostyngiad o £50,000 yn y **cyllid craidd** rhwng 2013-14 a 2014-15, roedd **cyfanswm y cyllid** ar gael (ar gyfer cyllid craidd a di-graidd) £6,000 yn unig yn is. Rhaid nodi, serch hynny, na ellir ystyried y ffigyrau hyn i fod yn cyfateb yn uniongyrchol gan fod y symiau ychwanegol a ddyfarnwyd wedi'u dyrannu ar gyfer prosiectau penodol, ychwanegol; felly, gellir yn dal ystyried bod y swm sydd ar gael ar gyfer **gweithgarwch craidd** yn llai.

Tabl 6: Cyfanswm cyllid Craidd a Di-graidd (gan gynnwys creu incwm)				
Cyfnod Gweithredu	Cyllid Craidd (Refeniw + Cyfalaf)	Cyllid Ychwanegol	Creu incwm	Cyfanswm
2011-12	£700,000	-	-	£700,000
2012-13	£700,000	-	-	£700,000
2013-14	£650,000	£50,000	-	£700,000
2014-15	£650,000	£44,380	-	£694,380
2015-16	£550,000	£15,000	£63,478	£628,478

- 4.9 Awgrymodd yr Adroddiad Interim y dylai tîm y rhaglen fod yn rhagweithiol wrth chwilio am fuddsoddiad allanol, er mwyn lliniaru'r risg i gynaliadwyedd y rhaglen yn sgil cwtogi'r gyllideb graidd. Yn benodol, argymhellwyd datblygu strategaeth creu incwm i bontio'r diffyg yn y buddsoddiad craidd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gosodwyd targed creu incwm o £50,000 yn 2015-16 a llwyddodd tîm y rhaglen i ragori ar y targed hwnnw.
- 4.10 Er gwaethaf y llwyddiant hwn, a chydabyddiaeth bod Casgliad y Werin wedi alinio'n llwyddiannus â blaenoriaethau polisi wrth iddynt newid er y gostyngiad yn y gyllideb graidd, mae adborth gan ymgynghoreion mewnol yn dangos bod dibyniaeth barhaus ar

gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn her allweddol i'r rhaglen, yn enwedig o ran y gystadleuaeth gynyddol am gyllid rhwng ac o fewn sefydliadau. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth bod y rhaglen wedi cymryd camau, ac yn parhau i wneud hynny, i liniaru'r risg hwn ac ni chollwyd hyder mewnol yng nghynaliadwyedd y rhaglen. Yn wir, gan fod y rhaglen yn parhau i gael ei hariannu, credir yn fewnol fod hyn yn destament i'w gwerth parhaus yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

- 4.11 Ymddengys fod creu incwm wedi'i integreiddio'n gadarn mewn blaengynlluniau ac ystyrir yn fras fod creu incwm yn cynnwys: a) strategaethau ar gyfer cynhyrchu **refeniw ychwanegol** i ariannu gwasanaethau craidd ac/neu ddi-graidd; a b) **adfer costau** i adennill cyfran o'r cyllid am gynnal gwasanaethau craidd ac/neu ddi-graidd i sefydliadau allanol a phrosiectau a ariennir. Mae'r Tîm Craidd yn tanlinellu yr ymchwili i'r agwedd hon ochr yn ochr â pha bynnag gynnyrch a gwasanaethau a gaiff eu darparu fel rhan o gylch gwaith craidd Llywodraeth Cymru.
- 4.12 Mae ymgyrch glir i ddod yn llai dibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru. Mae nifer o ddulliau dan ystyriaeth, gan gynnwys y potensial i Gasgliad y Werin weithredu fel 'asiantaeth' er mwyn cael cyllid o ffynonellau eraill. Hyd yma, mae'r Grŵp Rheoli a'r Tîm Craidd wedi nodi mwy o sylw i feysydd gwaith sy'n debygol o gefnogi'r ymdrech hon a datgloi ffrydiau refeniw posibl, megis y Culture Beacons, datblygu'r microwefannau, ac (yn fwy diweddar) cydweithio rhyngwladol. Mae Casgliad y Werin hefyd wrthi'n chwilio am gyfleoedd i gael cyllid ychwanegol o ffynonellau allanol pan fo hyn yn cyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau strategol Casgliad y Werin. Er enghraifft, ymchwilio i geisiadau am grantiau ar y cyd â sefydliadau eraill (yn enwedig addysg uwch).
- 4.13 Mae effaith y ffocws cynyddol ar greu incwm yn golygu bod angen newid i'r ffordd y mae Casgliad y Werin yn gweithredu. Un canlyniad cadarnhaol i hyn yw dull mwy strwythuredig o ddosbarthu adnoddau a phrisio gwasanaethau. Nododd y Tîm Craidd fod: *"popeth yn cael ei brisio, a gallwn ddweud 'iawn' os yw'n cael ei dalu amdano. Rhaid inni wneud yn siŵr fod pobl yn meddwl amdanon ni yn **gyntaf** i gyflenwi (er mwyn sicrhau'r cyllid hyn)".*
- 4.14 Cydnabyddir bod y gostyngiad yn y cyllid craidd yn cyfyngu ar wasanaethau craidd, sydd wedi gofyn am ymateb ynddo'i hun, er enghraifft, newid i gynorthwyo pobl o bell a allai arwain at *"lai o bobl yn gweithredu ar lawr gwlad"*.
- 4.15 At hynny, fel y nodwyd yn y Gwerthusiad Interim ac a ailadroddwyd gan un ymgynghorai mewnol, mae her ynghlwm â strategaethau creu incwm a'r angen i sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd ag egwyddorion Casgliad y Werin er mwyn

osgoi gwrthdaro buddiannau, peryglu brand dibynadwy Casgliad y Werin, neu amharu ar ddefnydd am ddim sy'n sicrhau mynediad i gynulleidfaoedd allweddol.

- 4.16 O safbwynt ymgynghoreion allanol, mae ymatebwyr yn y Deyrnas Unedig o'r farn fod natur y rhaglen yn cael arian cyhoeddus (yn hytrach nag wedi'i gyrru yn fasnachol) yn cyfrannu at natur ddibynadwy'r rhaglen.
- 4.17 Dywedodd y rhai a holwyd (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) fod Casgliad y Werin yn werthfawr iawn ynddo'i hun. Yn benodol, i'r unigolion rhyngwladol yr ymgynghorwyd â hwy, caiff yr adnodd ei ystyried yn unigryw. O fewn y cymunedau Cymry alltud sydd wedi llwytho adnoddau i'r safle mae pryder y byddai'r rhain wedi'u "coll" oni bai am y platfform, yn enwedig gan eu bod wedi buddsoddi cryn dipyn o amser yn lanlwytho i'r safle. Yn ôl yr ymgynghoriadau, roedd y cymunedau hyn yn credu bod peth risg ac ansicrwydd i natur y rhaglen gan ei bod yn derbyn arian cyhoeddus, er bod ymatebwyr o'r Deyrnas Unedig fel petaent â mwy o hyder yn hirhoedledd y platfform oherwydd hyn, a hyn yn wahaniaeth diddorol iawn. Byddai angen ymchwilio ymhellach iddo, ond efallai fod y gwerth hwn i gymunedau Cymry alltud yn llwybr posibl i gynyddu creu incwm.
- 4.18 Gwnaeth un ymgynghorai mewnol y sylw bod posibilrwydd y gallai creu incwm ***gryfhau'r*** ddarpariaeth sy'n rhad ac am ddim i gynulleidfaoedd penodol, trwy adnabod cynulleidfaoedd eraill y byddai'n briodol cynnig gwasanaethau y mae'n rhaid talu amdanynt. Yn yr adnewyddu arfaethedig ar strategaeth Casgliad y Werin, byddai o fudd rhoi ystyriaeth i strategaethau prisio a chreu incwm mewn cysylltiad â chynulleidfaoedd penodol. Dylai'r ffordd y cyflwynir gweithgareddau Casgliad y Werin mewn perthynas â chreu incwm hefyd gael ei ystyried yn ofalus i sicrhau bod yn dryloyw.
- 4.19 Yn ogystal, o ran cynllunio ymlaen, soniodd un ymgynghorai mewnol bod natur tymor byr ymrwymiad cyllid Llywodraeth Cymru yn amharu ar y gallu i lunio cynllun tymor hwy i'r rhaglen, h.y. byddai'r gallu i lunio cynllun cyllideb 3 blynedd, er enghraifft, yn fuddiol.

Prosesau Rheoli a Llywodraethu

Partneriaeth Ffederal

- 4.20 Mae cytundeb cyffredinol fod y bartneriaeth ffederal wedi tyfu'n gryfach yn y cyfnod yn dilyn y Gwerthusiad Interim, a sylwadau yn dangos mwy o gydnabyddiaeth neu gydweld ynghylch gwerth y rhaglen (gan nodi datblygiadau cadarnhaol diweddar o fewn y rhaglen). Dywedodd un ymgynghorai mewnol fod y berthynas broffesiynol sydd wedi'i meithrin rhwng y sefydliadau hefyd wedi cael effeithiau cadarnhaol "*y tu hwnt i gwmpas y prosiect*".
- 4.21 O ran y dull cydweithredol, awgrymwyd gan un ymgynghorai mewnol fod y bartneriaeth ffederal yn parhau yn "*un o'r ychydig enghreifftiau o 3 sefydliad mawr yn cydweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth yn llwyddiannus.*" Dywedodd un

rhanddeiliad allanol hefyd fod cydweithredu wedi dod yn gynyddol bwysig o ran cyflawni amcanion diwylliannol a chymdeithasol Llywodraeth Cymru, a theimlai fod Casgliad y Werin a'r dull partneriaeth ffederal wedi arwain y ffordd yn hyn o beth.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- 4.22 Mae Tabl 7 (drosodd) yn dangos y cyfansymiau cronnus ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar lefel y rhaglen rhwng 2012 hyd at y presennol (mae'r ffigyrau am y cyfnod 2016-17 yn dangos cyfansymiau cronnus hyd yma ac felly nid ydynt yn cynrychioli ffigyrau blynyddol).
- 4.23 Oherwydd yr '*adnewyddu technegol*' ar wefan Casgliad y Werin yn 2013-14, mae'n anodd olrhain y cynnydd a wnaed gan y rhaglen. Mae'r adnewyddu technegol (gwaith sylweddol a gwblhawyd yn llwyddiannus) wedi cael effaith negyddol ar sawl maes y mesurir ei gynnydd, er bod y rhan fwyaf o feysydd wedi'u hadfer ar ôl cwblhau'r adnewyddu. Er enghraifft, mae nifer yr ymwelwyr â'r wefan fwy neu lai wedi cynyddu yn ôl i'r lefelau cyn yr adnewyddu.
- 4.24 Mae nifer o feysydd wedi dangos cynnydd cyson a sylweddol, yn enwedig yn ymwneud â datblygu partneriaethau, unigolion wedi'u hyfforddi, a chynnwys ar y cyd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr; mae '*nifer y cyfraniadau gan ddefnyddwyr a phartneriaid ehangach*' i'r safle wedi bron â dyblu o'i gymharu â'r mesur cychwynnol yn 2012-13 (25,909 o gyfraniadau yn 2015-16).
- 4.25 Gwelir bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y Pencampwyr, er bod newidiadau i ddiffiniad o Bencampwr yn ystod y cyfnod hwn o bosibl wedi effeithio ar y gallu i ddarparu ffigyrau cymaradwy. Nodir hefyd nad oedd y mesuriadau ar gyfer '*nifer y grwpiau diddordeb cymunedol neu leol sydd wedi cofrestru neu yr ymgysylltir yn weithredol â hwy*' wedi adfer yn llawn eto i'r lefelau cyn yr adnewyddu.
- 4.26 Ar y cyfan, er na ddylid tanbrizio'r cyflawniadau helaeth yn y gwaith ymgysylltu â phartneriaid (o wahanol fathau ac mewn gwahanol ffyrdd), eto awgryma'r ffigyrau hyn fod mwy o waith i'w wneud i ddeall grwpiau cymunedol penodol, yn enwedig yr unigolion hynny nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â sefydliad proffesiynol neu brosiect a ariennir. Mae nifer o ffyrdd y gellid datblygu hyn gan adeiladu ar waith cyfredol gyda grwpiau cynulleidfau. Er enghraifft, cael 'diffiniadau' cadarn, datblygu strategaethau marchnata wedi'i dargedu (gan gydnabod yr adnodd sydd ei angen i wneud hynny), neu gael darlun cywir o nifer defnyddwyr gweithredol y safle.¹⁵

¹⁵ Amcangyfrifir hyn i fod tua 3000 gan ddim y rhaglen, ond nid yw hynny'n ystyried creu sawl cyfrif, defnyddwyr aml nad ydynt yn cofrestru ac yn y blaen.

Tabl 7: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Casgliad y Werin

	Dangosydd			Cyfanswm Cronnus 2012-13	Cyfanswm Cronnus 2013-14	Cyfanswm Cronnus 2014-15	Cyfanswm Cronnus 2015-16	Cyfanswm Cronnus hyd at 2016-17
Cymed-rol	Nifer yr elfennau cynnwys wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddwyr sydd wedi'u cymedroli			13536	1392	7390	25909	926
	Nifer yr achosion o 'nodi camddefnydd' yr ymdriniwyd â hwy			0	0	0	0	0
Cynnwys a chyfraniadau	Nifer y cyfraniadau gan ddefnyddwyr a phartneriaid ehangach			13536	1392	7390	25909	926
	Nifer y cyfraniadau gan bartneriaid craidd (AC,LIGC, CBHC)	Cyfanswm	Eitemau	1062	445	8467	9217	3397
			Storïau	25	1	0	31	1
			Casgliadau	116	21	23	54	1
			Llwybrau	18	5	0	0	0
Isadeiledd a Chymorth	Y gwasanaeth ar y we yn weithredol a'i berfformiad				100%	100%	100%	100%
	Nifer y deunydd cymorth a grëwyd ac a ddosbarthwyd:							
	Canllawiau Digideiddio			190	280	243	216	78
	Pecyn Cymorth â'r Cynnwys			190	280	243	216	78
	Prosbectws Casgliad y Werin			496	285	359	472	78
	Nifer y defnyddwyr yn cael hyfforddiant ar faterion cyfreithiol neu hawlfraint			93	110	189	216	52
Dysgu	Nifer yr adnoddau a'r cynnwys dysgu a luniwyd ac a gyhoeddwyd			44	7	929	24	7
	Nifer defnyddwyr yr adran ddysgu		Athrawon	41	0	0	32	?
			Cynghorwyr	13	0	0	22	?
Partneriaethau ac Ymgysylltiad Defnyddwyr	Nifer y partneriaethau ffurfiol mewn cytundebau ysgrifenedig			4	2	28	29	
	Nifer y partneriaethau cydweithredu arloesedd y cytunwyd arnynt			2	4	8	11	4
	Nifer pencampwyr CyW (wedi cwblhau'r rhaglen gyflwyno)			73	65	6	8	1
	Nifer y grwpiau diddordeb cymunedol neu leol sydd wedi cofrestru neu yr ymgysylltir yn weithredol â hwy			147	51	10	30	28
Ymwelwyr i'r wefan a'u hymddygiad	Nifer yr ymwelwyr i'r wefan			188,558	99,547	201,281	189,911	48,612
	Nifer cyfartalog yr ymwelwyr newydd			78.8%	79.2%	72.73%	74.49%	74.10%
	Nifer cyfartalog yr ymwelwyr sy'n dychwelyd			21.2%	20.8%	27.28%	25.51%	25.90%
	Cyfradd adlamu cyfartalog			14.3%	17.4%	57.25%	57.31%	64.33%
	Nifer cyfartalog y tudalennau y mae pob ymwelydd yn edrych arnynt			3.82	3.06	3.6925	3.665	3.9

- 4.27 Er ei bod yn ddefnyddiol iawn olrhain cynnydd dros gyfnod o amser, gall fod yn briodol ystyried adnewyddu ychydig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y rhaglen er mwyn sicrhau bod y mesurau yn adlewyrchu'n llawn sut mae'r rhaglen yn perfformio mewn perthynas â gwahanol grwpiau defnyddwyr, ac yn darparu gwybodaeth gywir a defnyddiol ar hynny.

Strwythur Llywodraethu

- 4.28 Mae adborth gan y Grŵp Rheoli ar ddatblygiadau a newidiadau diweddar i brosesau rheoli a llywodraethu'r rhaglen yn dangos fod 'symleiddio' y strwythur llywodraethu wedi bod yn llwyddiannus. Ystyrir bod strwythur tynnach y Grŵp Rheoli wedi bod yn arbennig o fuddiol yng nghyd-destun y toriadau ariannol, gan fod rolau a chyfrifoldebau wedi'u hegluro a bod gwell prosesau gwneud penderfyniadau
- 4.29 Ystyrir hefyd fod cyfarfodydd yr Arweinwyr Llinynnau yn fwy effeithlon.
- 4.30 Yn ogystal, deallir bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran ymgysylltu â phartneriaid i ffurfio Grŵp Cyngori. Byddai'r grŵp wedi'i ffurfio o aelodau i gynnwys sefydliadau eraill yn y sector treftadaeth ddiwylliannol er mwyn llywio cyfeiriad strategol y rhaglen, fodd bynnag nid yw hyn wedi'i roi ar waith eto.

Prosesau Monitro a Gwerthuso

- 4.31 Mae ffocws yn parhau yn y rhaglen i ddeall y gwelliannau y gellid eu gwneud a'r gwersi a ddysgwyd, fel y dangosir drwy gomisiynu fframwaith y gwerthusiad blaenorol, y gwerthusiad hydredol, a darnau ychwanegol o waith yn ymwneud â monitro a chasglu data a dangosyddion perfformiad (e.e. Ymarfer Mapio Data) yn ogystal â'r gwaith ar grwpiau cynulleidfau.
- 4.32 Mae staff y rhaglen wedi sôn yn gyson am esblygiad parhaus y rhaglen drwy gydol oes Casgliad y Werin, ac maent wedi dangos ymrwymiad i ddeall a chasglu data monitro i gyfrannu tuag at ddysgu effeithiol a datblygu'r rhaglen.
- 4.33 Mae'r tîm wedi adrodd bod Model Effaith Gwerth Cytbwys Simon Tanner wedi bod yn ddefnyddiol wrth fesur a phrofi gwerth y rhaglen.
- 4.34 Er bod cynnydd wedi'i wneud, dylai'r rhaglen barhau i ddarparu adnoddau ar gyfer monitro a gwerthuso yn fewnol i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Pwynt dysgu allweddol i'r tîm yw cydnabod a deall pwysigrwydd data am berfformiad (yr hyn a wnaed) a data am effaith (pa effaith mae hyn wedi'i gael).
- 4.35 Nid yw'n bosibl mewn rhai achosion i gasglu data cadarn yn fewnol, ar lefel rhaglen, am yr effaith. Mae sylweddoli y byddai casglu data effaith yn gofyn am **brosesau neu ddulliau casglu newydd, a fyddai yn eu tro yn gofyn am adnoddau ychwanegol**, yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio monitro a gwerthuso i'r tymor hwy.

Strwythur y Rhaglen: y Llinynnau a'r Model Gweithredu

- 4.36 Mae gweithgarwch Casgliad y Werin wedi'i rannu yn ddiweddar ar draws y llinynnau (*strands*) canlynol:
- Ymgysylltu â'r Gymuned, Cynnwys a Chymedroli;
 - Dysgu;
 - Marchnata;
 - Technoleg;
 - Arloesi.
- 4.37 Yn fras, fel llinynnau 'galluogi', mae'r llinynnau marchnata a thechnoleg wedi bod â rôl fwy cyson dros amser.
- 4.38 Fel datblygiad allweddol, mewn ymateb i'r gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer 2016-17, bu'n angenrheidiol i reolwyr Casgliad y Werin ddatblygu a gweithredu mesurau lliniaru. O ganlyniad i hyn, gwnaed y penderfyniad i ymgorffori'r swyddogaethau marchnata ar draws llinynnau'r rhaglenni eraill. Felly, nid oes '*Llinyn Marchnata*' unigol bellach ac mae pob llinyn arall wedi cael cyfrifoldebau marchnata penodol sy'n ymwneud â'i waith craidd.
- 4.39 Ystyrir ei bod yn hanfodol bod Casgliad y Werin nid yn unig yn cynnal y capasiti swyddogaethau marchnata ond hefyd yn ei gynyddu er mwyn hyrwyddo'r rhaglen a'i llwyddiannau yn effeithiol. Nodir bod camau wedi eu cymryd i reoli'r newid hwn yn effeithiol o fewn llinell amser heriol, gan gynnwys y trafodaethau cychwynnol ymysg yr Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd a'r Grŵp Rheoli Mewnol, yn ogystal â gwella sgiliau staff wedi hynny i ymgymryd â chyfrifoldebau marchnata ychwanegol. Dylid monitro'n ofalus unrhyw effeithiau nas rhagwelwyd i'r newid hwn er mwyn sicrhau bod cysylltiadau cadarnhaol â brand y rhaglen yn cael eu cadw.
- 4.40 Isod mae crynodeb o'r prif weithgarwch ym mhob llinyn yn ystod y cyfnod ers y Gwerthusiad Interim:
- **Y Llinyn Dysgu:** Ystyrir bod y Llinyn Dysgu wedi mynd drwy '*flwyddyn datblygu*'. Ers y Gwerthusiad Interim, cafwyd lansiad llwyddiannus i adnoddau dysgu ar wefan Casgliad y Werin, a chafodd cystadleuaeth ei threialu mewn 50 ysgol a Chasgliad y Werin yn darparu'r elfen ddigidol.
 - **Y Llinyn Technoleg:** Ers cwblhau'r uwchraddio technegol llwyddiannus yng nghyfnod y gwerthusiad blaenorol, mae gwefan Casgliad y Werin wedi cael llai o broblemau ac ystyrir yn eang ei fod yn blatfform mwy sefydlog. Yn ddiweddar, llwyddwyd i gwblhau datblygu'r rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API), ynghyd â datblygu medru cynnig microwefannau ac ategolion (*widgets*) fel llwybr i isadeiledd Casgliad y Werin.
 - **Y Llinyn Arloesi:** Mae Casgliad y Werin ar hyn o bryd yn cefnogi nifer o brosiectau iBeacon sydd wedi'u datblygu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid

prosiect. Mae cymorth wedi cynnwys: datblygu ac arwain syniadau cychwynnol; hyfforddiant iBeacon pwrpasol; cymorth wrth wneud ceisiadau ariannol; yn ogystal â Chasgliad y Werin yn gweithredu fel partner prosiect naill ai drwy gymorth ariannol neu gefnogaeth o fath arall. Cafwyd cyllid ychwanegol hefyd drwy Lywodraeth Cymru i wneud gwaith yn ymwneud â chofio Frongoch.

- **Llinyn Ymgysylltu â'r Gymuned:** mae cynnal hyfforddiant achrededig i unigolion a grwpiau cymunedol wedi parhau, gyda ffocws ar Ardaloedd Arloesi a sefydlu Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol. Mae gwaith rhyngwladol wedi cynyddu hefyd, gan gyflawni gwaith yn llwyddiannus yn yr Ariannin fel rhan o ddathliadau Patagonia 150, a mwy o waith gyda chymunedau ar draws yr Unol Daleithiau.

- 4.41 Gan fod rhai gweithgareddau yn amlwg yn gweithredu o fewn un llinyn penodol h.y. y Culture Beacons, tra bod gweithgareddau eraill megis hyfforddiant, er enghraifft, bellach yn bodoli ar draws llinynnau lluosog (ymgysylltu â'r gymuned ac arloesi ill dau), mae'n bwysig bod y llinynnau wedi'u hintegreiddio'n dda. Deellir bod nifer llai y llinynnau wedi hwyluso'r broses hon yn fewnol. Dylai defnyddwyr hefyd fod yn ymwybodol o'r holl wasanaethau **perthnasol** sydd gan Gasgliad y Werin, er hynny mae adborth gan ddefnyddwyr yn awgrymu y gellid gwella hyn. Byddai sylwi ar gysylltiadau rhwng gweithgareddau'r llinynnau gwahanol hefyd yn hybu cyfleoedd i ennyn diddordeb defnyddwyr; er enghraifft, gallai cydweithio agosach rhwng y llinynnau dysgu ac ymgysylltu â chymunedau arwain at gyfleoedd ar gyfer mathau newydd o brosiectau megis pontio rhwng y cenedlaethau neu'r rheiny sy'n canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol.

Ymgysylltu â Defnyddwyr a Phartneriaid Prosiect

- 4.42 Yn gyffredinol, bu'n angenrheidiol yn y cyfnod yn dilyn yr adnewyddu technegol i ailfeithrin perthynas â rhanddeiliaid ehangach, neu "*adennill cyfeillion*" fel y dywedodd un ymgynghorai. Er y dywedwyd bod "*uchafbwyntiau ac isafbwyntiau*" o ran p'un a yw'r gwasanaethau wedi bod yn "*barod i'w hyrwyddo*" ai peidio (wrth i hyder rhanddeiliaid syrthio yn ystod yr adnewyddu technegol, er enghraifft), eto credir bod cynnig sefydlog, dibynadwy a gwydn wedi datblygu erbyn hyn. (Caiff hyn ei gadarnhau hefyd gan ddata'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ôl cwblhau'r adnewyddu technegol yn llwyddiannus.)
- 4.43 Gofynnwyd i ymgynghoreion mewnol roi adborth ynghylch i ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â nifer o wahanol fathau o randdeiliaid sy'n berthnasol i'r rhaglen. Dylid nodi bod ymatebwyr yn fwyaf ymwybodol o waith yn ymwneud â chylch gwaith eu sefydliad eu hunain (roedd gweithio gydag ysgolion yn llai adnabyddus i rai ymatebwyr, er enghraifft), felly mae'n bosibl fod ymwybyddiaeth wahanol yn camystumio'r argraffiadau penodol y sonnir amdanynt isod.
- 4.44 Mae adborth yn dangos bod y grwpiau y credir bod y rhaglen wedi ymgysylltu yn fwyaf llwyddiannus â hwy yn cynnwys: sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach (er nad ydynt yn cael eu hystyried yn '*grŵp targed*' gan ddau ymatebydd); partneriaid dysgu

eraill (o gofio'r ymgysylltu â'r BBC, er enghraifft); a grwpiau cymunedol. Mewn perthynas â grwpiau cymunedol, dywedodd un ymatebydd fod y rhaglen wedi "*rhagori ar y targedau*".

- 4.45 Soniodd un ymgysylltai am yr her wrth ymgysylltu â chymunedau penodol, gan fod hyn yn gofyn am lawer o waith "*caib a rhaw*" er mwyn cyrraedd grwpiau targed yn llwyddiannus, h.y. teimlir bod y llai o adnoddau sydd ar gael wedi cael effaith ar ba mor rhwydd y gellir ymgysylltu'n llwyddiannus â'r cymunedau hyn.
- 4.46 Grwpiau y teimlid nad oeddynt wedi ymgysylltu cystal (o'i gymharu â grwpiau eraill, e.e. aelodau o'r gymuned a oedd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol) oedd '*partneriaid yn y sector*' a '*phartneriaid strategol*'. Mae'r farn hon yn mynd yn groes i'r darlun cyffredinol o well ymgysylltiad â phartneriaid yn seiliedig ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddarparwyd, gan awgrymu, efallai, fod gan y rhaglen uchelgeisiau uchel yn hyn o beth, neu o bosibl nad yw llwyddiannau yn cael eu deall yn gyson yn fewnol. Soniodd un ymatebydd am ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid yn y sector ynghylch sut y gallai Casgliad y Werin eu helpu i ddenu deunydd i'w casgliadau, felly mewn rhai achosion caiff Casgliad y Werin ei ystyried yn "*fygythiad*".
- 4.47 Yn gysylltiedig, drwy ein hymgyngghoriadau, buom yn siarad â rhai defnyddwyr a oedd wedi archifo deunyddiau ar safle Casgliad y Werin a hefyd yn eu hamgueddfeydd, archifdai neu lyfrgelloedd lleol o ganlyniad, yn ogystal â defnyddwyr y mae rhyngweithio â Chasgliad y Werin wedi atgyfnerthu eu hargraff o weithio gydag amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd. Yn gadarnhaol, ystyrir bod ymgysylltu â phartneriaid yn datblygu'n dda. Mae ymgysylltu â phartneriaid yn y sector yn allweddol os yw'r rhaglen yn dymuno dilyn ei huchelgais o ran arweinyddiaeth ddigidol.

Ymgysylltu â Phartneriaid Prosiect a Rhanddeiliaid Strategol

- 4.48 Mae Casgliad y Werin wedi cefnogi nifer o bartneriaid prosiect a rhanddeiliaid drwy ddarparu offer, hyfforddiant, a phlatfform Casgliad y Werin ar y we. Mae adborth uniongyrchol ymgynghoreion allanol yn dangos bod yr ymgysylltu yn fwyaf llwyddiannus pan gyflwynid cynnig clir:

"Y cynnig clir aeth â hi [sef yr Orsaf Treftadaeth Ddigidol, hyfforddiant, a'r offer ac ati]. Mae'n rhwydd pan fydd rhywun yn rhoi cynnig ger bron sy'n gwneud synnwyr – rhywbeth yr oedden ni'n bendant am ei wneud." – Ymgynghorai allanol

- 4.49 Credid hefyd fod profiad ac arbenigedd Casgliad y Werin mewn treftadaeth ddigidol ac o ran cyrraedd cymunedau yn gymhelliant allweddol i fod yn rhan ohono. I gyrff a mudiadau sy'n ymwneud â chyrraedd cymunedau, teimlid i raddau helaeth fod Casgliad y Werin yn gydnaws â'u cylch gwaith eu hunain, ac yn cynnig ymgysylltiad llawer cryfach na'r hyn y gellid ei gyflawni hebddo. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin mewn mudiadau rhyngwladol sy'n ymgysylltu â Chymry alltud. Roedd un ymatebydd yn ystyried Casgliad y Werin yn "*gysylltiad allweddol*" oherwydd natur "*wynebu'r cyhoedd*" ac "*edrych tuag allan*" y rhaglen.


4.50 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd partneriaid a rhanddeiliaid wedi ymgysylltu yn sgil cyswllt rhagweithiol o du tîm Casgliad y Werin.

Ymgysylltiad Defnyddwyr a Chymhelliant

4.51 Cafwyd cyfanswm o 38 o ymatebion llawn i'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr (fel yr amlinellir ym Mhennod 2). Mae tebygolrwydd uchel bod cyfran o'r defnyddwyr hyn wedi dod o'r defnyddwyr cofrestredig ar restr bostio Casgliad y Werin, ac felly dylid ystyried yr ymatebion i fod yn ddangosol yn hytrach nag yn gynrychioliadol. Mae hefyd yn bwysig nodi natur hunanddewisol yr ymatebwyr (h.y. rhai sydd eisoes yn ymgysylltu â'r rhaglen, a'r rhai sy'n fodlon/gallu cymryd rhan mewn arolwg electronig). Ymhellach, roedd proffil yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Roedd gan gyfran uchel yr ymatebwyr gymwysterau ar lefel uwch.
- Roedd mwy o ymatebwyr yn y categorïau oedran hŷn, yn enwedig y rhai dros 60 oed.
- Roedd ymatebwyr gan amlaf wedi nodi eu hunain i fod yn Gymry ac/neu fod ganddynt hanes teulu o Gymru.


4.52 Yn yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr, gofynnwyd i ymatebwyr sut y daethant i glywed gyntaf am raglen Casgliad y Werin. Fel y dangosir yn Ffigwr 2 isod, daeth chwarter ohonynt i glywed amdano yn y lle cyntaf drwy chwilio ar y we.



Ffigwr 2: Sut y daethoch i glywed gyntaf am Gasgliad y Werin?

4.53 O ran pam y daeth defnyddwyr yn rhan (Ffigwr 3), dengys atebion yr holiadur fod defnyddwyr wedi'u denu yn bennaf oherwydd diddordeb oedd ganddynt eisoes mewn diwylliant a threftadaeth. Roedd defnyddwyr a nododd resymau eraill dros gymryd rhan a oedd yn wahanol i'r dewisiadau a roddwyd wedi sôn am y canlynol: ymchwil (e.e. ar gyfer erthygl Wicimedia, i gael gwybodaeth hanes teulu, neu luniau o ardal

leol); i rannu eitemau neu brofiadau; neu oherwydd prosiectau penodol drwy waith neu addysg.



Figwr 2: Beth wnaeth eich ysgogi i ymwneud â Chasgliad y Werin?

- 4.54 Awgryma'r atebion uchod fod llawer o'r ymatebwyr yn gysylltiedig â'u hamgueddfeydd, archifdai neu lyfrgelloedd lleol neu grwpiau hanes neu sefydliadau addysg, ac maent yn datgelu nifer o brif gymhellion – gallai hyn ddangos pwyntiau ymgysylltu pwysig i'w targedu at anghenion penodol y defnyddwyr.

Pencampwyr Casgliad y Werin

- 4.55 Roedd 18 o ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn ystyried eu hunain yn 'Bencampwyr' Casgliad y Werin. O'r opsiynau a gynigwyd, roedd bron i draean yr ymatebwyr wedi nodi mai un o'u cymhellion dros gymryd rhan fel Pencampwr oedd i ennill sgiliau newydd. Cafodd ymatebwyr eu denu hefyd gan y cyfle i 'wneud gwahaniaeth' ac i 'wella rhagolygon gyrfa'.
- 4.56 Roedd bron i draean y pencampwyr wedi rhestru rheswm arall i'r opsiynau ateb a gynigwyd; roedd y rhain yn aml mewn cysylltiad â phrosiect penodol fel rhan o ddiddordeb personol, astudiaeth bersonol, neu fel rhan o ymrwymiad gwirfoddoli neu gyflogaeth, er enghraifft:

"Rwyf wedi lanlwytho deunydd ar gyfer ein heglwys i greu ac archifo adnodd hanes i helpu i ddathlu canmlwyddiant y plwyf."

"Er mwyn gwneud prosiect yn fy nghwrs prifysgol."

"Er mwyn rhannu eitemau o gasgliadau'r amgueddfa, a hefyd rhai sydd wedi cael eu benthyg i ni ar gyfer prosiect, ar blatfform digidol."


- 4.57 Mae hyn yn awgrymu fod Pencampwyr eisoes wedi bod yn gysylltiedig â threftadaeth cyn ymgysylltu â'r rhaglen, boed hynny yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae'r gweithgareddau y mae Pencampwyr Casgliad y Werin wedi eu gwneud yn amrywio:

mynychu sesiynau hyfforddi; hyrwyddo gwahanol agweddau ar y rhaglen ar-lein neu ar lafar, neu drwy fudiadau sy'n bodoli eisoes; helpu eraill i ddefnyddio'r wefan ac agor cyfrifon Casgliad y Werin; trefnu sesiynau hyfforddi i bobl eraill; a lanlwytho deunyddiau i'r safle.

- 4.58 Mae'r adborth hwn yn dangos bod y Pencampwyr yn adnodd gwerthfawr i'r Rhaglen, a bod eu brwdfrydedd a'u sgiliau perthnasol yn cynorthwyo i hyrwyddo'r rhaglen a chynyddu cyfranogiad a mynediad. Pe gellid ysgogi defnyddwyr ychwanegol i weithredu o blaid y rhaglen fel hyn, gallai hynny gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol pellach, cyn belled ag y gellid cynnal y profiad gwirfoddoli cadarnhaol a'r cydnabod cyflawniadau, e.e. fel y gwnaed mewn achlysur blaenorol yn dathlu Pencampwyr.


Bodlonrwydd Defnyddwyr a Phartneriaid Prosiect

- 4.59 Roedd rhanddeiliaid a phartneriaid prosiect yn gyson gadarnhaol am y cyfathrebu a'r gweithredu, ac i ba raddau yr oedd Casgliad y Werin yn gallu deall eu hanghenion a'u persbectif.
- 4.60 Roedd ymatebwyr yr e-Holiadur yn gyffredinol gadarnhaol am wefan Casgliad y Werin ac am y darparu gwasanaethau ehangach a gweithgareddau cysylltiedig. Pan ofynnwyd iddynt raddio gwahanol agweddau ar wefan Casgliad y Werin, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gadarnhaol ar draws pob categori.



Ffigwr 4: Beth yw eich barn am yr elfennau canlynol ar wefan Casgliad y Werin?

Pan ofynnwyd am eu barn a ellid ystyried y wefan 'yn saff a diogel', yn 'ffynhonnell gwybodaeth ddibynadwy' ac a oedd "perthynas gadarnhaol" wedi cael ei meithrin â nhw ar-lein, rhoddodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr atebion positif ym mhob achos.



Ffigwr 3: Ydych chi'n credu bod gwefan Casgliad y Werin....?

- 4.61 Gofynnwyd i ddefnyddwyr i ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi diwallu eu hanghenion, ac, yn gadarnhaol, adroddodd 80 y cant o'r ymatebwyr fod y rhaglen wedi diwallu'r anghenion a nodwyd ganddynt, gyda chyfran cymharol gyfartal yn nodi 'rhywfaint' ac 'yn fawr iawn'. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (dros 80%) yn debygol o ymgysylltu eto â'r rhaglen a'i hargymell i eraill.
- 4.62 Mae rhagor o wybodaeth am farn defnyddwyr am y rhaglen i'w gael yng nghanlyniadau'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr 2016 sydd yn Atodiad 2.

Barn am Gasgliad y Werin

- 4.63 Gofynnwyd yn gyson y cwestiwn, '*Pa 6 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio Casgliad y Werin?*' yn yr holl ymgynghoriadau (Rhanddeiliaid a Phartneriaid Prosiect Allanol, Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd a'r Grŵp Rheoli Mewnol) yn ogystal ag yn yr e-holiaduron er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch sut y mae hunaniaeth, brand a swyddogaeth Casgliad y Werin yn cael eu gweld ledled grwpiau'r ymatebwyr.
- 4.64 Gwnaed yr ymchwil hwn ar ddwy adeg flaenorol yn llinell amser y rhaglen. Gofynnwyd y cwestiwn hefyd gan ERS fel rhan o ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd ar gyfer y Gwerthusiad Interim (2014). Roedd hyn, yn ei dro, yn ailadrodd ymchwil blaenorol¹⁶ a ofynnwyd yn wreiddiol i: Grŵp Ymgynghorol Casgliad y Werin; uwch weithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru; a Rheolwr Prosiect Casgliad y Werin (sy'n cyfateb yn fras i'r grwpiau ymgynghori presennol '*Arweinwyr Llinynnau, Grŵp Rheoli, y tîm craidd Mewnol*'). Y gobaith yw y gall y cwestiwn hwn fod yn bwynt cyfeirio i fonitro newidiadau yn yr argraffiadau am y rhaglen.
- 4.65 Cyflwynwyd cyfanswm o 272 o eiriau gan yr ymatebwyr. Roedd mwyafrif llethol y rhain yn gadarnhaol, gyda dim ond 10 gair y gellid eu categoreiddio o dan y thema

¹⁶ Johnson, R. (2010), Traethawd Estynedig Gradd Meistr

o 71 o unigolion wedi mynd ymlaen i ennill achrediad Lefel 2 ar ôl gwneud yr hyfforddiant.

Tabl 8: Unigolion wedi'u hyfforddi mewn Digideiddio a Hawlfraint			
Blwyddyn	2013/14	2014/15	2015/16
Nifer yr unigolion wedi'u hyfforddi	90	400	321

- 4.71 Ymhellach, mae parch mawr i arbenigedd Casgliad y Werin i **ymgysylltu â chymunedau a'u hannog i rannu eu straeon**. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, mae'n *"gweithio orau pan maent yn trefnu cymunedau i rannu"* e.e. drwy Orsafoedd Treftadaeth Ddigidol, sioeau teithiol, neu ddulliau eraill.
- 4.72 Credai rhai rhanddeiliaid strategol fod dull penodol Casgliad y Werin o ennyn diddordeb cymunedau mewn treftadaeth ddigidol yn arwain at fwy o **rymuso i'r cymunedau** hynny. Awgrymodd un rhanddeiliad fod y ffaith fod *"cymunedau yn ei wneud eu hunain"* yn gallu arwain at newid agwedd tuag at warchod a rhyngweithio â threftadaeth h.y. wrth i gymunedau ddod yn ymwybodol eu bod yn gallu *"ymgymryd â threftadaeth drostynt eu hunain"*.
- 4.73 Mae'r ymgysylltu cymunedol hefyd yn galluogi pobl i **rannu straeon** na fyddent fel arall yn gallu ei wneud, neu efallai nad oeddynt wedi sylweddoli y gallent neu y dylent eu rhannu. Mae'r ymgysylltu hwn yn ei gwneud yn haws datgelu deunyddiau *"cudd"*, a hefyd yn lleihau'r risg y byddai straeon penodol yn cael eu colli. Ystyrir bod Sioeau Teithiol Cymunedol yn arbennig o lwyddiannus yn hyn o beth i annog cymunedau i rannu pethau a allai fod ganddynt *"yn eu hatig"*.
- 4.74 O gymorth i'r ymgysylltu hwn hefyd mae staff sy'n weithgar a brwdfrydig; mae'r ffaith fod **staff arbenigol parhaol a rhagweithiol** ar gael yn cael ei ystyried yn gaffaeliad mawr i'r rhaglen. Soniodd un ymatebydd bod y rhaglen yn *"haws gweithio gyda hi"* (o'i gymharu â menter debyg) a'i bod yn *"isel ei chost nid isel ei gwerth"*.
- 4.75 O ran **ymgysylltu digidol** â chymunedau, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dweud mai *"Casgliad y Werin yw un o'r casgliadau cenedlaethol mawr. Gan ei bod wedi'i lleoli yn Aberystwyth, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn eithaf anghysbell, felly mae Casgliad y Werin yn ein helpu i gysylltu'n ddigidol â chymunedau, a oedd yn fwlc yn ein darpariaeth."*
- 4.76 Pan fo darparu'r gwasanaethau uchod ynghlwm wrth **ardal ddaearyddol benodol a chylch gwaith strategol clir**, ystyrir bod y darparu a'r gweithredu yn arbennig o effeithiol, fel y gwelir mewn cysylltiad â'r Rhaglen Cyfuno yn ogystal â chydweithio

rhyngwladol. Ymhellach, ymddengys bod **mynd at gymunedau drwy ganolwr** yn ddull gweithio effeithiol.

- 4.77 Mae **arbenigedd a dealltwriaeth** Casgliad y Werin (e.e. deall hawlfraint a sefydliadau partner) yn golygu y gall pobl “*gydweithio’n hyderus*” gyda’r rhaglen. Credir yn eang fod Casgliad y Werin yn adnodd arbenigol y gellir ymddiried ynddo gan y rheiny sydd wedi ymwneud ag ef. Mae natur anfasnachol y rhaglen hefyd yn cyfrannu ymhellach at y farn hon.

Heriau wrth Weithredu

- 4.78 Daeth nifer o heriau i’r amlwg drwy adborth yr ymgynghori.
- 4.79 **Adnoddau:** Yn gyntaf, mae rhanddeiliaid o’r farn yn gyffredinol fod tîm Casgliad y Werin yn “*gwneud llawer gydag ychydig*”, sydd i’w ganmol. O ran rheoli adnoddau, mae dulliau creadigol wrthi’n cael eu datblygu (cymorthfeydd Skype, gweithio digidol, a chwrs hyfforddi digideiddio ar-lein mewn 10 rhan, er enghraifft) er mwyn defnyddio llai o adnoddau a sicrhau nad yw’r Tîm Craidd bob amser ‘*ar lawr gwlad*’. Wedi dweud hyn, cydnabyddir bod **ymgysylltu â chymunedau targed yn defnyddio llawer o adnoddau**, ac yn gofyn am lawer iawn o waith “*caib a rhaw*” o’r union natur hyn. Yn wir, ymddengys fod gwaith rhagweithiol gan y staff wedi arwain at nifer o bartneriaethau llwyddiannus.
- 4.80 Wrth ystyried prosesau i ychwanegu at adnoddau – sy’n angenrheidiol o gofio’r cyfyngiadau presennol – dylai’r rhaglen ystyried ffyrdd amgen o sicrhau presenoldeb ‘*ar lawr gwlad*’ mewn ardaloedd blaenoriaeth er mwyn medru cynnal y cryfder hwn yn y rhaglen heb beryglu ansawdd yr ymgysylltu. Yn ôl un ymgynghorai allanol: “*mae’n drueni nad oes ganddynt fwy o gapasiti i ddarparu’n uniongyrchol*”.
- 4.81 Dywedodd un rhanddeiliad allanol fod ymrwymiad lleol, cyson yn anodd ei sicrhau, a her i wefan Casgliad y Werin yw ei strwythur cenedlaethol ond ei gweithlu bychan. Gyda mwy o adnoddau byddai’n bosibl, er enghraifft, cael “*hyrwyddwr treftadaeth rhanbarthol*”, gan ddefnyddio model tebyg i fentrau cenedlaethol eraill sy’n canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru.
- 4.82 **Marchnata:** Caiff marchnata a hyrwyddo eu crybwyll **yn gyson** gan yr holl grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy fel **prif flaenoriaeth**. Mae adborth gan bartneriaid prosiect a rhanddeiliaid yn dangos argraff nad yw’r ‘*cyhoedd*’ a mudiadau cymunedol yn ehangach o reidrwydd yn ‘*ymwybodol*’ o wefan Casgliad y Werin. Yn bwysig, codwyd hyn gan ymgynghoreion yn sgil dymuniad i ‘*ledaenu’r gair*’ gan eu bod yn credu bod y rhaglen yn werthfawr a’u bod yn awyddus i ragor o unigolion a sefydliadau ddod i wybod am yr hyn y mae’n ei gynnig. Câi’r farn hon hefyd ei adlewyrchu yn rhyngwladol.
- 4.83 Yn sgil toriadau i gyllid a’r mesurau a gymerwyd i integreiddio ac ymgorffori swyddogaethau marchnata ar draws pob llinyn, rhaid cael ymdrech unedig i sicrhau nad yw’r swyddogaethau hyn yn cael eu rhoi i’r naill ochr ond yn hytrach y rhoddir mwy o bwyslais arnynt.

- 4.84 Fel enghraifft anecdotaidd, i un prosiect rhyngwladol mae'r llinyn Ymgysylltu â'r Gymuned eisoes yn cael ei ystyried i fod â swyddogaeth farchnata, ac fe'i gwahoddwyd i fynychu gŵyl yng Ngogledd America i hyrwyddo'r rhaglen yn ehangach.
- 4.85 O ran anghenion marchnata yn y dyfodol, mae'n amlwg o'r adborth ei bod yn flaenoriaeth i sôn yn glir ar-lein am gasgliad cyfan y gwasanaethau a chynnyrch (gan gynulleidfa darged) y mae Casgliad y Werin yn eu cynnig.
- 4.86 Nododd un ymgynghorai mewnol fod apêl eang i'r hyn sydd gan y rhaglen i'w gynnig ac mae, i bob pwrpas, yn *'rhwydd i'w werthu'* gan fod y rhaglen yn rhywbeth y mae amrediad eang o bobl eisiau bod yn rhan ohono unwaith y mae'r neges yn eu cyrraedd. Soniodd yr ymgynghorai bod angen hysbysebu rheolaidd wedi'i dargedu, yn ogystal â chanolbwyntio ar **brofiad y defnyddiwr yn bennaf oll**. Er mwyn cyflawni hyn, argymhellir adnoddau a chyllideb marchnata ychwanegol yn ogystal â datblygu gwybodaeth am ddefnyddwyr (o ran defnyddwyr presennol a rhai posibl).
- 4.87 **Grwpiau Cynulleidfa:** Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud gan dîm y rhaglen i ddeall a nodi cynulleidfaoedd craidd **sy'n bodoli eisoes** a grwpiau cynulleidfa **targed** ar gyfer Casgliad y Werin. Argymhellir bwrw ati i edrych eto ar grwpiau cynulleidfa yn y diwygio ar strategaeth Casgliad y Werin sydd ar yr arfaeth.
- 4.88 Cynhaliwyd darn o waith ychwanegol gan ERS yn 2015 yn ymwneud â Strategaeth Farchnata Casgliad y Werin, gan adeiladu ar waith y rhaglen ar 'Grwpiau Cynulleidfa' Tanner. Mae crynodeb o argymhellion dethol a ddeilliodd o'r gwaith hwn wedi'u cynnwys isod. Mae gwaith o fewn y rhaglen i ddatblygu dealltwriaeth bellach o'r prif gynulleidfaoedd yn mynd rhagddo.
- **Bod yn glir ynghylch diffiniadau**, megis 'defnyddiwr', 'cynulleidfa', 'rhanddeiliaid', a gwahaniaethu defnyddiwr 'gweithredol' (*active*) ac un wedi'i ysgogi (*activated*). Dylid cytuno ar ddiffiniadau yn fewnol ar draws y llinynnau.
 - Cael ei harwain gan **'gwybod beth sy'n gweithio'** a 'sut mae llwyddiant yn edrych' i grwpiau cynulleidfa gwahanol.
 - Adeiladu ar y gwaith positif sydd eisoes yn cael ei wneud gan Gasgliad y Werin i **ddeall a mapio cynulleidfaoedd** (rhai presennol a phosibl, ar-lein ac all-lein).
 - **Cynnal trafodaeth fewnol ar gynulleidfaoedd blaenoriaeth** a'u rhyngweithio penodol â llinynnau, eu diddordebau a'u gwerthoedd (ac a oes unrhyw ddiddordebau **a rennir** rhwng grwpiau).
 - Adrodd am **newid dros amser** er mwyn rhoi cyd-destun ac asesu pa mor effeithiol yw gweithgarwch.

- 4.89 Gellid ystyried ymchwil i'r farchnad ac/neu brofion defnyddioldeb er mwyn deall anghenion defnyddwyr (mewn perthynas â chynhyrchion a gwasanaethau) a'u profiad o ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin. Nododd un ymgynghorai mewnol fod rhai defnyddwyr, yn eu profiad nhw, wedi cael trafferth deall sut i ddefnyddio'r wefan yn effeithiol, gyda thystiolaeth o un defnyddiwr yn dweud "*does gen i ddim syniad sut i'w defnyddio*" (cyn cymryd rhan mewn tiwtorial rhyngweithiol). Nodir bod tiwtorialau fideo ar y gweill i gyflwyno defnyddwyr i swyddogaethau'r wefan, er y gall hyn fod yn gyfle i ddeall profiad y defnyddiwr yn well er mwyn sicrhau bod defnyddio'r wefan yn digwydd mor '*reddfol*' ag y bo modd (gan gydnabod ei bod yn hanfodol i rai grwpiau defnyddwyr gael cymorth wedi'i gyfyngu i ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein yn fwy cyffredinol h.y. y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac/neu sydd â sgiliau digidol gwan).
- 4.90 **Brand:** Er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r rhaglen, dylid sicrhau bod pob maes gweithgarwch yn rhwydd eu hadnabod fel rhan o Gasgliad y Werin. Er enghraifft, er bod ymgynghoriadau wedi dangos ei bod "*yn llwyr bosibl addasu Culture Beacons*" (sydd yn rhywbeth cadarnhaol ar gyfer sefydliadau/mudiadau sy'n ddefnyddwyr), dylai'r gwaith hwn gael ei gysylltu'n fwy clir gyda Chasgliad y Werin, yn enwedig er mwyn rhoi modd traws-gyfeirio at agweddau craidd y rhaglen, fel y wefan ac/neu hyfforddiant. Roedd lleiafrif ymhlith yr ymgynghoreion yn cyd-doddi gwasanaethau a dderbyniwyd gan Gasgliad y Werin gyda sefydliadau partner a sefydliadau a ariennir yn allanol.

Dysgu Allweddol

- 4.91 Mae dysgu allweddol dros oes y rhaglen wedi digwydd. Amlinellodd tîm y rhaglen nifer o feysydd lle mae arfer gorau wedi dod yn amlwg, gan gynnwys:
- Datblygu'r hyfforddiant achrededig a **chyfleu'r hyn a gynigir yn well**. Ystyrir bod cynnyrch a gwasanaethau wedi aeddfedu;
 - Cylch bywyd y **Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol** h.y. sut i sefydlu'r rhain a sut i wella'r defnydd arnynt;
 - Ystyrir bod y dull **Hyfforddi'r Hyfforddwr** (h.y. sefydlu system ar gyfer rhaeadru gwybodaeth a sgiliau allweddol drwy unigolion sy'n cael hyfforddiant ac, yn eu tro, yn cefnogi neu'n hyfforddi eraill e.e. Pencampwyr) yn ddefnydd effeithiol ar adnoddau ac yn llwybr allweddol i gadw'r effeithiau;
 - Ystyrir bod y Tîm Craidd wedi gwella eu **sgiliau wrth weithio gyda rhanddeiliaid allanol**, yn enwedig o ran prosesau ar gyfer gweithio gyda phartneriaid sy'n talu a phrosesau caffael;
 - Datblygwyd **llwybrau mwy effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu â phartneriaid**, er enghraifft, gweithdai i arddangos gwasanaethau a gynigir;
 - Mae'r Tîm Craidd wedi datblygu **sgiliau yn ymwneud â chreu incwm a phennu pris am amser**, dysgu mwy am sut i bennu gwerth yn briodol ar

wasanaethau Casgliad y Werin, a sut i neilltuo amser yn fwy effeithiol i dasgau sy'n cyd-fynd â manteision tymor hwy y dymunir eu cael; ac

- **Ystyrir bod sesiynau wyneb-yn-wyneb wedi'u cyfryngu yn hanfodol** i gefnogi grwpiau penodol i ddefnyddio'r wefan ac i gwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, e.e. grwpiau dan anfantais ac/neu bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Gweithredu yn y Dyfodol

- 4.92 Cafwyd nifer o awgrymiadau gan bartneriaid prosiect a rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch sut y byddent yn hoffi gweld y rhaglen yn datblygu yn y dyfodol. Mewn nifer o achosion mae ysfa gref i barhau i weithio gyda'r rhaglen. Roedd y meysydd i'w datblygu gan y mwyafrif llethol yn ymwneud ag eisiau hyrwyddo'r rhaglen, a soniodd un ymatebydd am ddiffyg eglurder ynghylch uchelgeisiau rhyngwladol y rhaglen. O ran gweithio'n rhyngwladol, mynegwyd galw am hyfforddiant ar-lein er mwyn i hwn fod ar gael y tu allan i Gymru; un datblygiad sydd ar y gweill ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yw treialu hyfforddiant digideiddio ar-lein.
- 4.93 O ran ymgynghoreion mewnol, rhennir cydnabyddiaeth ei bod yn angenrheidiol canolbwyntio ar y cylch gorchwyl craidd – sef ymgysylltu â chymunedau a chynnig yr hyfforddiant achrededig. Ynghyd â hyn, mae creu incwm yn parhau i fod yn allweddol i leihau dibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau yn ymwneud â Gweithredu'r Rhaglen

- 4.94 Mae crynodeb o brif ganfyddiadau'r bennod Gweithredu'r Rhaglen yn cynnwys:
- Mae **cynaliadwyedd ariannol yn dal yn her fawr** i'r rhaglen er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i sicrhau o ran mwy o greu incwm;
 - **Ystyrir bod y bartneriaeth ffederal wedi cael ei chryfhau**;
 - Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn dangos, ar y cyfan, bod y rhaglen wedi adfer ar ôl effaith yr adnewyddu technegol. **Mae ymgysylltu a chyfraniadau partneriaethau wedi esgor ar fuddion arbennig o gadarnhaol yn ystod y cyfnod gweithredu diweddar.** Mae meysydd ar gyfer gwelliant posibl yn cynnwys datblygu Pencampwyr ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol;
 - Gwnaed cynnydd ledled yr holl linyddau gwaith ers y Gwerthusiad Interim;
 - Mae defnyddwyr a rhanddeiliaid yn dangos **barn gadarnhaol** am y rhaglen;
 - Ystyrir bod **arbenigedd y rhaglen wrth ymgysylltu â chymunedau** yn gryfder penodol;
 - Credid bod **lefel yr adnoddau** yn her allweddol i weithredu;

-
- Mae ymatebwyr yr e-holiadur a'r ymgynghoriad ar draws pob grŵp yn gyson yn dweud bod ***marchnata yn faes allweddol i'w ddatblygu***, yn seiliedig ar awydd i sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfle i ryngweithio â'r rhaglen.

5. CYFLAWNIADAU, CANLYNIADAU AC EFFEITHIAU

5.1 Mae'r bennod hon yn manylu ar y canlyniadau a'r effeithiau y mae rhaglen Casgliad y Werin wedi esgor arnynt. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar yr ymchwil canlynol a wnaed gan ERS:

- Adborth o e-Holiadur i Ddefnyddwyr a phedair sgwrs wedi hynny i lunio astudiaethau achos;
- Adborth gan Bartneriaid Prosiect a Rhanddeiliaid Allanol;
- Adborth gan Dîm y Rhaglen a'r Grŵp Rheoli Mewnol;
- 4 Astudiaeth Achos Effaith ar elfennau o weithgarwch y rhaglen:
 - Effaith Gymdeithasol: Astudiaeth Achos Effaith Ardaloedd Arloesi
 - Effaith Arloesi: Astudiaeth Achos Effaith Cydweithio Rhyngwladol
 - Effaith Prosesau: Astudiaeth Achos Effaith Cronfa Dreftadaeth y Loteri
 - Effaith Economaidd: Astudiaeth Achos Effaith iBeacon

Prif Gyflawniadau

5.2 Ym marn llawer o bobl mae rhaglen Casgliad y Werin wedi gwneud cynnydd parhaus tuag at gyflawni'r amcanion ers i'r rhaglen ddechrau a bu gwelliannau yn sgil dysgu allweddol. At ei gilydd, mae ymgylgoreion mewnol o'r farn fod y rhaglen yn cyflawni yn fwy effeithlon, ac mewn gwirionedd yn "*gwneud mwy am lai*" wrth i'r gwaith gynyddu. Dangosir hyn drwy'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith partneriaeth a hyfforddiant.

5.3 Dengys y canfyddiadau fod cynnydd ac effeithiau pellach wedi'u cyflawni yn y cyfnod gweithredu yn dilyn Adroddiad Interim 2014. Mae'r cyflawniadau allweddol a nodwyd gan yr Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd, a'r Grŵp Rheoli mewnol yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Cyfraniad effeithiol tuag at Agenda Tlodi Llywodraeth Cymru, a thystiolaeth o hyn i'w weld yn arbennig trwy waith mewn Ardaloedd Arloesi fel rhan o'r Rhaglen Cyfuno;
- Mynegi cliriach a chryfhau 'cynnig' craidd Casgliad y Werin e.e. y model hyfforddiant achrededig;
- Cryfhau partneriaethau strategol allweddol, er enghraifft gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri;
- Datblygu rhaglen sy'n fwy cadarn, gwydn a hyblyg, sydd wedi cael ei chefnogi (yn wyneb gostyngiad heriol yn y cyllid craidd a ddyrennir) ac wedi profi ei bod yn gallu addasu a chyfrannu tuag at amrywiaeth o amcanion strategol a pholisi;
- Llwyddo i gael digon o gynnwys;

- Mae datblygiad y ‘cynnig rhyngwladol’ wedi dangos cynnydd allweddol ers yr Adroddiad Interim.
- Trefniadau a chyfathrebu Rheoli a Llywodraethu mwy effeithiol a syml;
- Datblygu gwaith iBeacon, gan arloesi drwy ddull treialu, cael tystiolaeth, ac arddangos;
- Datblygu ymhellach yr isadeiledd technegol sylfaenol (gan gynnwys cynnig microwefannau ac ategolion) sy’n rhoi modd i randdeiliaid elwa o gyfleoedd sy’n codi o ddefnyddio’r platfform presennol;
- Cefnogi prosiectau allanol yn effeithiol ar bob cam h.y. ysgogi prosiectau, cefnogi’r gweithredu, ac/neu ymestyn effaith allbwn prosiect.

- 5.4 Mae adborth hefyd yn awgrymu bod cefnogaeth ac ymrwymiad mewnol wedi’u hatgyfnerthu, gydag ymgynghorai mewnol yn gadarnhaol eu barn wrth ddweud bod Casgliad y Werin yn parhau yn berthnasol ac yn parhau i fedru cyflawni yn unol â’i hamcanion. Credir bod y ffaith fod y rhaglen yn parhau i gael ei hariannu, yn enwedig yn yr amgylchedd ariannol heriol sydd ohoni, yn dyst i’w chyflawniadau a’i gwerth.
- 5.5 O safbwynt allanol, mae cynnig craidd y rhaglen o hyfforddiant achrededig, offer, a chymorth wedi cyfrannu at werth ychwanegol i brosiectau a rhaglenni. Mae hyn yn gynnwys y rhai a oedd yn gweithredu’n annibynnol i Gasgliad y Werin, a’r rhai y mae Casgliad y Werin wedi helpu i’w gwireddu (e.e. drwy gymorth i ddatblygu prosiectau neu geisiadau am gyllid).
- 5.6 Mae adborth am staff y rhaglen a’u gallu i ymgysylltu a chefnogi cymunedau a phartneriaid ‘*ar lawr gwlad*’ yn parhau i fod yn gadarnhaol ar draws yr holl grwpiau ymatebwyr, ac ymddengys bod ymrwymiad a brwdfrydedd y staff wedi parhau yng nghanol pwysau parhaus ar adnoddau. Ymhellach, mae’r ffaith fod y rhaglen wedi parhau i esblygu mewn cyfeiriad cadarnhaol yng nghanol cyfyngiadau ariannu yn dyst i dîm Casgliad y Werin, a’r rhaglen yn cynnal cynnig craidd ac enw da cadarnhaol ar yr un pryd ag archwilio llwybrau ychwanegol i ehangu cynhyrchion a gwasanaethau a chyfrannu at gynaliadwyedd ariannol. Mae newidiadau angenrheidiol sy’n digwydd oherwydd trefniadau ariannu newydd eto i gael eu gweithredu, ond mae’n gadarnhaol fod ymrwymiad a morâl y tîm i’w gweld fel petaent yn parhau.


Cyflawniadau yn erbyn Blaenoriaethau

- 5.7 Caiff blaenoriaethau presennol rhaglen Casgliad y Werin sydd o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn eu hamlinellu yn Strategaeth 2014-17, fel y nodir ym Mhennod 3. Aseswyd y cynnydd cychwynnol tuag at bob un o’r amcanion hyn yn Adroddiad Interim 2014, gan ddod i’r casgliad bod cynnydd da wedi’i wneud, yn enwedig ar ôl cwblhau’r adnewyddu technegol. Bryd hynny, roedd y cynnydd mwyaf wedi’i wneud tuag at Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 2, er bod cynnydd tuag at Flaenoriaethau 3 a 4 wedi’i gyflawni i raddau llai.

- 5.8 Sonnir isod am y cynnydd ychwanegol a wnaed yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau ers y Gwerthusiad Interim:

Blaenoriaeth 1: Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth yng Nghymru ac i'r byd drwy blatfform digidol cynaliadwy a chynhwysol sy'n cael ei rannu.

- 5.9 Mae adborth yn dangos bod rhaglen Casgliad y Werin wedi gwneud cynnydd da tuag at Flaenoriaeth 1, gan adeiladu ar lwyddiant blaenorol o ddatblygu platfform dwyieithog sy'n fwy cadarn a dibynadwy trwy'r adnewyddu technegol a wnaed.
- 5.10 Er mwyn asesu cyfraniad rhaglen Casgliad y Werin i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth, gellir ystyried canfyddiadau'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr ochr yn ochr â chamau'r 'Cylch Treftadaeth' (Simon Thurley 2005 isod) sy'n amlinellu pedair elfen allweddol ymgysylltu â threftadaeth, sef: deall; gwerthfawrogi; gofalu; a mwynhau. O'i ystyried yn y cyd-destun hwn, mae canfyddiadau'n awgrymu, gyda'i gilydd, fod cymryd rhan yn y rhaglen yn cyfrannu at elfennau pwysig sy'n angenrheidiol i annog cyfranogiad mewn treftadaeth ac yn esgor ar y manteision a ddaw o ymgysylltu â threftadaeth. Er bod llawer o'r ymatebwyr yn dweud bod ganddynt ddiddordeb cyn hynny mewn treftadaeth, mae adborth yn awgrymu ei bod yn debygol fod y 'gwerth ychwanegol' o ymgysylltu â'r rhaglen yn benodol yn dal yn berthnasol. Mae rhywfaint o dystiolaeth ei bod wedi sbarduno diddordeb unigolion mewn treftadaeth a hwythau heb ymwneud yn flaenorol, yn enwedig pan gaiff treftadaeth ei defnyddio yn gyfrwng i gyflawni amcanion cymdeithasol eraill.




Ffigwr 4: Y Cylch Treftadaeth

“Dydyn ni ddim yn gallu deall pwy ydyn ni oni bai ein bod yn gwybod beth sydd wedi’n siapia ni a’r amgylchedd rydym yn byw ynddo. Mae Casgliad y Werin yn ei gwneud yn haws i ymchwilio a rhannu ein cenedl unigryw a rhagorol.”

– Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.11 Gan gyd-fynd â chanfyddiadau'r Adroddiad Interim, mae adborth gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid yn dangos bod platfform Casgliad y Werin yn cyfrannu tuag at wybodaeth a dealltwriaeth unigolion o dreftadaeth Cymru. Fel y trafodwyd ym Mhennod 4 (ac yn Atodiad 2), y ddau brif air a ddefnyddiodd defnyddwyr i ddisgrifio Casgliad y Werin oedd “*ddiddorol*” ac “*addysgiadol*” (eu crybwyll 16 a 11 gwaith, yn y drefn honno).
- 5.12 Adroddodd defnyddwyr **gynnydd mewn gwybodaeth** o ganlyniad i gymryd rhan yng Nghasgliad y Werin ar draws nifer o feysydd, a'r cynnydd pennaf mewn gwybodaeth yn ymwneud â ‘*digwyddiad neu destun penodol*’, ‘*llefydd ledled Cymru*’ a’r ‘*bobl yn eich cymuned*’ (gweler Ffigwr 7 isod).
- 5.13 Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau blaenorol ac yn awgrymu bod Casgliad y Werin yn gyson yn rhannu gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, gan felly gyfrannu at elfen ‘*deall*’ y cylch treftadaeth. Mae defnyddwyr hefyd yn ei **ystyried yn ffynhonnell gwybodaeth** ac mae tystiolaeth bod rhai defnyddwyr hefyd yn argymhell Casgliad y Werin ar y sail hon.



Ffigwr 5: I ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi cynyddu eich gwybodaeth neu ddealltwriaeth am y canlynol...?

Drwy Werthfawrogi

“Does dim byd i gymryd lle cofnodi arteffactau a fyddai fel arall yn gallu mynd ar goll neu eu difrodi dros amser. Os yw rhywbeth o werth hanesyddol neu yn helpu pobl i ddeall hanes Cymru a'i phobl, yna mae angen ei gasglu a'i ddigideiddio.”

– Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.14 Rhoddodd defnyddwyr Casgliad y Werin a atebodd yr holiadur ystod eang o ymatebion yn ymwneud â sut a pham eu bod yn gwerthfawrogi treftadaeth Cymru. Pan ofynnwyd pa mor bwysig yw gallu cadw a diogelu gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru ar-lein, y marc cyfartalog oedd 5 allan o 5 (lle roedd '1' yn golygu 'ddim yn bwysig o gwbl' a '5' yn 'bwysig iawn'). Gan fod defnyddwyr brwd Casgliad y Werin yn debygol o werthfawrogi treftadaeth yn fawr, bu inni edrych yn benodol a yw Casgliad y Werin wedi **cynyddu** faint y mae defnyddwyr yn gwerthfawrogi treftadaeth Cymru. Mewn ymateb i'r cwestiwn a oedd Casgliad y Werin wedi cynyddu 'eich diddordeb neu eich balchder' atebodd tua 75 y cant fod Casgliad y Werin wedi cael 'ychydig' neu effaith 'fawr iawn'. Mae hyn yn cysylltu'n ôl i ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi hyrwyddo diwylliant ar-lein.

Drwy Ofalu

“(Mae'r rhaglen yn rhoi) cyfle i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan mewn ffordd werthfawr i gyfrannu at ddiwylliant a hanes Cymru.”

– Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.15 Awgryma'r Cylch Treftadaeth y bydd defnyddwyr drwy werthfawrogi diwylliant a threftadaeth yn fwy tebygol o fynd ati i ofalu amdanynt. O safbwynt elfen 'gofalu' y Cylch Treftadaeth, yr ystyriaeth allweddol yw gofyn a yw Casgliad y Werin yn annog unigolion i gyfrannu'n weithredol at dreftadaeth neu ryngweithio â hi, ac a yw'n darparu cyfleoedd i bobl wneud y cyfraniad hwn. Awgryma atebion yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr fod Casgliad y Werin yn galluogi defnyddwyr sydd wedi ymgysylltu'n gryf i fynd ati'n weithredol i ddiogelu eu hanes a'u treftadaeth, drwy'r wefan a thrwy'r rhaglen Pencampwyr. Mae adborth ansoddol defnyddwyr yn awgrymu bod y sgiliau a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy wefan Casgliad y Werin wedi rhoi modd iddynt nid yn unig gyfrannu at dreftadaeth drwy rannu eu straeon eu hunain, ond hefyd helpu eraill i wneud hynny (drwy'r rhaglen Pencampwyr swyddogol ac yn annibynnol).
- 5.16 Mae adborth hefyd yn dangos bod defnyddwyr yn debygol o argymhell eraill i gymryd rhan yng Nghasgliad y Werin.

Drwy Fwynhau

- 5.17 O ran holi a yw Casgliad y Werin yn arwain at 'fwynhau' treftadaeth yn fwy, roedd 75 y cant o ddefnyddwyr a atebodd gwestiwn ynghylch a yw eu profiad gyda Chasgliad y Werin wedi 'bod yn bleserus' wedi ymateb yn gadarnhaol (h.y. wedi nodi 'ychydig' neu 'yn fawr iawn'). Ymhellach, fel y mae Pennod 4 yn ei amlinellu, yn y cwestiwn chwe

gair (lle daeth “*ddiddorol*” i’r brig), roedd defnyddwyr wedi cyflwyno geiriau oedd yn cynnwys “*hwyl*”, “*difyr*” ac ati.

- 5.18 Mae achosion lle mae defnyddwyr wedi cael eu hannog gan eu hymwneud â Chasgliad y Werin i ymweld ag ardal neu safle treftadaeth hefyd o bosibl yn dangos mwy o fwynhad o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.

Cynaliadwyedd y Platfform

- 5.19 Mae pa mor gynaliadwy yw’r platfform yn elfen allweddol ym marn llawer o ddefnyddwyr a rhanddeiliaid er mwyn ‘cadw’ eitemau ac ychwanegu at etifeddiaeth eu prosiectau eu hunain. Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Interim, mae cynaliadwyedd a chyllid wedi bod yn her sylfaenol drwy gydol y rhaglen. I wrthbwysu rhywfaint o’r risg sy’n gysylltiedig â dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru, mae rhaglen Casgliad y Werin wedi cymryd camau i sefydlu a chyflawni targedau creu incwm, a hynny wedi cryfhau’r cynnydd tuag at elfen gynaliadwy Blaenoriaeth 1.

Platfform Cynhwysol sy’n cael ei rannu

“Gallai pethau fynd ar goll neu gael eu hanghofio. Mae hanes yn cael ei ysgrifennu gan y rheiny mewn pŵer yn aml gyda’u sbin. Mae (Casgliad y Werin) yn rhoi cyfle i bobl normal adael eu marc hefyd.”

– Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.20 O ran hwylustod y platfform, yn yr atebion i’r cwestiwn ‘6 gair’ roedd y gair ‘hwylus’ (*accessible*) ymhlith y pedair thema uchaf yn gyffredinol (gydag ymatebwyr yn defnyddio geiriau oedd yn cynnwys “*am ddim*”, “*cynhwysol*”, “*syml*”, a “*cyfleus*”).
- 5.21 Mae adborth hefyd yn dangos bod Casgliad y Werin yn mynd ati’n weithredol i wneud gwaith ymgysylltu â grwpiau sydd yn draddodiadol wedi cael eu heithrio, yn ogystal â chefnogi mentrau a phrosiectau sy’n gwneud gwaith gyda grwpiau o’r fath (e.e. cymunedau Ardaloedd Arloesi, cymunedau pobl dduon, Asiaid a lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn) a hynny’n ehangu mynediad at y wefan. Mae ymrwymiad i blatfform sy’n **rhad ac am ddim** (yn y man lle’i cynigir) yn bwysig i gadw’r elfen cynhwysiant hon. Pan ofynnwyd ynghylch y gwerth ariannol cyfatebol y byddai defnyddwyr wedi bod yn barod ei dalu am yr adnoddau a ddefnyddiwyd, dywedodd 6 defnyddiwr (15 y cant) na fyddent wedi gallu fforddio talu.
- 5.22 Nid oes gennym ddigon o wybodaeth am ddemograffeg yr holl ddefnyddwyr cofrestredig i wneud sylw llawn ar natur gynhwysol Casgliad y Werin, er bod yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn datgelu bod yr ymatebwyr wedi’u dosbarthu’n eang ledled Cymru, fel y dangosir isod:



Ffigwr 8: Mapio Cod Post 1

- 5.23 Nid yw o fewn cwmplas y gwerthusiad hwn i bennu pa mor gynhwysol yw’r platfform o ran

gofynion hygyrchedd y gallai fod gan ddefnyddwyr, er y gallai hyn fod yn faes ymchwil arall i'r rhaglen.

Blaenoriaeth 2: Galluogi a gweddnwedd cymunedau lleol ac unigolion i ddefnyddio gwefan, offer ac adnoddau Casgliad y Werin i rannu, cyflwyno a dehongli eu diwylliant a'u treftadaeth eu hunain

“Mae gan bawb stori i'w hadrodd ac mae'n bwysig rhannu'r straeon hyn gyda'r gymuned ehangach. Ni ddylid gadael i amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn unig gofnodi hanes, mae gennym oll ran i'w chwarae.”

– Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr.

- 5.24 Mae tystiolaeth bod gwaith Casgliad y Werin yn ymgysylltu â chymunedau ac yn hyfforddi yn rhoi'r sgiliau a'r cyfleoedd i bobl gael gafael ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn ogystal â chyfrannu atynt. Mewn achosion penodol, mae'r rhai a hyfforddwyd hefyd wedi mynd ymlaen i gefnogi aelodau eraill o'u cymunedau i ddefnyddio gwasanaethau ac adnoddau Casgliad y Werin i rannu eu straeon eu hunain neu i archwilio'r deunyddiau sydd yno eisoes. Mae potensial y gallai meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg (e.e. Hyfforddi'r Hyfforddwr a dysgu ar-lein cyfunol) gefnogi hyn ymhellach yn y dyfodol.
- 5.25 Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid strategol fod cymunedau, drwy wefan Casgliad y Werin, wedi'u grymuso i “*wneud drostynt eu hunain*” neu i gymryd treftadaeth “*i'w dwylo eu hunain*”. Mae hyn yn cynnwys unigolion a chymunedau (nid sefydliadau yn unig) yn cofnodi a churadu hanes. Mewn rhai achosion daw'n amlwg fod yna “*ymdeimlad o berchnogaeth*” ymhlith cymunedau am y platfform.
- 5.26 Mewn rhai achosion, mae Casgliad y Werin wedi galluogi'r rheiny nad ydynt o reidrwydd yn dymuno, neu'n gallu, datblygu eu sgiliau digidol eu hunain i gael y cyfle i ddefnyddio'r gwasanaethau a gynigir gan Gasgliad y Werin h.y. drwy Orsafoedd Treftadaeth Ddigidol, sioeau teithiol cymunedol ac ati.
- 5.27 Yn ogystal, mae Casgliad y Werin wedi dangos bod y gweithgareddau a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt yn cyd-fynd â nifer o amcanion cymdeithasol, er enghraifft, meithrin galluoedd, uwchsgilio, lles, a chydlyniant mewn cymunedau y gellid eu hystyried yn ‘*drawsnewidiol*’.

Blaenoriaeth 3: Defnyddio gwefan ac offer Casgliad y Werin, mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, i gefnogi gweithgareddau a strategaethau dysgu gydol oes a chreu adnodd ar-lein dwyieithog hygyrch ar gyfer dysgwyr ffurfiol

“Dydyn ni ddim yn gallu deall pwy ydyn ni oni bai ein bod yn gwybod beth sydd wedi'n siapio ni a'r amgylchedd rydym yn byw ynddo. Mae Casgliad y Werin yn ei gwneud yn haws i ymchwilio a rhannu ein cenedl unigryw a rhagorol.”

– Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.28 Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Interim, mae'r rhaglen wedi datblygu platfform ac adnodd dwyieithog rhwydd eu defnyddio. Mae Casgliad y Werin hefyd wedi datblygu arbenigedd mewn cefnogi cyfranogwyr sy'n hyfforddi i gael canlyniadau achrededig e.e. cymwysterau a sgiliau cydnabyddedig mewn digideiddio.
- 5.29 Mae hefyd yn amlwg bod y Llinyn Dysgu wedi gwneud cynnydd ers yr Adroddiad Interim, gan fod adnoddau dysgu yn awr yn fyw ar y wefan a blwyddyn beilot wedi'i chwblhau, gan gynnwys cynnal cystadleuaeth yn yr ysgolion.
- 5.30 Gan ddangos cynnydd ers yr Adroddiad Interim, roedd athrawon wedi adrodd rhywfaint o effaith yn eu haddysgu ffurfiol (ar draws ystod o oeddrannau a chynodau allweddol) o ganlyniad i ddefnyddio'r adnoddau, er enghraifft *'mwynhad'* a *'mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn yr addysgu'*. Er hynny, dylid nodi mai dim ond 4 ymateb gan athrawon a gafwyd.
- 5.31 O'i gymharu â'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar gyfer y Gwerthusiad Interim, cafwyd nifer uwch o achosion o bobl yn adrodd gwerth Casgliad y Werin fel adnodd ymchwil (fel y trafodir yn fanylach o adran 5.44 ymlaen) gan gynnwys ei defnyddio gan bobl mewn addysg ffurfiol e.e. myfyrwyr prifysgol.
- 5.32 Mae gan y cynllun ar gyfer platfform dysgu cyfunol ar-lein hefyd y potensial i gyfrannu at yr amcan hwn er nad yw hyn yn fyw eto ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

Blaenoriaeth 4: Cefnogi a chynghori'r sector treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru wrth ddatblygu ymagwedd gydlynol at faterion digidol, gan nodi cyfleoedd i gyfrannu at economi Cymru

- 5.33 Dywedodd rhai ymatebwyr yn y Gwerthusiad Interim y gallai fod yn fuddiol i wefan Casgliad y Werin egluro ei huchelgeisiau o safbwynt yr amcan hwn h.y. pa fath o rôl arweinyddiaeth allai yn briodol i'r rhaglen a sut y gallai hynny edrych. Mynegwyd peth pryder hefyd y gallai rôl o'r fath fod yn heriol o ystyried y cyfyngiadau adnoddau.
- 5.34 Roedd ymdeimlad mai'r safle gorau i Gasgliad y Werin osod ei hun fyddai arwain *'drwy esiampl'* neu drwy fabwysiadu rôl ymgynghorol oherwydd ei gryfderau yn sefydlu cydweithio. Ceir tystiolaeth bellach drwy'r Gwerthusiad Terfynol fod y dull cydgysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio gan Gasgliad y Werin wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth a rhannu ffyrdd o weithio. Yn sicr o fewn y bartneriaeth ffederal, a thrwy rannu arfer gorau drwy randdeiliaid strategol, mae'r rhaglen wedi cyfrannu, i raddau, at *'ddull gweithio cydlynol'* o ran cael model pendant ar gyfer ymgysylltiad cymunedol mewn treftadaeth ddigidol.
- 5.35 Mae'r rhaglen yn parhau i fod ag ychwaneg o uchelgais yn hyn o beth, yn enwedig o ran sefydlu strategaeth ddigidol gyson a chydlynol yng Nghymru. Gwnaed rhywfaint o gynnydd ers y Gwerthusiad Interim, er ei bod yn dal yn allweddol egluro union gwmpas amcanion strategol y rhaglen yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael.
- 5.36 O ran cyfleoedd i gyfrannu at economi Cymru, nid yw ymdrechion i gynhyrchu busnes (GYC) ac effeithiau twristiaeth (gwariant ymwelwyr) drwy dechnoleg iBeacon wedi cael

eu cyflawni ar hyn o bryd, er bod y gweithgaredd ymhellach ymlaen o lawer o'i gymharu â'r Gwerthusiad Interim. Mae yna hefyd effeithiau economaidd posibl i'r hyfforddiant sgiliau, gan ddarparu llwybr posibl arall i gael budd economaidd.

Effeithiau

- 5.37 Mae'r gwerthusiad hwn wedi addasu Model Effaith Gwerth Cytbwys Tanner er mwyn cael dull asesu effaith sy'n symlach ac sy'n seiliedig ar bedwar budd craidd adnoddau ar-lein (fel yr amlinellir ym Mhennod 2). Dengys canfyddiadau'r gwerthusiad bod tystiolaeth o rywfaint o effaith ar draws pob un o'r pedwar maes mesur: effaith gymdeithasol; effaith arloesi; effaith prosesau; ac effaith economaidd.
- 5.38 Mae penawdau'r effeithiau ar draws amrywiol grwpiau'r ymatebwyr wedi'u hamlinellu isod, ac mae'r Astudiaethau Achos ar bob un o bedwar maes effaith Tanner wedi'u cynnwys o adran 5.70 ymlaen.
- **Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd a'r Grŵp Rheoli Mewnol:** mae effeithiau prosesau wedi codi o ganlyniad i gydweithio agosach rhwng y sefydliadau sy'n bartneriaid ffederal. Soniodd un ymgynghorai mewnol hefyd am fod yn fwy abl i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd mewn treftadaeth ddiwylliannol, a gellid ystyried hynny yn effaith gymdeithasol.
 - **Partneriaid Prosiect a Rhanddeiliaid Allanol:** yr effeithiau a nodwyd amlaf oedd effeithlonrwydd a mwy o etifeddiaeth i ddeunyddiau treftadaeth oherwydd gallu defnyddio gwefan Casgliad y Werin.
 - **Defnyddwyr:** Effeithiau cymdeithasol yn cynnwys mwynhad, a datblygu gwybodaeth a sgiliau oedd y rhai y soniwyd amdanynt amlaf.
- 5.39 Ar y cyfan, roedd yr effeithiau amlycaf ym meysydd '*effaith prosesau*' ac '*effaith gymdeithasol*'. Effaith economaidd a drafodwyd leiaf gan yr holl ymatebwyr yn y cam hwn, gan adlewyrchu amcanion craidd y rhaglen. Ni chafodd effeithiau arloesi eu pwysleisio mor gryf, ond mae'r elfennau hyn, fodd bynnag, y 'tu ôl i'r llenni' i raddau, gan alluogi cyflenwi i'r defnyddiwr terfynol yn hytrach nag o reidrwydd yn digwydd fel canlyniad.

Effaith Gymdeithasol

- 5.40 Yn seiliedig ar yr ymchwil sylfaenol a wnaed, mae tystiolaeth o effaith gymdeithasol ledled y meysydd canlynol:
- Sgiliau a Gwybodaeth (gan gynnwys ymchwil ac addysg);
 - Dilyniant Gyrfa a Gwrfoddoli;
 - Mwynhad;
 - Cydlyniant Cymunedol.


Sgiliau a Gwybodaeth

5.41 Mae data o'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn dangos effaith fechan ar sgiliau digidol ymatebwyr, gyda'r effaith fwyaf wedi'i gweld o ran 'rhoi pwrpas newydd i gynnwys digidol', a 'creu cynnwys digidol' (gweler Ffigwr 9). I rai ymatebwyr, fodd bynnag, nid oedd eu hymwneud â rhaglen Casgliad y Werin wedi cael effaith o bwys ar eu sgiliau digidol (gweler y dyfyniadau isod).

"Rwy'n eithaf hyderus yn y maes hwn."

"Rwyf wedi dysgu popeth rydw i angen ei wybod drwy fy ngwaith"

– Ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr



Ffigwr 6: I ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi gwella eich sgiliau digidol?

5.42 Pan oedd ymgynghoriadau wyneb-yn-wyneb a thros y ffôn wedi'u cynnal (megis yn yr astudiaethau achos), roedd defnyddwyr yn adrodd cynnydd mewn sgiliau, gyda rhai yn sôn am sgiliau meddalach megis "gweithio gydag eraill" a "cyfathrebu", ac nid yr elfen ddigidol yn unig. Rhagwelir y bydd yr effaith ar sgiliau yn fwy i rai ymatebwyr sy'n cael hyfforddiant (e.e. y rheiny heb gymwysterau blaenorol) er nad oes gennym ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i ddod i gasgliadau clir yn hyn o beth. Roedd ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn tueddu i fod eisoes â lefelau cymwysterau uwch a sgiliau digidol; nid yw hyn yn syndod gan fod y fethodoleg ynddi ei hun o gael holiadur ar-lein wedi golygu hunanddethol.

5.43 Ar sail y wybodaeth oedd ar gael i ERS, roedd cyfanswm o 71 unigolyn wedi ennill achrediad Lefel 2 ar ôl cymryd rhan mewn hyfforddiant cychwynnol. Mae'r rhaglen wedi darparu hyfforddiant i gymunedau buddiant penodol, gan gynnwys rhieni sengl, buddiolwyr heb waith ac ati. Roedd yr adborth a gafwyd yn y fan a'r lle am sesiynau hyfforddi Casgliad y Werin yn dangos cryn foddhad a chanmoliaeth am yr hyfforddiant a'r hyfforddwyr. Nid yw'r adborth hwn, fodd bynnag, yn cofnodi manteision hirdymor neu sut y mae dysgwyr wedi defnyddio eu sgiliau.

Effeithiau Ymchwil ac Addysgol

“Os ydyn nhw angen dod o hyd i adnoddau ar Gymru, boed hynny at ddibenion hel achau neu hanes cymdeithasol, byddan nhw’n dod o hyd i gymaint ar y safle hwn.”

Ymatebydd yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.44 Mae nifer o sylwadau gan ymatebwyr yr e-holiadur a’r ymgynghoriad yn awgrymu bod adnoddau Casgliad y Werin yn werthfawr at ddibenion ymchwil, boed ar gyfer unigolion sy’n ymchwilio i hanes teulu, neu fyfyrwyr prifysgol yn chwilio am wybodaeth ar bynciau penodol. Mae sylwadau anecdotaidd yn rhoi enghreifftiau o’r cynnwys yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol mewn ffyrdd penodol e.e. roedd un ymgynghorai allanol yn gwybod am gynnwys yn cael ei ddefnyddio mewn traethawd estynedig gan fyfyrwr, yn ogystal â chyhoeddiad sydd ar y gweill a oedd wedi “*darganfod a defnyddio’r deunydd hwn*”. Ymhellach, mae enghraifft o stori yn cael ei rhannu ar wefan Casgliad y Werin, sydd wedyn yn cael ei chodi i erthygl ar y we, ac yna yn cael ei chodi gan unigolyn arall oedd yn gwneud gwaith ar gofebion y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gwerth Casgliad y Werin i ymchwilwyr yn ddeublyg: yn gyntaf, bod yr adnodd yn cael ei ystyried yn un y gellid “*ymddiried ynddo*”, ac yn ail ei fod yn gweithredu fel “*siop un stop*” ac felly yn gyfleus ac yn fwy cynhwysfawr na rhai ffynonellau eraill.
- 5.45 Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth gynyddol fod ymchwilwyr yn y Deyrnas Unedig yn gwerthfawrogi’r gallu i gael mynediad i adnoddau a lanlwythwyd gan gymunedau Cymry alltud drwy’r plattform, sef adnoddau a fyddai fel arall yn amhosibl cael gafael arnynt, wedi’u colli, neu ond i’w cael trwy deithio dramor.


Ymateb Athrawon

- 5.46 Nododd pedwar o’r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio adnoddau Casgliad y Werin fel rhan o’u rôl fel athro/athrawes neu addysgwr. Roedd ymatebwyr yn ymwneud ag addysgu Cyfnod Allweddol 3 a 4, addysg uwch, a dysgu oedolion (ni roddodd un defnyddiwr fanylion ynghylch hyn). Mewn dau achos, dywedodd ymatebwyr bod eu myfyrwyr wedi pori drwy’r wefan, ac mewn dau achos dywedwyd eu bod wedi defnyddio Adnoddau Dysgu Casgliad y Werin.
- 5.47 Gofynnwyd i athrawon ac/neu addysgwyr a yw Casgliad y Werin wedi:
1. Rhoi modd cael mwy o gyd-destun a chynnwys Cymreig yn eu haddysgu
 2. Rhoi modd cael mwy o ddefnydd o’r iaith Gymraeg yn eu haddysgu
 3. Galluogi eu myfyrwyr i gymryd mwy o ran mewn treftadaeth ddiwylliannol
 4. Cynyddu mwynhad myfyrwyr
 5. Ennyn diddordeb eu myfyrwyr mewn ffyrdd newydd
 6. Arwain at rai myfyrwyr yn cyflawni deilliannau dysgu yn fwy llwyddiannus
 7. Cyfrannu at eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus eu hunain
- 5.48 Roedd yr addysgwr oedd yn ymwneud â Dysgu Oedolion yn teimlo y cafwyd effaith ar draws y rhan fwyaf o’r meysydd uchod ‘*i ryw raddau*’. Soniodd addysgwr arall o fewn

addysg uwch am 'ychydig' o effaith o ran mwynhad myfyrwyr a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth addysgu. Nododd yr athro Cyfnod Allweddol 3/4 effaith ar draws pob un o'r meysydd uchod, yn enwedig 1,2,3,4 a 6.

Effaith Dilyniant Gyrfa a Gwirfoddoli

- 5.49 O ran y defnyddwyr hynny a atebodd y cwestiwn yn ymwneud â dilyniant gyrfa, roedd dros hanner wedi nodi effeithiau datblygu gyrfa o ganlyniad i gymryd rhan yng Nghasgliad y Werin. Roedd hyn drwy waith gwirfoddol gan amlaf. Er nad oedd yr un o'r ymatebwyr wedi nodi cael gwaith cyflogedig, roedd rhai achosion o ddyrchafiad a Datblygiad Proffesiynol Parhaus, er enghraifft (gweler Ffigwr 10).



Ffigwr 7: A yw unrhyw rai o'r sgiliau neu wybodaeth newydd a gawsoch drwy Gasgliad y Werin wedi eich helpu i ddatblygu eich gyrfa yn y ffyrdd canlynol...?

Gwirfoddoli Allanol

- 5.50 Roedd nifer o ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr eisoes yn gwneud gwaith gwirfoddol y tu allan i'w hymwneud â rhaglen Casgliad y Werin. O blith yr unigolion hyn, adroddodd pedwar ohonynt fod ganddynt fwy o sgiliau i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol ac/neu eu bod wedi gallu gwneud rôl newydd neu wahanol. Dywedodd tri ohonynt eu bod yn mwynhau eu rôl yn fwy, tra bod un unigolyn yn sôn bod ymwneud â Chasgliad y Werin wedi arwain ati yn gwirfoddoli, ar gyfartaledd, chwe awr yn fwy bob mis yn y rôl nag yr oedd yn ei wneud cyn hynny.

Mwynhad

- 5.51 Adroddwyd effeithiau bychain gan rai ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr o ran yr effaith ar eu 'bywyd cymdeithasol'. O fewn y cwestiwn hwn, roedd nifer mwyaf y defnyddwyr a atebodd yn gadarnhaol (h.y. 'ychydig' o effaith neu effaith 'fawr iawn') wedi rhoi ateb yn gysylltiedig â bod y rhaglen wedi 'bod yn bleserus' a bod Casgliad y Werin wedi cynyddu 'diddordeb neu falchder yn nhreftadaeth Cymru' (tua 75 y cant ym mhob achos), wedi'i ddilyn gan 'gyfleoedd i gael profiadau newydd' (tua 40 y cant o'r atebion).

Cydlyniant Cymunedol

- 5.52 Mae tystiolaeth bod Casgliad y Werin wedi gwneud cyfraniad bychan at gydlyniant cymunedol, sef pan fo prosiectau a gefnogwyd gan y rhaglen wedi arwain at ddod â gwahanol grwpiau o bobl at ei gilydd, ac/neu alluogi grwpiau sy'n aml heb gynrychiolaeth ddigonol i rannu eu straeon er mwyn i bobl eraill ddeall y bobl yn eu cymuned yn well. Er enghraifft, cefnogwyd prosiectau a oedd yn cynnwys cydweithio rhwng y cenedlaethau, yn ogystal â rhannu storïau ymfudwyr a oedd wedi sefydlu busnesau mewn cymunedau lleol.
- 5.53 Mae'r maes hwn yn haeddu ymchwil pellach wrth symud ymlaen i ystyried a ellid integreiddio cyfrannu at gydlyniant yn y strategaeth i'r dyfodol. Byddai integreiddio agosach ar y llinyn Ymgysylltu â'r Gymuned a'r llinyn Dysgu yn gallu hwyluso mwy o weithio rhwng y cenedlaethau, er enghraifft; felly hefyd ymgysylltu â grwpiau cymunedol ac amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd lleol sy'n gysylltiedig ac/neu'n cael eu harwain gan gymunedau buddiant penodol.

Effaith Arloesi

- 5.54 Mae'r adborth i'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn dangos bod yr ymatebwyr yn gyffredinol yn ystyried bod Casgliad y Werin yn unigryw. Mae ymatebion ansoddol y defnyddwyr yn dangos yr ystyrir ei bod yn unigryw oherwydd, er enghraifft, teimlad nad oes unrhyw beth arall ar yr un raddfa (h.y. yn genedlaethol); a'r ffocws penodol ar hanes Cymru.
- 5.55 O ran yr effeithiau sy'n deillio o agweddau mwy arloesol gwefan Casgliad y Werin (sef ystyried arloesi technegol ac o ran prosesau), mae nifer o feysydd i'w hystyried.
- 5.56 Yn gyntaf, mae 'effaith catalydd' yn amlwg mewn rhai achosion, sef pan fo gwaith Casgliad y Werin yn archwilio, profi, neu weithredu technoleg newydd neu ffordd newydd o weithio (neu dechnoleg sy'n bodoli eisoes wedi'i defnyddio mewn ffordd newydd) wedi annog eraill i gynnal prosiect cysylltiedig, gan yn aml ddefnyddio cyngor ac arweiniad Casgliad y Werin. Mae enghreifftiau o'r effaith hon i'w gweld yn yr Astudiaeth Achos Culture Beacon (Astudiaeth Achos Effaith Economaidd), wedi'i gryfhau gan y dull gweithio seiliedig-ar-dystiolaeth.
- 5.57 Yn ail, mae effaith arloesedd arall yn cynnwys y gallu i hyrwyddo **arbenigedd Cymreig** mewn technolegau a dulliau penodol, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol (fel gwerth ychwanegol i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn y Deyrnas Unedig a thramor). Cafwyd tystiolaeth o hyn gan un ymgynghorai allanol yng Ngwlad Belg a

ddywedodd ei bod yn ddefnyddiol i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn y sector treftadaeth yn y Deyrnas Unedig.

- 5.58 Gellir gweld fod ffyrdd gweithio arloesol y rhaglen hefyd wedi dylanwadu ar arferion sefydliadau, er enghraifft, roedd dull Casgliad y Werin o ymgysylltu â'r gymuned wedi arwain at un ymgynghorai allanol sy'n gysylltiedig ag Ardal Arloesi i werthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned 'ar lawr gwlad'.

Effaith Prosesau

- 5.59 Mae effeithiau prosesau yn cynnwys effeithlonrwydd ac arbedion adnoddau i randdeiliaid strategol a phartneriaid prosiect, yn enwedig oherwydd elwa o dechnolegau Casgliad y Werin a'r isadeiledd technegol craidd heb orfod buddsoddi yn ei ddatblygiad. Nododd un rhanddeiliad: *"(Mae'n) werthfawr cael platfform parod. Mae'n arbed llawer o amser ac ymdrech."* Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn nifer o brosiectau a ariennir yn allanol yr ymgynghorwyd â hwy, gan fod bodolaeth safle Casgliad y Werin wedi arwain at arbedion yn ogystal â bod allbynnau'r prosiect yn para'n hirach. Gellir cynorthwyo hyn ymhellach yn y dyfodol yn sgil datblygu microwefannau ac ategolion.
- 5.60 Credir hefyd fod y dull o weithio cydweithredol yn un sydd wedi esgor ar effeithiau o ran prosesau, gydag un ymgynghorai yn nodi bod Casgliad y Werin wedi rhagflaenu wrth annog meddylfryd cydgysylltiedig yn y sector. Mae cydweithio yn awr yn cael ei annog drwy fentrau fel y Rhaglen Cyfuno/Fusion.

"Mae Casgliad y Werin wedi bod/ac yn parhau i fod ar flaen y gad mewn rhai agweddau. Mae meithrin y cydweithio a'r partneriaethau hyn yn galluogi pawb i ddod â llawer mwy at y bwrdd. Gyda'i gilydd ceir mwy o effaith nag y byddai un wedi gallu'i gyflawni ar ei ben ei hun. Mae'n fwy cydgysylltiedig. (Mae'r rhaglen) wedi arwain y ffordd fel partneriaeth ffederal, ac mae wedi bod yn rhagflaenydd i ddatblygu mwy o gydweithio a gweithio'n agosach (yn y sector treftadaeth ddiwylliannol)".

Ymgynghorai allanol

- 5.61 Mae'r dull cydweithredol wedi cael effeithiau ehangach ar y mudiadau cymunedol yr ymgysylltwyd â nhw, ond mae hefyd wedi tynnu'r bartneriaeth ffederal yn nes at ei gilydd. Ystyrir bod yr ymddiriedaeth ddyfnach hon wedi galluogi Casgliad y Werin i integreiddio i'w gwasanaethau eu hunain gan roi gwerth ychwanegol allweddol.


Effaith Economaidd

- 5.62 Mae asesu effaith economaidd yn ystyried y gwerth ychwanegol y mae prosiect neu raglen yn ei greu o ran cynyddu allbwn economaidd mewn ardal darged. Gallai hyn, er enghraifft, fod drwy wella cynhyrchiant, agor marchnadoedd newydd neu gynyddu cyfranogiad economaidd (h.y. cyflogaeth). Yn bwysig, nid yw effeithiau economaidd yn cynnwys rhaglenni a ariennir yn gyhoeddus yn gwario'n uniongyrchol gyda chyflenwyr nac yn cynnwys creu incwm o gronfeydd cyhoeddus eraill. Nid yw'r gwerthoedd hyn yn cael eu hystyried yn **ychwanegol** gan y byddai adnoddau

cyhoeddus cyfyngedig wedi cael eu gwario mewn mannau eraill pe na bai rhaglen benodol wedi'i chynnal. Caiff arbedion a grëwyd drwy wariant mwy effeithlon (e.e. trwy weithio mewn partneriaeth) eu hystyried o dan y pennawd effaith prosesau.


- 5.63 Wrth ystyried effaith economaidd Casgliad y Werin yn benodol, caiff y ddau lwybr canlynol eu hastudio:
- **Datblygu sgiliau:** y gwerth ychwanegol i'r economi yn sgil y sgiliau achrededig a ddatblygwyd fel rhan o raglenni hyfforddi a gynhaliwyd gan Gasgliad y Werin; ac
 - **Effeithiau ymwelwyr:** y gwerth twristiaeth a gynhyrchir gan Gasgliad y Werin drwy rannu a lledaenu treftadaeth mewn fformat sy'n hwylus ac o fewn cyrraedd. Er enghraifft, annog ymweliadau twristiaeth ychwanegol neu aros yn hirach yng Nghymru a thrwy hynny yn cynhyrchu gwariant ychwanegol gan ymwelwyr.
- 5.64 Mae cofnodion y tîm prosiect yn dangos fod 71 o unigolion wedi cyflawni cymhwyster achrededig Lefel 2. Mae Cronfa Ddata Cost Uned y New Economy¹⁷ yn amcangyfrif gwerth *cyllidol* ac *economaidd* person sydd â chymhwyster NVQ Lefel 2 y flwyddyn. Amcangyfrifir bod y gwerth ariannol i'r trysorlys yn £83 y pen bob blwyddyn ac mae'n ystyried costau cychwynnol cynnal y cymhwyster a newidiadau mewn refeniw treth drwy gydol enillion oes. Gellir felly amcangyfrif budd cyllidol blynyddol y 71 o hyfforddeion Casgliad y Werin i fod yn £5893, gan dybio dysgwyr sydd o oedran gweithio.
- 5.65 Mae'r gwerth economaidd yn cynrychioli'r enillion blynyddol ychwanegol a enillwyd fesul cyflogai o ganlyniad i ennill cymhwyster Lefel 2. Gan dybio y defnyddir y sgiliau yn y gweithle ac os mai dyma'r cymhwyster uchaf y maent wedi'i gyflawni, gall pob un o'r dysgwyr ragweld premiwm cyflog o £443 drwy ennill cymhwyster Lefel 2.
- 5.66 Mae ymatebion yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn dangos y gall Casgliad y Werin wedi cyfrannu at effeithiau economaidd cymharol fach wrth annog defnyddwyr i fynd ar ymweliad twristiaeth ddiwylliannol i safleoedd treftadaeth na fyddent fel arall wedi'u trefnu o bosibl. Gofynnwyd i ddefnyddwyr '*A yw eich profiad o Gasgliad y Werin wedi eich annog i ymweld ag ardal ddaearyddol neu safle treftadaeth ffisegol?*'. Roedd dros 25 y cant y defnyddwyr a ymatebodd wedi dweud bod eu hymwneud â'r rhaglen wedi annog ymweliad. O ran y defnyddwyr a oedd wedi mynd ar ymweliad treftadaeth, yr hyd mwyaf cyffredin oedd taith diwrnod i ardal, er y gwnaeth un defnyddiwr nodi gwyliau 5 diwrnod neu fwy. Mae Ffigwr 11 isod hefyd yn dangos bod Casgliad y Werin wedi cyfrannu tuag at **ansawdd** ymweliadau drwy roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am hanes safle neu ardal.

¹⁷ New Economy (2015) *Unit Cost Database*, Ar gael yn: <http://neweconomymanchester.com/our-work/research-evaluation-cost-benefit-analysis/cost-benefit-analysis/unit-cost-database>



Ffigwr 8: y defnydd o Gasgliad y Werin mewn ymweliadau twristiaeth ddiwylliannol

- 5.67 Awgrymodd Tîm a Phartneriaid y Rhaglen fod potensial ar gyfer rhagor o effeithiau economaidd drwy gynyddu ymweliadau twristiaeth wrth ddefnyddio'r offer sydd wedi cael eu datblygu gan Gasgliad y Werin megis llwybrau iBeacon. Fodd bynnag, teimlai'r ymgynghorai ei bod yn rhy fuan i fesur y manteision hyn.
- 5.68 Dull arall i bwysu a mesur gwerth economaidd prosiect neu raglen yw'r 'parodrwydd i dalu'. Mae'r dull hwn yn gofyn i ddefnyddwyr roi gwerth ar gynnyrch neu wasanaeth a thrwy hynny gynhyrchu dangosydd ariannol am bethau nad ydynt eu hunain yn cael eu masnachu. Yn bwysig, fel y dangosir yn Ffigwr 12 drosodd, nid oedd 42 y cant yn credu y *dylent* orfod talu am adnoddau Casgliad y Werin a nododd 18 y cant na fyddent wedi gallu fforddio talu. Y gwerth cyfartalog (cymedrig) a bennwyd i adnodd a ddefnyddiwyd oedd £1.15, gyda 20 y cant yn barod i dalu dros £2.50 am yr adnodd unigol a ddefnyddiwyd ganddynt.



Ffigwr 9: Faint ydych chi'n ei gredu y byddech wedi'i dalu am adnodd unigol a ddefnyddiwyd gennych?

- 5.69 Ar y cyfan, dylid nodi nad yw amcanion economaidd wrth graidd amcanion Casgliad y Werin, yn y ffordd y maent mewn rhaglenni cyflogadwyedd neu effeithlonrwydd busnes er enghraifft. Mae effeithiau economaidd Casgliad y Werin felly yn debygol o fod yn gymharol fach gan eu bod yn atodol i ganlyniadau craidd y rhaglen. Nodwyd hyn yng ngham y Gwerthusiad Interim ac argymhellwyd os byddai hyn i ddod yn un o amcanion allweddol y rhaglen, byddai angen datblygu gweithgareddau wedi'u targedu a'u cyflwyno'n raddol i fynd i'r afael â'r amcan hwn.

Astudiaethau Achos Defnyddwyr

- 5.70 O'r 70 o ddefnyddwyr a atebodd yr e-Holiadur, dywedodd 12 y byddent yn fodlon cael sgwrs ddilynol. Cysylltwyd â chyfanswm o 6 defnyddiwr gan lunio 4 astudiaeth achos defnyddwyr yn y pen draw. Mae'r Astudiaethau Achos Defnyddwyr sydd ar y tudalennau nesaf (ac sydd hefyd yn Atodiad 3) yn canolbwyntio ar y themâu a'r canfyddiadau canlynol (drosodd):
- **David:** Daeth David i ymwneud â'r rhaglen yn sgil ei ddiddordeb mewn hanes a ffotograffiaeth. Mae David wedi cael hyfforddiant Casgliad y Werin ac mae wedi lanlwytho delweddau i'r wefan. Drwy fod yn wirfoddolwr mewn amgueddfa, mae David wedi cynorthwyo pobl eraill i ddefnyddio'r wefan a Gorsaf Treftadaeth Ddigidol, ac wedi cwrdd â phobl newydd. Mae David yn lledaenu'r gair am Gasgliad y Werin fel “adnodd ardderchog” i ddarganfod a rhannu casgliadau a straeon.
 - **Yvonne:** Mae Yvonne yn astudio hanes yr Oesoedd Canol ac mae'n gwirfoddoli i nifer o sefydliadau treftadaeth. Uchelgais Yvonne yw gweithio yn y sector treftadaeth, ac mae'n teimlo bod y cyfle i gymryd rhan yn y rhaglen wedi ei chefnogi i ddatblygu ystod o sgiliau newydd ac wedi bod o gymorth i'w chyflogadwyedd a'i dilyniant gyrfa posibl.

- **Cathryn:** Mae Cathryn wedi bod yn ymwneud â Chasgliad y Werin oherwydd ei diddordebau proffesiynol a phersonol mewn treftadaeth. Teimla Cathryn fod rhannu adnoddau ar y wefan wedi cynyddu ei hymgysylltiad â'r sefydliad y mae'n gweithio iddo, ac yn bersonol mae'n teimlo "*hwb i'w hyder*" wrth lanlwytho delweddau ar-lein i bobl eraill eu mwynhau a rhyngweithio â nhw.
- **Peter:** Mae Peter yn awyddus i wneud "*cyfraniad i hanes*" a chreda fod Casgliad y Werin yn adnodd gwerthfawr, nid yn unig ar gyfer ymchwil, ond hefyd ar gyfer cadw straeon a delweddau i'r dyfodol, a sicrhau eu bod ar gael yn ehangach.

Casgliad y Werin Cymru People's Collection Wales

Astudiaeth Achos

Mae David Swidenbank wedi ymddeol ac mae ganddo ddiddordeb cryf mewn ffotograffiaeth a hanes. Yn 2009, daeth swydd David i ben a phenderfynodd fynd i'r brifysgol i astudio ffotograffiaeth. Mae bellach yn gwneud ychydig o waith llawrydd. Yn ogystal, mae David hefyd yn gwirfoddoli fel Is-gadeirydd Amgueddfa Porthcawl ac mae wedi bod yn gysylltiedig â'r amgueddfa ers 3 blynedd bellach.

Clywodd David am wefan Casgliad y Werin yn gyntaf trwy ei fodryb (hanesydd lleol), gan wneud cyswllt uniongyrchol yn 2014 ar ôl ymweld â stondin Casgliad y Werin mewn digwyddiad lleol.

Oherwydd ei ddiddordeb mewn hanes a ffotograffiaeth, roedd David yn credu bod Casgliad y Werin yn “cyd-fynd yn berffaith”.

Mae David wedi gwneud amrywiol bethau gyda Chasgliad y Werin, gan wneud hyfforddiant achrededig y rhaglen, a lanlwytho deunyddiau i'r safle. Er enghraifft, mae David wedi bod yn gysylltiedig (gyda chyd-awduron) â nifer o gyhoeddiadau ‘ddoe a heddiw’ ar ardaloedd Cymru, yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Pontypridd, a'r Rhondda. Mae'r cyhoeddiadau hyn wedi cyfuno hen luniau a rhai newydd o eiddo David ei hun, ac yntau wedi'u rhannu wedyn ar wefan Casgliad y Werin.

Sefydlwyd Gorsaf Treftadaeth Ddigidol hefyd yn Amgueddfa Porthcawl er mwyn rhoi modd i bobl leol lanlwytho eu deunyddiau eu hunain i wefan Casgliad y Werin. Noda David fod yr amgueddfa yn cael ceisiadau aml gan unigolion sydd angen gwybodaeth benodol am yr ardal leol.

Trwy ymwybyddiaeth a phrofiad o ddefnyddio a lanlwytho i'r safle, mae David wedi gallu hyrwyddo Casgliad y Werin fel “*adnodd ardderchog*”. Mae David wedi helpu pobl eraill i ddefnyddio'r wefan i lanlwytho a chwilio am ddeunyddiau, yn ogystal â rhannu casgliadau'r amgueddfa ei hun.

Ar lefel bersonol, teimla David fod ymwneud â Chasgliad y Werin wedi ei annog i chwilio am ddewisiadau eraill wrth greu/cael gafael ar ffotograffau na fyddai fel arall wedi eu hystyried fe dybia. Er enghraifft, mae David weithiau yn siarad ag aelodau o dudalennau cymunedol a hanes lleol ar Facebook i ofyn a oes modd iddo rannu delweddau ar wefan Casgliad y Werin. Mae hefyd wedi cael cyfle i gwrdd â phobl o'r UDA sydd wedi bod ynghlwm â'r Orsaf Treftadaeth Ddigidol ym Mhennsylvania, yn ogystal â chwrdd â'r Prif Weinidog a ddaeth i'r Amgueddfa i weld plac Casgliad y Werin.



Lluniau o'r llyfrau: Cerdyn post gwaith glo Lewis Merthyr a phoster tybaco

Mae David yn mwynhau ei brofiad â Chasgliad y Werin. Heb y rhaglen, teimla David na fyddai Amgueddfa Porthcawl “*yn gallu arddangos cymaint o'r ôl-gatalog*” neu gasgliadau heb eu gweld. Mae wedi cael ymateb cadarnhaol gan ddefnyddwyr eraill wrth lanlwytho adnoddau i wefan Casgliad y Werin, gan dderbyn sylwadau a diddordeb yn y lluniau. Byddai David yn hoffi gweld Casgliad y Werin yn cyrraedd llawer mwy o bobl er mwyn iddo ddod “*yn norm yn hytrach nag yn eithriad*”. Mae'n teimlo ei bod hi'n bwysig bod yr adnoddau hyn yn “*cyrraedd pobl*” er mwyn iddynt ddarganfod mwy am “*hanes cudd lleol*”.

Casgliad y Werin Cymru

People's Collection Wales

Astudiaeth Achos

Mae Yvonne yn 52 mlwydd oed, yn dod o Sir Gaerfyrddin, ac ar hyn o bryd yn astudio hanes canoloesol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llambled. Ei huchelgais yw gweithio yn y sector amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai, ac ar yr un pryd ag astudio mae hi hefyd yn ymwneud â Hanes Llambled, sef cymdeithas hanes lleol, yn ogystal â gwirfoddoli yn amgueddfa'r gymdeithas ar gampws Llambled. Roedd Yvonne yn falch o ddod i wybod am y wefan ac yn ystyried ei bod yn adnodd defnyddiol i'w hastudiaethau a'i diddordeb personol. Dywed Yvonne fod ei chyd-fyfyrwyr yn aml yn trosglwyddo a rhannu adnoddau o wefan Casgliad y Werin gan ei fod yn adnodd da i gael tystiolaeth ar gyfer aseiniadau.

“Mae wedi ehangu fy ngorwelion mewn ffordd. Ar ôl gorffen fy astudiaethau rwy'n gwybod y gallaf fynd drwy Gasgliad y Werin er fy mwynhad fy hun a pharhau i'w ddefnyddio.”

Cymerodd Yvonne ran mewn diwrnod hyfforddi digideiddio gyda Hazel o dîm Casgliad y Werin. Teimla Yvonne ei fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ei rôl yn yr amgueddfa, yn ogystal â ffordd wych o gwrdd â phobl. Ers hynny mae'r amgueddfa wedi gosod Gorsaf Treftadaeth Ddigidol ac yn cynnal diwrnodau agored lle gall y cyhoedd ymweld a dysgu rhagor am yr Orsaf Treftadaeth Ddigidol ac/neu ddigideiddio eu heitemau i'w lanlwytho i wefan Casgliad y Werin. Noda Yvonne fod digideiddio a lanlwytho yn gofyn am fuddsoddi amser, gofod, a phobl ac mae hi wedi bod yn helpu i ennyn diddordeb y cyhoedd. Mae Yvonne wedi helpu pobl i ddigideiddio cardiau post lleol, lluniau o ferched oes Edward ar feiciau, yn ogystal â digideiddio o archif yr amgueddfa.

Dywed Yvonne nad yw'r aelodau sy'n dod â deunyddiau bob amser yn gyfarwydd â defnyddio cyfrifiadur ac mae hi felly wedi helpu eraill i sefydlu eu cyfrifon Casgliad y Werin eu hunain, yn ogystal â sefydlu a rhedeg tudalen Facebook ar ran yr amgueddfa. Teimla Yvonne fod ei phrofiad o gefnogi pobl eraill *“yn sicr wedi cynyddu fy sgiliau a gwybodaeth”* yn ogystal â gwella ei sgiliau cyfathrebu drwy drosglwyddo gwybodaeth i ystod eang o bobl sy'n dod yn rhan, o fyfyrwyr i bobl hŷn. Yn ôl Yvonne mae helpu eraill wedi'i gwneud yn fwy hyderus ac ymwybodol o'i sgiliau ei hun: *“mae rhannu'r wybodaeth sydd gennych yn gwneud i chi sylweddoli gymaint yr ydych chi'n ei wybod”*.

Dywed Yvonne fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi *“wir bod yn dda iawn, a dylai hefyd olygu 'mod i'n cael cymhwyster arall yr haf hwn. Mae wedi agor fy llygaid i bethau eraill sydd ar gael. Gwelais hysbyseb swydd am Gynorthwydd Digideiddio a meddyliais 'Gallwn i wneud hynne'. Fyddwn i ddim wedi meddwl hynny o'r blaen. Pe byddech wedi dweud 5 mlynedd yn ôl y byddwn i bellach yn gyfrifol am hyn i gyd, fyddwn i ddim wedi eich credu.”*

Teimla Yvonne fod y sgiliau y mae hi wedi'u datblygu wedi helpu i gynyddu pa mor gyflogadwy ydi hi, gan ei bod yn gallu dangos ar ei CV ei bod yn dechnolegol abl ac yn gallu digideiddio, trin metadata a deall y cyfreithlondeb a'r hawlfraint sy'n gysylltiedig â rhannu deunyddiau.

Sonia Yvonne nad yw rhai pobl hŷn eisiau mynd ar-lein, ac felly mae'r Orsaf Treftadaeth Ddigidol yn cynnig *“ffordd iddyn nhw rannu eu straeon gyda'r byd”*. Teimla Yvonne hefyd fod hyn yn cynnig ffordd o gadw dogfennau pobl heb orfod eu storio, gan fod lle yn brin yn yr amgueddfa. Ychwanega Yvonne fod digideiddio yn sicrhau fod adnoddau ar gael ac yn weladwy i bobl yn yr hirdymor, sef adnoddau a fyddai fel arall *“wedi cael eu taflu”* neu wedi'u cadw o'r golwg.

Mae Yvonne yn gweld gwerth rhaglen Casgliad y Werin gan y cred ei bod *“yn cadw eitemau a fyddai fel arall wedi mynd ar goll a chodi proffil Cymru”*. Mae'n gwerthfawrogi bod modd rhannu eitemau â phobl o bedwar ban byd a bod y safle yn gallu annog safbwynt gwahanol a *“dangos i bobl fod mwy i Gymru na chestyll”*. A hithau'n ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan ac am y mwynhad mae hi wedi'i gael, mae Yvonne yn gobeithio y bydd rhaglen Casgliad y Werin yn *“dal i fynd ac yn dal i dyfu”*.

Casgliad y Werin Cymru

People's Collection Wales

Astudiaeth Achos

Yn byw yng Nghaerdydd, daeth Cathryn Evans i glywed yn gyntaf am Gasgliad y Werin yn 2013 drwy aelod o dîm Amgueddfa Cymru. Dechreuodd Cathryn ddefnyddio'r wefan yn ei swydd flaenorol yn ymchwilydd i gwmni teledu ac mae'n disgrifio sut roedd y lluniau ar-lein yn ddefnyddiol wrth chwilio am wybodaeth ar gyfer rhaglenni. Gan fod ganddi hefyd ddiddordeb personol mewn treftadaeth, aeth Cathryn ymlaen i greu ei phroffil ei hun ar y wefan a dechrau lanlwytho lluniau.

Mae Cathryn hefyd wedi defnyddio Casgliad y Werin yn ei swydd bresennol gyda Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru, mudiad sydd â 170 o glybiau yn aelodau ledled Cymru. Fe'i ffurfiwyd yn y 1920au, a chasglwyd nifer fawr o luniau, dogfennau a gwrthrychau i arddangos hanes y mudiad. Teimla Cathryn y gall fod yn anodd gwybod sut orau i ddiogelu neu rannu'r eitemau hyn. Roedd nifer o luniau wedi'u difrodi gan lifogydd yn y gorffennol tra bod eitemau eraill wedi'u rhoi i archifdy. Yn ôl Cathryn gall fod yn "anodd cael gafael arnynt wedyn" ac yn ddiweddar dechreuodd lanlwytho peth o ddeunydd y Clybiau i safle Casgliad y Werin i'w rhannu â chynulleidfia ehangach.

Ar ôl i Cathryn rannu lluniau a deunyddiau o Glybiau Bechgyn a Merched Cymru ar safle Casgliad y Werin, sylwodd fod llawer o bobl a welodd y lluniau ar-lein yn awyddus i ddysgu mwy, yn aml yn cysylltu neu hyd yn oed yn ymweld â'r mudiad. Mae Cathryn yn credu bod rhannu lluniau trwy Gasgliad y Werin wedi arwain at fwy o ymgysylltiad ar-lein gyda miloedd yn eu gweld. Byddai Cathryn yn hoffi gwybod mwy am bwy sy'n rhannu'r delweddau a pham, er enghraifft, a oes ganddynt ragor o wybodaeth am y llun neu'r bobl ynddo? Mae ymwneud â'r rhaglen hefyd wedi helpu'r mudiad i ddeall mwy am gyfraith hawlfraint a'r ffyrdd y gellir rhannu eu heitemau yn ddiogel.

Mae Cathryn hefyd yn mwynhau'r cyfle i rannu ei lluniau ei hun gydag eraill ac i ddarganfod cyfraniadau defnyddwyr eraill. Mae'n teimlo bod y lluniau sy'n cael eu rhannu "o werth a diddordeb i gymunedau ehangach". Dywed Cathryn ei fod yn "hwb i'r hyder" pan fydd pobl yn rhoi sylw ac yn mwynhau'r deunyddiau y mae hi wedi'u rhannu ar-lein. Roedd Cathryn yn arbennig o falch o gael un o'i negeseuon trydar a'i lluniau wedi ymddangos ar wefan Casgliad y Werin.

"Rwy'n defnyddio Casgliad y Werin yn aml iawn i lanlwytho a thrydar lluniau."

Oherwydd hanes teuluol yn gysylltiedig â'r Gemau Olympaidd, roedd Cathryn yn arbennig wedi mwynhau pori drwy'r adnoddau yn ymwneud â'r prosiect *Dilyn y Fflam* (a oedd yn dathlu pobl chwaraeon hanesyddol o Gymru) drwy'r lluniau a'r hanesion llafar a rannwyd ar wefan Casgliad y Werin. Trwy fod yn rhan, roedd Cathryn hefyd wedi gallu bod yn bresennol yn nigwyddiad olaf *Dilyn y Fflam* yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac wedi elwa o gyfleoedd rhwydweithio (er enghraifft, trwy ddigwyddiad yn Amgueddfa Firing Line) yn ogystal â rhagor o gysylltiadau proffesiynol.

Oni bai am Gasgliad y Werin, cred Cathryn y byddai'n anodd iawn dod o hyd i luniau tebyg ar-lein, neu y byddai'n rhaid mynd i lyfrgelloedd neu archifdai i'w gweld. Mae'r wefan yn ei gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i ddarganfod adnoddau "heb adael y tŷ", boed hynny ar gyfer ymchwil, addysg neu fwynhad. Mae Cathryn yn aml yn cyfeirio myfyrwyr y mae'n gweithio â nhw i'r wefan gan ei bod yn teimlo y byddent yn ei mwynhau yn ogystal ag yn elwa o'r sgiliau y mae Casgliad y Werin yn eu cynnig, sgiliau sy'n "dda i bobl ifanc" eu cael, gan gynnwys ar gyfer gweithgarwch ehangach ar-lein e.e. y cyfryngau cymdeithasol.

Mae Casgliad y Werin yn bwysig "i gadw treftadaeth Cymru yn fyw".

Yn y dyfodol mae'r mudiad yn gobeithio defnyddio hyfforddiant digideiddio Casgliad y Werin i gefnogi pobl ifanc ymhellach. Dyfarnwyd arian prosiect i'r mudiad yn ddiweddar gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a bydd yn defnyddio Casgliad y Werin i rannu'r deunyddiau o'r prosiect gyda chynulleidfia ehangach.

Casgliad y Werin Cymru

People's Collection Wales

Astudiaeth Achos

Mae Peter Davies yn 74 ac ar hyn o bryd yn byw yng Nghasnewydd. Mae'n hoff iawn o hel achau ac yn aelod o sawl cymdeithas hanes, ac mae'n mwynhau ymchwilio hanes ei deulu estynedig yng Nghymru. Ym mhrofiad Peter mae gwefan Casgliad y Werin wedi bod yn offeryn defnyddiol i ddarganfod a rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'i hynafiaid a'u bywydau.

Gobaith Peter drwy rannu lluniau a dogfennau ar-lein a “*chyfrannu at hanes*” yw y bydd yn annog eraill i wneud yr un fath. Mae hefyd yn gobeithio y bydd pobl eraill yn cysylltu ag ef i wneud cysylltiad â'r wybodaeth neu'r straeon y mae'n eu rhannu.

Yn gyn-gynghorydd i ddinas Casnewydd, mae Peter yn ymddiddori ym myd gwleidyddol Cymru nawr ac yng nghyfnod ei hynafiaid. Mae hanes teulu yn faes arall y mae Peter yn awyddus i ymchwilio ymhellach iddo. Er enghraifft, roedd ewythr Peter, sef JH Davies, yn Brifathro Prifysgol Aberystwyth hyd ei farwolaeth yn 1926, pan adawodd ei lawysgrifau (a elwir yn Gasgliad Cwrt Mawr) i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Yn ystod ei ymchwil, mae Casgliad y Werin wedi bod o fudd i Peter i ganfod gwybodaeth ychwanegol ar “*gymeriadau hanesyddol Cymreig a'r cysylltiad rhyngddynt*”. Dywed Peter fod y wefan wedi bod yn ddefnyddiol i “*wirio*” y wybodaeth y mae wedi'i chasglu, gan weithio'n dda ochr yn ochr â chofnodion corfforol ac yn cyd-fynd â gwybodaeth o ffynonellau eraill. Mae Peter o'r farn fod Casgliad y Werin yn cynnig ffynhonnell gwybodaeth ddibynadwy.

Mae'r wefan wedi bod yn ddiddorol i Peter, ac mae'n teimlo ei bod yn werthfawr i'w lanlwytho adnoddau i'r wefan “*gan y byddant yn rhywle y gallant aros ynddo*”. Dywed nad yw pob aelod o'i deulu yn rhannu ei frwdfrydedd mewn hanes teulu, felly mae'n bwysig i Peter ei fod yn diogelu'r straeon y mae'n dod o hyd iddynt trwy eu lanlwytho i blatfform Casgliad y Werin.

Ciplun o nodwedd 'Chwilio' Casgliad y Werin

The screenshot displays the search results for the user 'BETH' on the Casgliad y Werin platform. The interface includes a top navigation bar with filters for 'Cyfngau yn ôl gair allweddol', 'NEU DEWISWCH:', 'Eitem', 'Casgliadau', 'Llwybrau', and 'Straeon'. The left sidebar shows navigation options: 'Caflyddau a Diwylliant', 'Bioleg', 'Cymuned a Chymdeithasol', and a list of categories including 'Cymdeithasau amaethyddol', 'Dillad ac ategolion', 'Y System Droseddol', 'Digwyddiadau', 'Ffeiriau', 'Bwyd a Diod', 'Iechyd', 'Tai a Chartrefi', 'Marchnadoedd', 'Pobl a Theulu', 'Ysgolion / Addysg', 'Siopau', 'Cymdeithasau a Chybiau', and 'Cymuned a Chymdeithasol Arall'. The main content area shows 'Wedi ffeindio 2341 eitem' and a grid of 12 search results. The results include photos, videos, and documents, each with a title, a small image, and a link to the full record. The results are: 'Lord Mayor of Pembroke Dock Pops In', 'Interview with Diane Bennet's about her...', 'HUGH WILLIAMS, PANT-Y-SAER', 'William Joseph Peak (Bill)', 'David Davies - Llwynypia', 'funeral card 2.jpg', 'Volant Harrison with Sister', 'Volant Harrison', 'Volant Harrison', 'Unnamed Young Woman', 'Unnamed Young Man', 'Unnamed Young Man', 'Unnamed Young Girl', and 'Unnamed Woman'.

Effeithiau Ehangach

Gwneud Cyfraniad i Dreftadaeth y Dyfodol

- 5.71 Un 'effaith ehangach' allweddol yw'r cyfraniad tuag at warchod adnoddau, straeon a hanesion ar gyfer y dyfodol. Mae'r effaith hon yn anoddach i'w mesur gan nad yw'n cael effaith ar unwaith, er bod consensws ymysg llawer o unigolion (yn yr holl grwpiau ymatebwyr) ei bod hi'n bwysig cadw'r storïau hyn "*ar gyfer y dyfodol*" ac er budd "*cenedlaethau'r dyfodol*". Gallai'r agwedd hon ddod yn fwyfwy pwysig yng nghydestun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 5.72 Mae ymatebion yn dangos pryder gwirioneddol y byddai'r straeon a'r hanesion hyn yn cael eu "*coll*" oni bai am Gasgliad y Werin. Mae yna hefyd awydd i "*rannu*" y straeon hyn, gan awgrymu bod defnyddwyr yn cael ymdeimlad o foddhad o wneud yr hyn sydd yn eu barn nhw yn gyfraniad gwerthfawr i wneud treftadaeth o fewn cyrraedd haws ac ar gael yn ehangach.

"Mae gan bawb stori i'w hadrodd ac mae'n bwysig rhannu'r straeon hyn gyda'r gymuned ehangach. Ni ddylid gadael i amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn unig gofnodi hanes, mae gennym oll ran i'w chwarae."

"Does dim byd i gymryd lle cofnodi arteffactau a fyddai fel arall yn gallu mynd ar goll neu eu difrodi dros amser. Os yw rhywbeth o werth hanesyddol neu yn helpu pobl i ddeall hanes Cymru a'i phobl, yna mae angen ei gasglu a'i ddigideiddio."

"Gallai pethau fynd ar goll (neu) gael eu hanghofio. Mae hanes yn cael ei ysgrifennu gan y rheiny mewn pŵer yn aml gyda'u sbin, mae (Casgliad y Werin) yn rhoi cyfle i bobl normal adael eu marc hefyd."

"Mae'n gwneud yn siŵr y bydd ein treftadaeth yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - hyd yn oed os bydd y cymunedau gwledig hynny wedi diflannu wrth i ysgolion, siopau pentref, tafarndai, capeli, eglwysi ac ati gau eu drysau a does yna ddim manau cyfarfod cymunedol."

-Ymatebion yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr

- 5.73 Yn benodol, awgryma adborth gan ymgylgoreion rhyngwladol fod Casgliad y Werin yn cael ei hystyried bron yn unigryw ac iddi werth cynhenid uchel i'r rhai sy'n ei defnyddio. O ystyried y gwaith a'r ymdrech sylweddol a wnaed gan ddefnyddwyr i lanlwytho adnoddau i'r safle i'w diogelu at y dyfodol, roedd ofn gwirioneddol y byddai hyn yn cael ei "*goll*" pe na byddai'r rhaglen yn cael ei chefnogi am ba bynnag reswm.

Astudiaethau Achos Effaith

5.74 Gan ystyried y meysydd effaith a amlinellwyd uchod, datblygwyd Astudiaethau Achos Effaith, gan ddethol meysydd penodol yn y rhaglen er mwyn dangos yr effeithiau a gafwyd drwy elfennau gwahanol weithgarwch y rhaglen. Mae'r rhain i'w cael dros y dudalen ac yn Atodiad 4. Yn gryno, mae'r Astudiaethau Achos yn dangos:

- **Astudiaeth Achos Effaith Ardal Arloesi (Cymdeithasol):** Manteision cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau digideiddio, gan gynnwys manteision gyrfa, sgiliau, a mwynhad wrth rannu straeon;
- **Astudiaeth Achos Effaith Cronfa Dreftadaeth y Loteri (Prosesau):** Effeithlonrwydd ac adnoddau sydd wedi cael eu harbed drwy ddarparu platfform ar y we, offer a hyfforddiant i brosiectau a ariannir yn allanol;
- **Astudiaeth Achos Effaith Cydweithio Rhyngwladol (Arloesi):** Ffyrdd newydd o weithio sy'n hwyluso rhannu a chadw straeon yn rhyngwladol;
- **Astudiaeth Achos Effaith Culture Beacons (Economaidd):** Ysgogi prosiectau a chymorth y rhaglen yn cyfrannu atynt yn cael cyllid ac/neu arian cyfatebol.

Casgliad y Werin Cymru

People's Collection Wales

Astudiaeth Achos Effaith

Gymdeithasol: Gweithio mewn

Ardaloedd Arloesi

Mae Peilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi yn rhan o raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi drwy roi mwy o gyfle i bobl fanteisio ar ddiwylliant. Drwy gael trigolion ardaloedd difreintiedig Cymru i gymryd mwy o ran mewn diwylliant, nod y rhaglen yw hybu sgiliau, hyder, a dyhead. Yn ystod 2015-16, sefydlwyd chwe Ardal Arloesi, sef yng Ngwynedd, Caerdydd/Merthyr, Casnewydd, Abertawe, Torfaen a Wrecsam. Mae Gwerthusiad y flwyddyn beilot ar gael [ar-lein](#).

Mae Casgliad y Werin wedi cefnogi trigolion, ysgolion a sefydliadau mewn Ardaloedd Arloesi drwy gynnig gwahanol fathau o gymorth gan gynnwys hyfforddiant (ac opsiwn o achrediad Lefel 2), benthyg offer digideiddio, yn ogystal â darparu offer i recordio straeon a lluniau. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys digideiddio, hawlfraint, a defnyddio'r wefan; roedd mudiadau hefyd yn gysylltiedig â Chasgliad y Werin drwy ddigwyddiadau, sesiynau hyfforddi i grŵp cymunedol, a lanlwytho deunyddiau i wefan CyW fel rhan o brosiectau sydd eisoes yn bodoli.

Drwy greu cysylltiadau â chyrff cymunedol, mae Casgliad y Werin wedi sefydlu Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol, gan roi'r offer a'r sgiliau i unigolion a grwpiau gymryd rhan yn y digideiddio a'r rhannu ar dreftadaeth Cymru. Caiff lluniau a storïau wedi'u digideiddio eu lanlwytho wedyn i wefan Casgliad y Werin er mwyn i gynulleidfaoedd ehangach eu gweld.

Mae Casgliad y Werin wedi sefydlu Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol ledled Cymru, a rhagor ohonynt ar yr arfaeth, nifer ohonynt yn yr Ardaloedd Arloesi.

Nod Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol yw *“galluogi effaith drawsffurfiol ar fywydau pobl drwy gynnig achrediad, ymgysylltu, dysgu, a chynhwysiant digidol.”*

Lansiwyd Gorsaf Treftadaeth Ddigidol flaenllaw yn Ardal Arloesi Casnewydd ym mis Tachwedd 2015. Mynychwyd y digwyddiad gan Ken Skates, y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, yn ogystal â nifer o fudiadau ac aelodau'r gymuned wedi'u cefnogi gan Gasgliad y Werin ac fe gafodd [sylw yn y wasg](#).

Ymgynghorodd ERS ag 16 o unigolion i gael gwybod am eu profiad hwy o'r rhaglen, gan gynnwys: Girlguiding Cymru; prosiect Back A Yard (sy'n cofnodi straeon gan bobl Affricanaidd Caribiaidd a ddaeth i fyw yng Nghasnewydd o'r 1940au ymlaen); Cyfeillion Llong Casnewydd, Clwb Criced Casnewydd, a Chaerdydd yn Cofio, prosiect coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Nododd un o'r rhai a holwyd pa mor bwysig oedd yr hyfforddiant ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gynnal cyfweiliadau hanes llafar, yn ogystal â *“sut i greu straeon, a dod â straeon yn fyw”*. Roedd yr hyfforddiant yn rhoi modd i'r prosiect gofnodi hanes llafar a rhannu'r canlyniadau ar wefan CyW.

Soniwyd am ystod o effeithiau cymdeithasol gan yr unigolion y siaradom ni â nhw, gan gynnwys amrywiol fanteisio yn deillio o'r hyfforddiant. Roedd y rhai a gafodd hyfforddiant o'r farn fod y sgiliau wedi deffro mwy o ddiddordeb mewn treftadaeth, ac wedi rhoi mwy o fynediad i dreftadaeth, gan alluogi pobl i rannu eu straeon eu hunain. Ar lefel unigol, adroddodd ymatebwyr fod y sgiliau a gawsant wedi arwain at fwy o hyder, ac/neu wedi eu helpu i gyflawni dilyniant gyrfa. Yn fwy cyffredinol, mae'r uwchsgilio hefyd wedi rhoi modd i bobl a gafodd hyfforddiant i gefnogi aelodau eraill yn eu cymuned i ddefnyddio'r offer i rannu eu storïau eu hunain, sy'n golygu *“y gall y gwaith barhau y tu hwnt i'r hyfforddiant neu'r prosiect ei hun”*.

Dywedodd un person ifanc fod *“cael yr hyfforddiant wedi rhoi'r offer i mi gofnodi fy stori/stori fy nheulu a gyrhaeddodd Cymru yn 2006. Rwy'n gobeithio gallu helpu pobl i lanlwytho yn y dyfodol. Mae yno i bawb. Gallwch ddefnyddio'r offer ar unrhyw adeg – gallwch ddod â llwythi o bethau.”*

Yn gadarnhaol, roedd rhai ymgynghoreion o'r farn fod rhannu straeon wedi cyfrannu at fwy o gydlyniant cymunedol. Mae tystiolaeth, er enghraifft, fod rhai prosiectau rhwng y cenedlaethau wedi dwyn ynghyd pobl ifanc a phobl hŷn, ac yn ôl un prosiect *“Gall fod yna hiliaeth, gwahaniaethu. Mae rhannu diwylliant a straeon yn rhoi mwy o ddealltwriaeth ac yn dod â chymunedau at ei gilydd.”*

Astudiaeth Achos Effaith Gymdeithasol: Gweithio mewn Ardaloedd Arloesi

Ystyrir hefyd fod gwerth cymdeithasol pendant i effaith lanlwytho'r straeon hyn ar-lein drwy "gadw" y straeon hyn ar gyfer y dyfodol ac er mwyn eu mwynhau yn ehangach.

"Dyw plant ddim yn gofyn sut daethoch chi yma (i'r Deyrnas Unedig), eich diwrnod cyntaf. Mae profiad pawb yn wahanol. Dydw i erioed wedi dweud (fy stori) wrth unrhyw un, ond erbyn hyn mae wedi'i chofnodi i bawb yn y byd."

Credir yn gyffredinol os na chaiff yr hanesion, y lluniau, y gwrthrychau, a'r storïau hyn eu "da" yn awr, yna byddent yn cael eu "colli" ac y byddai perygl na fyddai pobl yn y dyfodol yn gallu mwynhau a deall eu treftadaeth. *"Dyma o ble rydyn ni'n dod, ac mae'n helpu i ddiffinio ble rydyn ni'n mynd."*

Gan fod modd arddangos y deunyddiau hyn mewn un man ar-lein, a thrwy blatfform ac iddo enw da, roedd hyn yn cynyddu ymdeimlad yr ymatebwyr bod y deunyddiau yn cael eu "gwarchod" ac yn "ddiogel ar gyfer y dyfodol".

Roedd un cyfranogwr hefyd yn gwerthfawrogi y gellid cofnodi'r straeon hyn ond bod y perchennog yn gallu cadw eu llun neu'r gwrthrych gwreiddiol. Teimlir hefyd fod yr elfen ddigidol yn rhoi mwy o gyswllt â'r storïau a'r prosiectau, gan gynnwys ysbrydoli ac annog eraill i gyfrannu eu stori eu hunain.

"Does neb am siarad amdany'n nhw eu hunain, ond pan fo'r lluniau yn llifo i mewn a'r cymunedau yn gweld y canlyniadau a'r stori, maen nhw am ymuno ac yn awyddus i rannu ... A'r cyfan oherwydd CyW gan fod y wefan yno i roi hwb. Mae'n arfer da."

Mae arddangos storïau yn y fath fodd hefyd yn gallu cyfrannu at bobl yn gweld gwerth eu straeon eu hunain yn gliriach, yn ôl nifer o ymatebwyr: *"Does dim digon o bobl yn sylweddoli bod eu stori nhw yn bwysig", "Roedd gweld 'mod i'n gallu ei wneud a'i fod yn hwylus ei ddefnyddio... mi wnes i ddatblygu diddordeb mewn treftadaeth"*.

Canmolodd un ymatebydd gyfleustra'r dull hwn hefyd i apelio'n arbennig at bobl ifanc: *"Yr oes ddigidol yw hi ... dyw pobl ddim yn mynd i amgueddfeydd yn aml. Fel hyn, gallant rannu eu lluniau eu hunain pan fyddant yn teimlo fel gwneud."*

Mae'r rhaglen hefyd wedi meithrin perthynas tymor hir gyda phrosiectau gan roi cefnogaeth ac arweiniad cyson, fel y gwelir yn yr enghraifft isod:



Daeth Girlguiding Cymru i ymwneud yn gyntaf â Chasgliad y Werin wrth ymchwilio i opsiynau ar gyfer yr archif helaeth oedd ganddynt yn eu seler. Ar ôl holi'r Llyfrgell Genedlaethol, awgrymwyd y gallai tîm Casgliad y Werin roi hyfforddiant digideiddio iddynt i'w helpu i gael yr archif ar-lein. Ers hynny mae'r Geidiaid wedi cael 5 cwrs gyda 24 o bobl yn cwblhau hyfforddiant (hyd yma).

Soniodd un aelod sut yr oedd ymwneud â CyW wedi creu diddordeb yn yr archif a chael effaith gadarnhaol ar farn pobl ifanc am lyfrgelloedd, yn ogystal â datblygu eu sgiliau TG, cyfathrebu a gweithio mewn tîm. Roedd chwech o'r geidiaid y siaradom ni â nhw yn disgrifio canlyniadau cadarnhaol o'r hyfforddiant. Roedd un ohonynt yn gweithio yn y sector treftadaeth ac wedi gweld datblygiad gyrfa o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen:

"Rwyf wedi ennill sgîl bywyd newydd a chymhwyster proffesiynol sydd wedi gwneud gwahaniaeth i fy ngyrfa. Mae cyflogwyr yn bendant â diddordeb. Mae wedi cyflymu fy ngyrfa."

Wrth sôn am bwysigrwydd hanes y Girl Guides, dywedodd un ymatebydd: *"Mae'r mudiad wedi gwneud cymaint i'r wlad. Nhw oedd y bobl gyntaf i mewn i wersylloedd crynhoi, nhw ddechreuodd yr ysgol anghenion arbennig gyntaf. Heb CyW byddai eu harchif wedi aros ynghudd. Byddem wedi dod i ben."*

Mae CyW yn aros yn gysylltiedig â'r rhaglen i'r tymor hir, gan ddatblygu 'Bathodyn' penodol Casgliad y Werin, cynnal arddangosfa o'r deunyddiau archif yn y Llyfrgell Genedlaethol, a bod yn rhan o waith y rhaglen mewn cysylltiad ag iBeacon.

Casgliad y Werin Cymru

People's Collection Wales

Astudiaeth Achos Effaith Arloesi: Cydweithio Rhyngwladol

Mae Casgliad y Werin wedi dechrau ar amrywiaeth o ddulliau i gydweithredu'n rhyngwladol gan ganolbwyntio ar nifer o fudiadau ym Mhatagonia a'r Unol Daleithiau America. Mae'r cyntaf wedi bod yn rhan o brosiect a ariennir gan y Cyngor Prydeinig, a'r ail yn rhan o weithgareddau mwy cyffredinol i ymgysylltu â'r gymuned o dan arweiniad llinyn perthnasol Casgliad y Werin.

Yn yr astudiaeth achos hon edrychir ar sut y mae rhaglen Casgliad y Werin wedi arwain at 'Effaith Arloesi', megis defnyddio technoleg newydd, modelau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Mae enghreifftiau a gyflwynir yn cynnwys sefydlu Gorsafedd Treftadaeth Ddigidol yn Pittsburgh, Pennsylvania yn ogystal ag yn y Gaiman, Patagonia tra bod cymunedau ledled yr UDA wedi dechrau cydweithio ar amcanion treftadaeth ddigidol a rennir. Rhoddwyd cymorth â'r gwaith o rannu treftadaeth deuluol a chymunedol dros yr Iwerydd a dechrau cyfathrebu a rhannu sgiliau rheolaidd drwy ddefnyddio dulliau digidol amrywiol.

Ar gyfer yr astudiaeth achos hon, holwyd pum unigolyn sy'n rhan o weithgareddau ar y cyd â Chasgliad y Werin. Yn yr Ariannin holwyd Ana Chianbrando Rees (sy'n gysylltiedig ag Ysgol yr Hendre, y Gaiman yn ogystal â grwpiau eraill), ac yn yr UDA holwyd Gerri Baker Parry ac Alan Upshall o Gymdeithas Cymry Puget Sound, Seattle; a Dave Williams o Wales PA, Pennsylvania, yn ogystal â Dr Richard Allen, Darllenydd mewn Hanes Diwylliannol Modern ym Mhrifysgol De Cymru sy'n gweithio gydag Wales PA. Yn ogystal, cafwyd dau gyfweiliad â thîm prosiect Patagonia 150 y Cyngor Prydeinig.

Rhannwyd yr astudiaeth achos yn ddwy ardal ddaearyddol, sef Patagonia a'r UDA. Roedd pawb a holwyd yn eithriadol o hapus â'r berthynas/ cymorth a gafwyd gan wefan Casgliad y Werin yn ogystal â'r safle ei hun, ac o'r farn yn gyffredinol y byddai'n anodd iawn os nad yn amhosibl cael rhywbeth i gymryd ei le.



Patagonia

Ym Mhatagonia, mae effeithiau arloesi yn gysylltiedig â'r dechnoleg newydd a'r ffyrdd newydd o weithio a ddaeth yn sgil sefydlu'r Orsaf Treftadaeth Ddigidol yn y Gaiman (yn ogystal â lleoliad arall ym Mhatagonia fel rhan o brosiect Patagonia 150). Aeth unigolion o wefan Casgliad y Werin draw yn bersonol i sefydlu'r Orsaf a rhoi offer a hyfforddiant digideiddio. Dywedwyd bod y gymuned ei hun eisoes yn cydweithio'n agos drwy ddefnyddio dull cyffredin yn rhanbarthol; felly disgrifiwyd llai o effaith mewn perthynas â'r agwedd honno, er bod effeithiau sylweddol wedi'u cyflawni o ran cysylltiadau dros yr Iwerydd.

Dywedwyd nad oedd llawer o'r dechnoleg ddiweddaraf yn y Gaiman ac mae'r Orsaf bellach yn rhoi modd rhannu deunyddiau sydd ym meddiant y gymuned ac o ddiddordeb iddi. Cyn bod yn rhan o Gasgliad y Werin, roedd y gymuned wedi defnyddio tudalen benodol ar blatfform y cyfryngau cymdeithasol Facebook, ond nid oedd hyn yn cael ei weld yn gadarnhaol oherwydd y diffyg gallu i chwilio drwy'r deunydd. Codwyd pryderon am ddiogelwch platfform Facebook hefyd gan rai aelodau o'r gymuned. Ystyriwyd bod y rhyngweithio â Chasgliad y Werin yn "*bwysig iawn i'r gymuned*" ac roedd hyn yn rhan hollbwysig o gael eu cefnogaeth i'r prosiect. Nododd yr ymgynghorai fod y flwyddyn wedi bod yn llawn o amrywiol weithgareddau dathlu, felly nid oedd llawer o amser i wneud gwaith arall; felly roedd cefnogaeth Casgliad y Werin mewn gwirionedd wedi rhoi modd gwneud gwaith na fyddai wedi bod yn bosibl ar y pryd fel arall.

Cafodd y gymuned gymorth i ddigideiddio lluniau, dogfennau ysgrifenedig, straeon a hanesion llafar, ac ni ellid wedi gwneud llawer ohonynt gyda'r dechnoleg oedd ar gael cyn hynny. Yn ogystal, mae nawr yn bosibl i Ana rannu llythyrau Cymraeg ei thaid gydag aelodau o'r teulu sydd yn dal yng Nghymru drwy wefan Casgliad y Werin. Heb Gasgliad y Werin dywedwyd y byddai cysylltiadau o'r fath yn anoddach eu cynnal. Yn ogystal, gan fod Ana yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol leol, gall hi wedyn ddefnyddio deunyddiau Casgliad y Werin yn rhan o'i deunyddiau ac adnoddau dysgu ei hun, gan gyfieithu'r Gymraeg i'r Sbaeneg. Caiff hyn eto ei ystyried yn ddull newydd o weithio.

Astudiaeth Achos Effaith Arloesi: Cydweithio Rhyngwladol

Rhoddwyd hyfforddiant i bobl leol yn y Gaiman, gan gynnwys ar gyfraith hawlfraint a sut i ddefnyddio'r offer. Câi hyn ei ystyried i fod ar safon uwch na'r hyn oedd ar gael yn lleol.

Barnwyd bod Casgliad y Werin yn wybodus am hawlfraint, sydd wedi helpu rhai o'r bobl leol i ychwanegu at eu dealltwriaeth yn ymwneud â defnyddio a rhannu deunyddiau hawlfraint. Mae'r hyfforddiant, felly, wedi arwain at arferion gweithio newydd i rai pobl leol sy'n lanlwytho deunyddiau o ran cadarnhau bod ganddynt wir yr hawl i rannu'r deunyddiau.

Unol Daleithiau America

Yn yr UDA, mae sawl grŵp wedi bod yn ymwneud â Chasgliad y Werin, gyda stori debyg yn codi o'r gwahanol ardaloedd o ran y gwerth mawr a roddir ar wefan Casgliad y Werin i storio hanesion. I'r ddau fudiad Cymreig a holwyd yn yr UDA, senario cyffredin (cyn defnyddio Casgliad y Werin) oedd y byddent yn derbyn eitemau pan fyddai aelod o'r gymuned yn marw – yn aml yn ddogfennau megis rhaglenni hanesyddol dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Gan fod mwyfwy o wybodaeth a phrinder lle corfforol i storio, roeddynt wedi bod yn chwilio am ateb technolegol, megis sefydlu lle ar y we gyda'r Llyfrgell Genedlaethol fel y gwnaed gan Gymdeithas Cymru Gogledd America yn Ohio. Mae Casgliad y Werin yn cynnig gwasanaeth am ddim sy'n gofyn am nifer penodol o oriau gwirfoddoli i'w defnyddio, yn hytrach na chyfraniad ariannol, gan ei wneud yn ymarferol i gyrff a mudiadau bach a mawr.

“Prif effaith CyW yw dod â Chymru i'r byd, a pharhau i wneud hynny gyda'r cysylltiad Cymreig cryf â Pennsylvania: sy'n Gymru fach arall.”

Yn Seattle, mae Cymdeithas Cymry Puget Sound bellach wedi dechrau digideiddio a lanlwytho ôl-gatalog mawr o ddogfennau hanesyddol wedi'u storio, sydd wedyn yn cael eu symud yn gorfforol i amgueddfa yn Nebraska. Mae hyn yn golygu bod deunyddiau yn cael eu cadw a bod modd eu rhannu nawr ac yn y dyfodol.



Roedd Alan Upshall, yn ogystal â Richard Allen, yn cydnabod ei bod weithiau'n angenrheidiol gwirio'r ddogfen wreiddiol, ac felly roedd yr ateb newydd hwn yn rhoi mynediad at y gwreiddiol a'r fersiwn ddigidol. Yn ogystal, soniodd Richard fod Casgliad y Werin wedi ychwanegu gwerth arloesol mawr i'r broses ymchwilio, gan ei gwneud yn bosibl gwneud dadansoddiadau manylach o ddogfennau wedi'u lleoli yn yr UDA heb orfod teithio dros yr Iwerydd. Byddai hefyd yn sôn yn aml am wefan Casgliad y Werin mewn darlithoedd i israddedigion fel arf iddynt wneud ymchwil hanesyddol, ac i ôl-raddedigion sy'n canolbwyntio ar brosiect penodol.

“Mae Casgliad y Werin yn offer ychwanegol amhrisiadwy. Mae mor ddrud gwneud gwaith ymchwil trawsiwerydd, felly o ran gwaith academiaidd mae CyW yn gaffaeliad anhygoel.”

Dywedodd Gerri Parry yn Puget Sound fod porth Casgliad y Werin yn llawer haws i'w ddefnyddio na rhai dulliau eraill yr oedd wedi bod yn eu treialu. Nododd Alan hefyd ei fod yn haws gan y gallai person fynd iddo a'i ddefnyddio i ryw raddau heb unrhyw hyfforddiant blaenorol, gan awgrymu iddynt hwy fod y dechnoleg, ynddi'i hun, yn arloesol yn ogystal. Soniodd yr holl bobl a holwyd yn yr UDA am natur arloesol y gefnogaeth a gynigir, gyda sesiynau grŵp Skype ar gael gyda staff Casgliad y Werin, ynghyd â gwe-seminarau a chwsr hyfforddi 10-rhan ar ddigideiddio (sydd wrthi mewn profion beta ar hyn o bryd).

Mae gwelliannau pellach a awgrymwyd yn cynnwys:

- Hyfforddiant drwy Skype i ddangos problemau ar sgrin ar y cyd er mwyn datrys problemau penodol;
- Wiki i ddefnyddwyr i roi atebion i broblemau sydd wedi cael eu datrys o'r blaen;
- Trosglwyddo peth o gynnwys aml cyfarfodydd Skype i ddiweddariad e-bost gan wneud yr angen amdanynt i godi'n llai aml ond bod mwy o ffocws iddynt; ac
- E-gylchlythyr o'r hyn sydd wedi cael ei roi ar wefan Casgliad y Werin yn y mis/3 mis diwethaf.

Casgliad y Werin Cymru

People's Collection Wales

Astudiaeth Achos Effaith Prosesau: Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae rhaglen Casgliad y Werin wedi sefydlu partneriaeth strategol gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) a'r berthynas wedi datblygu'n gadarnhaol dros amser, gan orffen yn ddiweddar mewn digwyddiad i archwilio cyfleoedd i gydweithredu yn y dyfodol. Mae'r astudiaeth achos hon yn edrych ar y ffyrdd y mae Casgliad y Werin wedi arwain at 'Effaith Prosesau' i CDL fel partner strategol, ac yn fwy penodol i brosiectau wedi'u hariannu gan CDL. Mae hyn yn cynnwys effeithiau prosesau drwy fodolaeth y plattform digidol; darparu offer; rhannu arbenigedd / gwybodaeth; a dull cydlynol o weithio.

Ymgynghorodd ERS â chynrychiolydd CDL a phedwar o unigolion sy'n gysylltiedig â phrosiectau CDL, gan gynnwys dathliad o ŵyl ddiwylliannol, a chofnodi straeon cadarnhaol o fewnfudo, er enghraifft. Cymysg oedd cysylltiad y rhai a holwyd â Chasgliad y Werin cyn cymryd rhan yn y prosiectau dan sylw. Roedd rhai ohonynt yn ymwybodol o'r rhaglen gan eu bod wedi bod yn gweithio yn y sector ers amser hir, ac eraill wedi clywed am wefan Casgliad y Werin am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod gwneud cais i CDL.

Mae'r cyfraniad a wneir gan Gasgliad y Werin i brosiectau wedi cynnwys hyfforddiant mewn digideiddio, cofnodi hanesion llafar a chyhoeddi i'r wefan, yn ogystal â benthyg offer a rhoi mynediad i wefan Casgliad y Werin. Trefnodd Casgliad y Werin sesiynau hyfforddi i grwpiau hanes a grwpiau gwirfoddoli lleol yn ogystal â rhoi cyngor ar sut i weithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a phartneriaid tebyg. Roedd allbynnau'r prosiect yn cynnwys naratifau digidol, h.y. "straeon a sioeau sleidiau 3 i 7 munud gyda naratif am hanes y Barri." Mae straeon yn yr adran am y Barri wedi bod yn boblogaidd, gydag un gwirfoddolwr yn dal i lanlwytho i'r safle. Cafodd prosiect arall, sef arddangosfa gan 26 o grwpiau cymunedol ym Mhowys i'w arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ei guradu ar-lein drwy wefan Casgliad y Werin, gan greu etifeddiaeth i'r tymor hir.

"Maen nhw'n cynnig cymorth i'r rhai sy'n cael grantiau, o'n safbwynt ni mae'n golygu bod y rhai sy'n cael grantiau yn cael eu cefnogi yn well, mae eu cynnyrch yn well ac maent yn cael bywyd hirach. Mae hyn yn cryfhau gwerth ein buddsoddiad mewn cymunedau a phrosiectau."

Drwy'r adborth gwelwyd nifer o effeithiau o ran prosesau (h.y. effeithlonrwydd, osgoi dyblygu, arbed adnoddau) yn sgil y cymorth a gafwyd gan Gasgliad y Werin, gan gynnwys darparu'r plattform ar y we sydd eisoes yn bodoli. Nodwyd bod prosiectau a gefnogir gan CDL yn aml am greu eu gwefan eu hunain ac er bod hirhoedledd yn bwysig i CDL, nid yw hynny bob tro yn angenrheidiol nac y dull gorau. Dywedodd un ymgynghorai oedd â'r bwriad hwnnw ar y dechrau:

"heb CyW byddem o bosibl wedi edrych ar ddatblygu ein gwefan ein hunain - ni fyddai wedi cael yr un effaith o safbwynt y plattform ... roedd CyW wedi tyfu'r prosiect i ddimensiwn arall."

Mae gwefan Casgliad y Werin hefyd yn datrys her allweddol, sef cynnal gwefannau unigol ar ôl i brosiect a oedd wedi derbyn grant ddod i ben. Mae'r cyfrifoldeb fel arfer ar y gwirfoddolwyr sydd efallai heb yr adnoddau, y sgiliau, neu'r cymhelliant i wneud hyn yn y tymor hir.

"mae gwirfoddolwyr yn gallu defnyddio gwefan CyW yn gyfforddus heb gael problemau technegol parhaus. Nid ydynt yn teimlo mor gyfrifol am gynnal y safle ar ôl y cyllid. Nid yw llawer o wirfoddolwyr yn hoffi agweddau technegol hanes llafar."

Nododd ymgynghorai werth cael "safle ymbarér", yn cyd-reddeg â'r sefydliadau cenedlaethol, gan adleisio bod nifer o grwpiau cymunedol bychain yn mynd ati i sefydlu eu gwefannau eu hunain. Awgryma adborth fod dod ag ymdrechion amrywiol grwpiau at ei gilydd ar un plattform, mewn rhai achosion, wedi golygu defnyddio arian yn fwy effeithlon. Mae Casgliad y Werin yn rhoi modd i grwpiau cymunedol gael gwybod am brosiectau sydd eisoes yn digwydd, a gall hyn leiha'u dyblygu: *"Mae CyW yn eich galluogi i fanteisio ar beth y mae pobl eraill yn ei wneud. Felly, mae hefyd yn helpu i osgoi gwneud cais heb raid."*

Ymhellach, awgrymodd un ymgynghorai bod Casgliad y Werin, drwy ddarparu gwasanaethau mewn un lle, yn cynnig gwell gwerth am arian na phrosiectau eraill: *"gall cais fod yn £7500-£8000 yn llai drwy ddefnyddio Casgliad y Werin."*

Astudiaeth Achos Effaith Prosesau: Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mewn achosion lle gwneir ceisiadau CDL, dengys yr atebion fod Casgliad y Werin wedi helpu rhai grwpiau cymunedol i gael arian na fyddent fel arall wedi gallu cael gafael arno. Nododd un ymgynghorai bod Casgliad y Werin *“wir yn helpu grwpiau bychain i lunio ceisiadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri”*, ac yn ei gwneud yn haws i rai prosiectau ychwanegu allbynnau digidol i’w ceisiadau ac i ymestyn hirhoedledd eu presenoldeb ar-lein.

Gan nad yw Casgliad y Werin yn rhan o’r penderfyniad ariannu terfynol, gall grwpiau cymunedol gael cyngor a chyfarwyddyd ganddynt yn ystod y cam ymgeisio. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o werthfawr gan fod grwpiau cymunedol yn aml yn cael y prosesau ariannu yn heriol ar y cychwyn, felly nid yw cymaint o grwpiau yn llwyddiannus y tro cyntaf. Dywedwyd bod cymunedau ymylol, yn enwedig, yn aml yn brin o hyder y gallant gael cyllid. Yn hyn o beth, credid bod y gefnogaeth a roddir gan Gasgliad y Werin yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Awgryma’r adborth fod y gefnogaeth gan Gasgliad y Werin hefyd wedi arwain at gael cynnwys ac allbynnau o ansawdd uwch, yn ogystal â chyflawni amcanion prosiectau yn fwy llwyddiannus. Mae cael offer am ddim drwy wefan Casgliad y Werin hefyd wedi arwain at ennyn diddordeb cryfach, mewn un achos: *“Heb offer CyW byddem wedi gorfod defnyddio offer o safon is. Roedd cael offer proffesiynol swyddogol yn codi cymhelliant [y bobl ifanc], yn creu mwy o ddiddordeb. O ran pobl yn ymwneud â threftadaeth ac yn awyddus i gymryd rhan, mae wedi denu.”*

Mae hefyd yn amlwg fod y rhai a gefnogir yn ystyried bod trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth yn fantais. Nododd un ymgynghorai na fyddai cynifer o gyfleoedd hyfforddi i gyfranogwyr heb Gasgliad y Werin. Roedd canmoliaeth i’r ffordd y cynhaliwyd yr hyfforddiant:

“Sylfeini sgiliau a brwdfrydedd y tîm i allu trosi gwybodaeth dechnegol i iaith y gall y rhai sy’n cael ein grantiau ei deall.”

Ychwanegodd ymgynghorai arall at hyn, gan ddweud bod y tîm yn fedrus wrth ddarparu hyfforddiant yn llwyddiannus i *“bobl sy’n amrywio’n fawr iawn yn eu sgiliau TG”*.

Ar ôl cwblhau’r prosiectau, soniai cyfranogwyr fod allbynnau’r prosiect yn para’n hirach ac yn haws cael gafael arnynt gan ragor o bobl o ganlyniad i blatfform Casgliad y Werin, gan gynyddu etifeddiaeth y prosiect a rhoi modd cael allbynnau mwy cynaliadwy i’r tymor hirach. Mae cael deunydd sydd ar gael i bobl ymhell ar ôl i brosiectau unigol ddod i ben yn werthfawr i’r bobl gysylltiedig ac awgrymir bod mwy o ryngweithio â’r deunyddiau o’i gymharu â gwefan unigol: *“Byddai gwefan wedi marw erbyn hyn – byddai rhywun wedi cael trafferth gyda hi, ond y gwir yw fyddai hi ddim yno bellach. Yn lle hynny mae gennym un gwirfoddolwr yn dal i roi deunydd ar safle Casgliad y Werin. Oherwydd bod Casgliad y Werin yn ei gadw yn fyw ... Mae’n dal yn cael pobl yn rhyngweithio ag e nawr.”* Nododd ymgynghorai hefyd fod gwefan Casgliad y Werin yn denu ymchwilwyr gan y gellir canfod yr holl ddeunyddiau mewn un lle: *“O safbwynt ymchwilwyr, po leiaf o leoliadau y mae’n rhaid i chi fynd iddynt, po orau e.e. llawer o wefannau treftadaeth cymunedol. Hefyd, gallant fod yn andros o anodd dod o hyd iddyn nhw gan nad oes llawer yn ymweld â nhw’n aml ac felly nid ydynt yn codi’n uchel ar chwiliad Google ... gyda phrosiectau fel hyn rydych yn creu cyhoeddiad neu bamffled, dim ond i ymchwilwyr ganfod eu bod allan o brint ers hir. Mae’n wych cael yr etifeddiaeth ddigidol....”*

Cytunir yn gyffredinol fod safle Casgliad y Werin yn gwneud cynnyrch grwpiau cymunedol yn haws cael gafael arnynt. Awgrymodd un ymgynghorai bod gwefannau treftadaeth eraill yn tueddu i ddefnyddio terminoleg nad yw pawb yn ei deall yn hawdd, a theimlir eu bod wedi’u hanelu yn fwy at weithwyr proffesiynol yn y sector treftadaeth yn hytrach nag aelodau o’r gymuned.

Soniodd un ymgynghorai hefyd fod Casgliad y Werin wedi helpu i feithrin partneriaethau yn llwyddiannus a chael mynediad at gydweithredwyr a chynulleidfaoedd posibl.

“Mae Casgliad y Werin yn edrych ychydig ymhellach i’r dyfodol na grwpiau cymunedol. O ran yr hyn maent yn ei wneud, mae’n hollol unigryw. Hoffwn petai yna un ar gyfer Lloegr. Mae gan y coalisiwn (yr Amgueddfa, y Llyfrgell, a’r Comisiwn Brenhinol) lwch aur yma.”

Astudiaeth Achos Culture Beacon: Effaith Economaidd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhaglen Casgliad y Werin wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu'r defnydd o dechnoleg iBeacon yn sector treftadaeth Cymru. Mae iBeacon yn ddyfeisiau Bluetooth isel eu hynni (BLE) sy'n tanio cynnwys digidol ar ddyfeisiau iOS neu Android cyfagos, megis ffonau clyfar neu lechi. Mae Casgliad y Werin wedi datblygu'r cynnig "Culture Beacon" – ar y cyd â Locly sy'n cyfuno ap a system rheoli cynnwys i ddatblygu deunyddiau iBeacon ar gyfer lleoliadau ffisegol, megis llwybrau, teithiau clywedol, fideo, delweddau ac ati gyda dyfeisiau iBeacon GCell wedi'u pweru gan yr haul. Mae plattform Culture Beacon yn cynnig nifer o nodweddion, gan gynnwys y gallu i gynnig deunyddiau amlieithog, darparu templedi i lanlwytho cynnwys, y gallu i ddiweddu cynnwys, ac mae'n gydnaws â phlattfformau'r cyfryngau cymdeithasol. Mae llwybrau lluosog iBeacon, y gellir eu haddasu, wedyn ar gael i ymwelwyr trwy'r ap Culture Beacon, gan gynnig plattform adnoddau a rennir trwy lawrlwytho un ap.

Bu Casgliad y Werin yn rhan o brofion cychwynnol wrth ddatblygu technoleg iBeacon mewn lleoliadau treftadaeth, ac Amgueddfa Lechi Cymru oedd "y cyntaf yn y byd" i dreialu llwybr iBeacon (mewn partneriaeth â Chasgliad y Werin, yr Amgueddfa Genedlaethol a Locly). Ers y peilot cyntaf hwn, mae CyW hefyd wedi cynnal ymchwil (trwy grant ymchwil a datblygu Nesta, ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerlŷr ac eraill) i ddatblygu Beacon BLE i ddehongli treftadaeth ar gyfer Castell Caerlŷr a deall effaith hyn ar brofiad yr ymwelydd. Roedd rôl Casgliad y Werin yn ymwneud â'r dechnoleg. Astudiodd yr ymchwil yr effaith ar farn ac ymddygiad ymwelwyr mewn nifer o feysydd, gan gynnwys: dysgu; defnyddio gofod; ymgysylltu; a hyd yr arhosiad. Yn ôl y canfyddiadau cafodd y teithiau ymateb da gan ymwelwyr o'i gymharu â dehongliadau mwy traddodiadol, a chafwyd tystiolaeth gychwynnol o effaith gadarnhaol ar draws llawer o'r ffactorau a nodwyd.

Mae tîm y rhaglen yn parhau i ymchwilio i sut y gall iBeacon gefnogi'r sector treftadaeth, er enghraifft, o ran rhoi profiad cadarnhaol i ymwelwyr, creu incwm i safleoedd treftadaeth, a manteision economaidd posibl twristiaeth (megis ymwelwyr yn gwario mewn busnesau lleol).

Er bod y gwaith hwn yn parhau, a bod nifer o brosiectau "byw" yn eu camau cynnar, datgelodd ein sgysiau arwydd cynnar o sut mae CyW wedi cefnogi nifer o gyrff a mudiadau i ddechrau eu prosiectau iBeacon eu hunain. Mae cyfranogiad Casgliad y Werin wedi amrywio – o roi cyngor ac arweiniad cychwynnol, cynorthwyo mudiadau i gael gafael ar gyllid ac/neu arian cyfatebol, i fod yn bartner gweithredu. Mae'n amlwg bod y rhaglen wedi bod â rôl werthfawr yn "sbarduno" nifer o brosiectau oherwydd y gefnogaeth a roddwyd.

"CyW oedd yn ysgogi pethau. Pan oedden ni'n dawel roedden nhw'n ein gwthio ni ymlaen, yn ein hannog, ac wedi arwain yn y bôn."

Mae'r canfyddiadau yn yr astudiaeth achos yn seiliedig ar ein hymgyngoriad â 6 phrosiect iBeacon y mae Casgliad y Werin wedi'u cefnogi, yn ogystal â GCell, sydd wedi partneru gyda'r rhaglen i ddarparu dyfeisiau iBeacon i gleientiaid. Gwahanol iawn yw natur y prosiectau sy'n deillio o hyn, ac maent yn cynnwys llwybrau amrywiol ar safleoedd hanesyddol gan gynnwys Castell Rhaglan, Parc Cenedlaethol Eryri (yn gysylltiedig â choffáu Frongoch), eglwysi a safleoedd ar draws Gogledd Sir Benfro, llwybrau tref yng Ngheredigion, a dehongliad rhyngweithiol o leoliadau ym Mae Caerdydd megis y Senedd a'r Pierhead.



Ffynhonnell: <https://www.casgliadywerin.cymru/items/27614>

Roedd y prosiectau uchod wedi ymwneud â Culture Beacons mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac roedd ganddynt nifer o resymau dros gymryd rhan (yn ogystal â gwybodaeth amrywiol am dechnoleg iBeacon). Mae Casgliad y Werin wedi defnyddio nifer o lwybrau ymgysylltu i rannu eu neges am iBeacon, megis rhoi cyflwyniadau, rhannu tystiolaeth a gasglwyd drwy astudiaeth Castell Caerlŷr, a chynnig ymweliadau a theithiau i leoliadau lle mae prosiectau iBeacon eisoes ar y gweill (megis Amgueddfa Lechi Llanberis). Mae CyW hefyd wedi cynnal arddangosiadau i helpu i ddangos sut yn union y mae iBeacon yn gweithio, y math o gynnwys sydd ynddynt, a sut y gallant fod o fudd.

Astudiaeth Achos Culture Beacon: Effaith Economaidd

Dengys yr adborth fod iBeacon yn cael ei ystyried yn ateb cadarnhaol i nifer o heriau cyfredol wrth ddehongli i ymwelwyr mewn twristiaeth neu dreftadaeth. Er enghraifft, dywedwyd bod Wi-Fi a signal ffôn symudol gwan (yn enwedig mewn lleoliadau anghysbell) yn rhwystr. Yn ogystal, mae'r adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal dehongliad mwy traddodiadol fel taflenni sydd angen gofal tywyswyr ac/neu yn anoddach eu diweddarau, yn arbennig o heriol yng nghyswllt y pwysau ariannol diweddar ar ganolfannau croeso. Caiff iBeacon ei ystyried yn gyfle hyblyg i ddarganfod *"ffyrdd newydd o ddehongli'r tirlun treftadaeth"*. Hefyd, ystyrir iBeacon yn opsiwn mwy hwylus oherwydd y gallu i ddarparu gwahanol fathau o deithiau (sain, fideo, aml-ieithog ac ati). Mae'r gallu i gynnig cynnwys fesul ychydig yn dibynnu ar yr amser y mae ymwelwyr yn aros yno, yn ogystal â chynnig sawl math o gynnwys, hefyd yn cael eu hystyried yn botensial cadarnhaol wrth ddenu ymwelwyr i ailymweld, neu gadw ymwelwyr am gyfnod hirach.

Ar ôl darganfod mwy am y manteision posibl hyn, ysbrydolwyd sefydliadau i gael iBeacon, gan ddeall sut y gallai hyn gyfrannu at eu targedau i gynyddu nifer yr ymwelwyr, gwella profiad yr ymwelwyr, ac i gefnogi creu incwm. Teimlid bod y wybodaeth gychwynnol a'r arddangosiadau a ddarparwyd gan CyW yn allweddol i ysbrydoli prosiectau a'u gyrru ymlaen:

"Roedd yr wybodaeth hon yn amhrisiadwy. Yn wych gweld sut roedd yn gweithio".

I ddechrau arni, dywedodd ymgynghoreion fod hyn yn amhrisiadwy i ennill cefnogaeth ehangach i fwrw ymlaen â phrosiectau, gan gyfrannu, er enghraifft, at **lwyddo i sicrhau cyllid**, yn ogystal â *"chael cefnogaeth partneriaid a rhanddeiliaid mewnol trwy'r arbenigedd a'r dystiolaeth benodol yr oedd Casgliad y Werin yn gallu eu rhoi"*. Ystyrir y mewnbwn yn arbennig o werthfawr yn ystod camau cynnar datblygu prosiect, a chredir bod arbenigedd a gwybodaeth CyW ynghylch sut y gellir defnyddio iBeacon (mewn safleoedd hanesyddol yn arbennig), yn ogystal â chael y wybodaeth ddiweddaraf un am y dechnoleg, wedi cynyddu hyder yn y penderfyniadau i fuddsoddi yn y prosiectau ac wedi arwain at achos busnes mwy cadarn.

"Roedd y cyflwyniadau wedi rhoi hyder y gallai weithio. Roedd pobl a oedd yn amau ar y dechrau yn gadael yn frwd i gyd."

Yn ogystal, roedd Casgliad y Werin wedi **cefnogi nifer o sefydliadau i wneud ceisiadau llwyddiannus am arian i'w prosiectau iBeacon**, ac wedi cefnogi prosiectau eraill drwy fod yn bartner gweithredu neu drwy gynnig **cymorth mewn nwyddau**. Mae Casgliad y Werin wedi cynnig cyngor ac arweiniad cyson, hyfforddiant pwrpasol, ac arddangosiadau ar sut i ddefnyddio technoleg iBeacon. Elfen gadarnhaol i lawer yw bod y rhaglen yn gallu cynnig pecyn *"cydgysylltiedig"*, gan ddeall yr anghenion technegol yn ogystal â'r cyd-destun treftadaeth, ac ystyrir bod y bartneriaeth yn werth da am arian oherwydd eu gallu i gynnig *"ateb cyflawn"*:

"Casgliad y Werin yw'r glud sy'n cadw pawb ynglwm wrth ei gilydd e.e. TG, cynnwys, profiad yr ymwelydd, caledwedd".

Mae cysylltiadau parod â Locly a G-24, yn ogystal ag â'r cynnwys ar wefan Casgliad y Werin (a chyfleoedd ar gyfer traws-hyrwyddo) hefyd yn cael eu gweld yn fantais. Ar ben hynny, mae'r potensial i gydweithredu drwy'r platfform wedi arwain at fudiadau/sefydliadau yn gwneud cysylltiadau ag eraill sy'n rhedeg prosiectau iBeacon yn eu hardal.

"Mewn gwirionedd fe wnaethant ychwanegu ato gyda'u deunyddiau archifol. Er enghraifft o lwerddon a'r Llyfrgell Genedlaethol. Fe roddodd fynediad ychwanegol i ni at gasgliadau eraill."

Heb gyfranogiad Casgliad y Werin, cred rhai prosiectau y byddent o bosibl wedi bwrw ymlaen beth bynnag, ond ni fyddent wedi cael yr un lefel o wybodaeth i'w cynorthwyo. Dywedodd rhai o'r prosiectau na fyddent wedi mynd yn eu blaenau heb y gefnogaeth a gawsant, neu ni fyddent wedi gwybod am fodolaeth iBeacon:

"Pe fydden nhw ddim wedi bod wrth law, rwy'n amau a fyddem wedi gallu gwneud hynny. Roedd ein hadnoddau wedi'u hymestyn ormod."

Mae llawer o'r prosiectau datblygu gwaith pellach yn y maes hwn, naill ai prosiectau peilot parhaus sydd ar y gweill, neu ymchwilio i ddefnyddiau eraill ar y dechnoleg. Mae yna awydd i ddal ati i gydweithredu â'r rhaglen.

Rhagor o wybodaeth yn: [Casgliad y Werin](#); [ap iOS Culture Beacon](#); [GCell](#); [Locly](#).

Cynyddu'r effeithiau:

- 5.75 O ystyried yr effeithiau a amlinellir uchod, mae'n ddefnyddiol ystyried yr adborth amrywiol a gafwyd ynghylch sut y gallai Casgliad y Werin fanteisio i'r eithaf ar effeithiau'r rhaglen.
- 5.76 Y neges gryfaf o lawer a gafodd ei chyfleu ledled pob grŵp ymatebydd oedd y dymuniad i Gasgliad y Werin hyrwyddo'r rhaglen a'i gwaith yn ehangach i'r 'cyhoedd', grwpiau cymunedol a phartneriaid. Ymhlith yr awgrymiadau yr oedd hyrwyddo drwy sefydliadau partner, teledu a phapurau newydd, neu ymgyrchoedd radio. Mae hyn yn deillio o werthfawrogi gwerth y rhaglen ac awydd i ragor o bobl fod yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ei chynnig.
- 5.77 Roedd y dymuniad i ragor o bobl gymryd rhan yn y rhaglen hefyd wedi arwain at sylwadau gan randdeiliaid strategol a phartneriaid prosiect y dylai Casgliad y Werin wneud mwy o waith gydag ysgolion. Teimlir y byddai'r manteision a ddaw yn sgil y rhaglen yn arbennig o fuddiol i bobl ifanc. Nid oedd rhanddeiliaid a wnaeth y sylwadau hyn yn ymwybodol o unrhyw waith sydd yn cael ei wneud yn barod mewn ysgolion.
- 5.78 Soniodd un rhanddeiliad y gellid rhoi mwy o bwyslais ar y ffaith fod "cymunedau wedi cyflawni neu gynhyrchu rhywbeth gyda'i gilydd" er mwyn dangos y ffyrdd y mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd trwy rannu mwy o'r **straeon y tu ôl i'r prosiectau**.
- 5.79 Soniodd ymgynghorai arall hefyd am yr angen i gysylltu gwaith yn ôl i'r "elfennau mwy corfforol sy'n fwy seiliedig ar bobl", h.y. y ffyrdd y gellid ymgysylltu gwaith Casgliad y Werin yn ôl i amgueddfeydd lleol ac adnoddau tebyg i'w cefnogi hwy. Roedd awgrymiadau yn cynnwys arddangosfeydd, amgueddfeydd dros-dro ac yn y blaen. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig o ran cael y sgiliau rhyngbersonol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, yn ogystal ag annog rhagor o ymwelwyr i fannau treftadaeth gymunedol ac i annog amrediad mwy amrywiol o gwsmeriaid: *"cefnogi pobl i gael y cysylltiad gwell yna â'u hadnoddau lleol ac i ddeall yn well pam a sut i gymryd rhan neu ymweld"*.
- 5.80 Yn olaf, mae hefyd yn ddefnyddiol nodi bod cynnydd wedi'i wneud ar ganfyddiad y Gwerthusiad Interim y gallai Casgliad y Werin gynyddu effeithiau gymaint ag y bo modd trwy feithrin "cysylltiadau mwy strategol yn ogystal â datblygu cynnig partneriaeth fwy strwythuredig".

6. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r casgliadau pennaf, y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion y Gwerthusiad Interim, ac argymhellion y Gwerthusiad Terfynol i raglen Casgliad y Werin. Mae'r casgliadau ac argymhellion a amlinellwyd yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil sylfaenol ac eilaidd a wnaed yn ystod cyfnod y Gwerthusiad Terfynol er yr ymgorfforwyd dysgu o'r gwerthusiad blaenorol ac o waith cysylltiedig ERS hefyd, lle bo'n berthnasol.

Prif Gasgliadau

- 6.2 Yn gyntaf, mae'n amlwg o adborth yr Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd, a'r Grŵp Rheoli Mewnol fod rhaglen Casgliad y Werin, yn strategol, yn cael ei hystyried yn 'hyblyg' ac mewn sefyllfa dda i gyfrannu at nifer o amcanion polisi a chymdeithasol, gan gynnwys trechu tlodi, cynhwysiant digidol a diwylliannol, a lles. Ystyrir hefyd fod y rhaglen yn cyd-fynd yn agos â nodau ac amcanion rhanddeiliaid strategol. Ceir tystiolaeth o hyn, er enghraifft, trwy ddatblygiad y cydweithio agosach â Chronfa Dreftadaeth y Loteri a'r BBC.
- 6.3 Yn bwysig, mae'r rhaglen wedi dangos esblygiad parhaus, ac wedi gwneud cynnydd ym mhob llinyn o'i gwaith. Mae rhai llinynnau yn dal i fod yn fwy datblygedig nag eraill; er enghraifft, y 'cynnig craidd' (sef gwasanaethau Casgliad y Werin sy'n ymwneud â chynnal gweithgareddau digideiddio a hyfforddiant achrededig) sydd wedi gwneud y cynnydd pennaf ac sydd fwyaf 'gweladwy' ar hyn o bryd. Nodwyd bod gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn elfen arbennig o gryf yn y rhaglen ledled y rhan fwyaf o grwpiau ymatebwyr (gan gydnabod bod llinynnau eraill wedi ysgwyddo mwyfwy o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned).
- 6.4 Er bod rhai llinynnau gwaith yn fwy 'gweladwy', mae'n rhaid hefyd gydnabod pwysigrwydd y llinynnau 'galluogi' sy'n cefnogi'r gwaith a wneir. Wrth symud ymlaen, ystyrir mai cyrraedd cymunedau yw blaenoriaeth a chylch gwaith craidd y rhaglen, ochr yn ochr â'r wefan.
- 6.5 Mae gwasanaethau craidd y rhaglen wedi'u profi i fod yn berthnasol mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn arbennig, mae'r defnydd ar offer a rhaglen Casgliad y Werin i ymgysylltu â Chymry alltud yn faes gwaith sy'n gynyddol allweddol. Ymhellach, nawr bod digon o gynnwys ar y platfform a'i fod yn dechnegol sefydlog, mae'r wefan yn cyflwyno ei hun yn adnodd gwerthfawr i ymchwilwyr.
- 6.6 Ar ben hynny, nodwyd nifer o feysydd lle mae effeithiau yn dod i'r golwg, gydag effeithiau cymharol fach wedi'u nodi ar draws pob un o'r pedwar maes mesur, yn fwyaf amlwg yn yr effeithiau cymdeithasol ac o ran prosesau, h.y. cwyd effeithiau cymdeithasol yn bennaf i ddefnyddwyr megis mwynhad a sgiliau, a chafwyd effeithiau o ran prosesau yn bennaf i'r partneriaid allanol, gan gynnwys effeithlonrwydd ac arbed adnoddau. Yn ogystal, mae modelau gweithio arloesol, yn ogystal ag arbenigedd

technegol tîm y rhaglen wedi bod yn werthfawr i sefydliadau/mudiadau bychain na fyddai cyn hynny wedi cael mynediad at adnoddau tebyg (yn y Deyrnas Unedig nac yn rhyngwladol).

- 6.7 Mae gweithio mewn partneriaeth yn benodol yn faes sydd wedi gwneud cynnydd da ers y Gwerthusiad Interim. Ymhellach, mae tîm y rhaglen yn nodi eu bod wedi datblygu sgiliau ychwanegol ac wedi gwella ffyrdd o weithio o ran cyflawni llwybrau mwy effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu â phartneriaid.
- 6.8 Mewn perthynas â datblygu yn y dyfodol, y prif faes y cyfeirwyd ato amlaf ac yn fwyaf cyson (ar draws pob grŵp ymatebwyr) yw'r awgrym i farchnata'r rhaglen yn ehangach, a hynny'n codi o ddeall gwerth y rhaglen ac awydd i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau ehangach. Gellir felly ystyried bod allgymorth i'r rheiny nad ydynt yn ei defnyddio (a nodi cynulleidfaoedd targed) yn gam gweithredu blaenoriaeth yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd.

Llwyddiannau

- 6.9 Ystyrir bod cyflawni 'cynnig craidd' y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth ymateb i wahanol gyd-destunau strategol a gweithredu. Pan fo adnoddau Casgliad y Werin wedi cael eu cyfeirio at **ardal ddaearyddol glir ac o fewn cylch gwaith clir**, credir bod y gwaith wedi bod yn arbennig o lwyddiannus oherwydd fod mwy o ffocws. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yng ngallu'r rhaglen i ymateb yn effeithiol i agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r Rhaglen Cyfuno/Fusion a gwaith yn yr Ardaloedd Arloesi.
- 6.10 Mae gweithio'n rhyngwladol hefyd yn dangos manteision **gweithredu mewn ffordd benodol**. Yn ogystal, mae ehangu'r rhaglen dramor wedi profi gwerth y rhaglen fel adnodd i gymunedau o Gymry alltud fel ffordd iddynt fod yn rhan o'u treftadaeth Gymreig a'i chofnodi; gallai hyn fod yn faes i'w archwilio yn y dyfodol ac yn fodd posibl o greu incwm.
- 6.11 Ymddengys bod gweithio trwy sefydliadau cyfryngol hefyd yn llwybr effeithiol i **fanteisio ar adnoddau** er budd pawb. Pan fo sefydliadau wedi datblygu cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli 'ar lawr gwlad', er enghraifft, gall hyn ategu dull Casgliad y Werin ac arwain at ei gwneud yn haws cyrraedd cymunedau yn ogystal â defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Gellir hefyd ystyried y dull Hyfforddi'r Hyfforddwr yn llwybr posibl i drosglwyddo arbenigedd y rhaglen wrth ddefnyddio adnoddau yn effeithiol.
- 6.12 Ystyrir fod y rhaglen yn awr yn fwy "**cadarn**" a "**gwydn**", a phlatform Casgliad y Werin yn fwy sefydlog yn dilyn yr adnewyddu technegol. Teimlir bod y datblygiadau hyn wedi gwneud y cynnig yn fwy deniadol ac yn haws i'w hyrwyddo i randdeiliaid a defnyddwyr. Ymhellach, dengys adborth bod 'brand' Casgliad y Werin, i'r rheiny yr ymgynghorwyd â hwy, wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol, gan gynnwys ei fod yn un y gellid "**ymddiried ynddo**" a'i fod yn "**arbenigol**". Mae'r llwyddiannau hefyd wedi cynyddu'r ymrwymiad a'r gefnogaeth i'r rhaglen yn fewnol, ac mae fel petai wedi ymwreiddio mwy fyth yn y sefydliadau sy'n bartneriaid.

- 6.13 Yn ogystal, mae'r model 'o'r ymylon i'r craidd' (h.y. datblygu cynnyrch drwy brofion a threialu cychwynnol yn dilyn dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth) wedi gweithio'n arbennig o dda fel map ffordd ar gyfer dilyniant o waith Culture Beacon y rhaglen. Gellid mireinio'r broses hon ymhellach drwy sicrhau bod datblygiadau ychwanegol yn ymateb neu'n ymchwilio i anghenion presennol defnyddwyr (h.y. wedi'i arwain gan y galw) er bod potensial i ddehongli hyn mewn ffordd greadigol.

Heriau

- 6.14 Mae'r prif heriau ar draws y cyfnod gweithredu o dan sylw wedi cynnwys pwysau adnoddau, yn ogystal â'r angen i gynnal mesurau lliniaru mewn ymateb i'r gostyngiad yng nghyllid craidd y rhaglen. Yr argraff gyffredinol yw bod Casgliad y Werin wedi gallu **'gwneud llawer gydag ychydig o adnoddau'**, ac wedi cymryd camau i ymateb i'r cyfyngiadau hyn ar yr un pryd â llwyddo i gadw ymrwymiad ar draws tîm Casgliad y Werin a'r Grŵp Rheoli. Mae hyn yn gryn deyrnged i frwdfrydedd ac ymroddiad tîm Casgliad y Werin.
- 6.15 Mae'r rhaglen wedi gallu cyflawni yn erbyn ei chylch gwaith craidd ar yr un pryd hefyd ag ymchwilio i feysydd pellach ar gyfer esblygiad. Wedi dweud hyn, mae cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn her allweddol, yn enwedig yn absenoldeb ymrwymiad ariannu yn y tymor hir sy'n **effeithio ar allu'r rhaglen i gynllunio ymlaen yn effeithiol**. Mae camau wedi eu rhoi ar waith yn llwyddiannus i gynyddu'r incwm sy'n cael ei greu gan ragori ar y targedau, ac felly cafwyd cynnydd cadarnhaol yn hyn o beth.
- 6.16 Wrth symud ymlaen, mae'r blaenoriaethau allweddol (yn ôl yr adborth) yn cynnwys: cynnal y momentwm a'r ffocws o ran ymgysylltu â'r gymuned; cynnal y platform technegol; hyrwyddo'r rhaglen yn fwy; a chynyddu cynaliadwyedd ariannol a chreu incwm ymhellach.

Argymhellion

Argymhellion Gwerthusiad Terfynol 2016

- 6.17 Er cysondeb ac eglurder, mae'r argymhellion yn y Gwerthusiad Terfynol (2016) wedi eu trefnu yn ôl y tri chategori: argymhellion strategol; argymhellion cynulleidfaoedd a defnyddwyr; ac argymhellion gweithredol (fel yn y Gwerthusiad Interim). Ychwanegwyd creu incwm yn thema allweddol ychwanegol y gellir ei hystyried yn 'drawsbynciol' oherwydd ei chysylltiad â phob un o'r 3 maes a nodwyd uchod. Ar ôl disgrifio'r argymhellion ar draws y pedair thema hyn, mae Tabl 8 yn crynhoi'r prif argymhellion i'w hystyried gan reolwyr Casgliad y Werin.
- 6.18 Gan gydnabod y cynnydd a wnaed yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach yn erbyn argymhellion y Gwerthusiad Interim (sydd wedi'u crynhoi ym Mhennod 1), mae meysydd i'w datblygu ymhellach hefyd wedi'u cynnwys yn y categorïau isod (lle mae'r amcanion sy'n gysylltiedig â'r argymhellion interim yn parhau'n berthnasol i amcanion a gweithgarwch y rhaglen yn y cam hwn).

Argymhellion Strategol

Cynaliadwyedd

- 6.19 ***Gan adeiladu ar waith cadarnhaol hyd yn hyn, dylai tîm y rhaglen fynd ati i egluro ymhellach a datblygu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm ochr yn ochr â gweithgareddau craidd.*** Gall meysydd i'w harchwilio gynnwys cysylltiadau â thwristiaeth ddiwylliannol, er enghraifft. Dylid hefyd ystyried cynyddu ar yr adennill costau am wasanaethau nad ydynt yn rhai craidd a gynigir i grwpiau cynulleidfa penodol (lle bo'n briodol).

Ffocws

- 6.20 Mae'r rhaglen wedi'i chrisialu o amgylch cynnig craidd llawer cliriach a phecyn cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'i chylch gwaith craidd. Caiff y cynnig craidd hwn ei ddarparu yn bennaf gan y llinyn Ymgysylltu â'r Gymuned a'i gefnogi gan linyddau 'galluogi' (gan nodi cynnydd a wnaed i grisialu'r cynigion ym meysydd eraill y rhaglen). Yng nghyswllt adnoddau cyfyngedig, ***dylid rhoi ystyriaeth i uchelgeisiau strategol y rhaglen a sut mae unrhyw weithgaredd sydd y tu allan i'r 'cylch gwaith craidd' yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol at y meysydd blaenoriaeth a nodwyd*** h.y. ymgysylltu â'r gymuned, cynnal y plattform technegol, hyrwyddo'r rhaglen, a datblygu cynaliadwyedd ariannol ac/neu greu incwm.
- 6.21 ***Cyn ymgymryd â gweithgaredd newydd, dylid gwneud cyswllt clir o ran sut y bydd hyn yn cyfrannu at amcanion craidd*** y rhaglen mewn perthynas â'r adnoddau (e.e. amser, arian) a fuddsoddwyd. Mae model y Gadwyn Resymeg yn egluro hanfodion y dull hwn (h.y. olrhain mewnbynnau drwyddo hyd at yr effeithiau), er y gallai hefyd fod yn ***werthfawr datblygu 'matrics buddion' er mwyn blaenoriaethu buddsoddi adnoddau*** yn erbyn cyfres o feini prawf, megis: cynulleidfa graidd; cynulleidfa darged; budd strategol; budd gweithredol; cyfraniad at dargedau ac amserlenni; adnoddau; neu gynaliadwyedd.
- 6.22 Ymhellach, mae'r rhaglen fel petai'n gweithredu orau pan fo'n canolbwyntio gweithgarwch h.y. ar ardal ddaearyddol glir, neu o fewn cylch gwaith strategol clir. O gofio cwrpas daearyddol mawr y rhaglen, mae'r gweithredu cyn hyn wedi bod yn fwy ar "hap", fodd bynnag, o ystyried datblygiad y cynnig craidd a rheidwydd i reoli adnoddau yn effeithlon, ***dylid yn amlwg dargedu ymgysylltiad 'ar lawr gwlad'*** mewn ardaloedd a fydd yn cyfrannu agosaf at gyflawni targedau. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ar raddfa ryngwladol lle bo hynny'n berthnasol.

Blaenoriaethau Strategol

- 6.23 O ystyried strategaeth arfaethedig Casgliad y Werin ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i 2017, gallai hyn fod yn ***gyfle da i adnewyddu pedair Blaenoriaeth Strategol y rhaglen.*** Byddai hyn yn werthfawr o ran sicrhau bod cwrpas cliriach yn cael ei ddiffinio, ac egluro uchelgeisiau'r rhaglen. Byddai'r eglurder hwn yn ei dro yn cynorthwyo mesur

cynnydd yn gliriach tuag at bob blaenoriaeth, yn ogystal â chyfathrebu nodau ac amcanion Casgliad y Werin i gynulleidfaoedd allanol.

- 6.24 Gallai meysydd i'r rhaglen eu hystyried yn ehangach gynnwys **adfyfrio ar flaenoriaethau meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg**, megis potensial y rhaglen i gynorthwyo cydlyniant cymunedol ac/neu weithio rhwng y cenedlaethau, ac **eglurhad ynghylch uchelgeisiau i'r dyfodol (cwmpas, lleoliadau, gwasanaethau) mewn perthynas â gweithio'n rhyngwladol** er mwyn cynnal y momentwm a grëwyd gan y datblygiadau cadarnhaol yn y maes hwn. Mae cydweithio rhyngwladol yn faes gwaith sy'n datblygu y mae Casgliad y Werin wedi'i gryfhau ers y Gwerthusiad Interim a dylid chwilio am gyfleoedd cysylltiedig ar gyfer creu incwm. Gallai hyrwyddo diwylliant, treftadaeth, ac arbenigedd Cymru gyfrannu at nifer o amcanion Llywodraeth Cymru.
- 6.25 Dylid hefyd ymchwilio i alinio â'r dirwedd strategol a pholisi ehangach, er enghraifft, y **ffocws cynyddol ar les**, gan fod adborth wedi datgelu argraff fod y rhaglen yn gallu cyfrannu at ystod o amcanion cymdeithasol yn ogystal ag amcanion diwylliannol.
- 6.26 Yng nghyd-destun cyfyngiadau adnoddau, **efallai y bydd angen ystyried eglurhad pellach o uchelgais y rhaglen ynghylch 'arweinyddiaeth ddigidol' hefyd**. Bydd diffinio cwmpas clir i'r uchelgais hwn yn helpu i olrhain llwyddiant ac i symud y gwaith hwn ymlaen yn erbyn amserlenni penodol.
- 6.27 At hynny, **gan nad oes llwybr diffiniedig wedi'i dargedu i sicrhau effaith economaidd**, gallai fod yn fuddiol canolbwyntio yn fwy ar flaenoriaethau mewn perthynas â sicrhau effeithiau cymdeithasol, effeithiau arloesedd, ac effeithiau prosesau.

Partneriaethau Strategol

- 6.28 Mae Casgliad y Werin wedi cryfhau ei bartneriaethau strategol â nifer o sefydliadau ers y Gwerthusiad Interim. Ymddengys fod **gweithio trwy gyfryngwyr sydd eisoes â chysylltiadau â chymunedau** (tu fewn a thu allan i'r sector treftadaeth ddiwylliannol) yn ffordd lwyddiannus i gael mynediad at gymunedau ac mae hefyd yn rhoi cyfle strwythuredig i Gasgliad y Werin gyfrannu ei gwasanaethau wrth ddefnyddio adnoddau yn effeithlon. Ymddengys fod y dull hwn o fudd i'r rhaglen ac i'r partneriaid strategol cysylltiedig (yn ogystal ag i fuddiolwyr).
- 6.29 Gallai partneriaethau strategol hefyd ddarparu llwybrau mwy strwythuredig ar gyfer ymgysylltu â buddiolwyr h.y. gallai cynnig integredig ar y cyd â phartneriaid olygu bod eu rhyngweithio â Chasgliad y Werin yn rhan o "daith" ehangach. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, darparu llwybrau cynaliadwy i weithgarwch dilynol, cyflogaeth treftadaeth, neu weithgareddau treftadaeth cysylltiedig (gan barhau i gynnal cysylltiadau â'r rhaglen).
- 6.30 **Mae partneriaethau strategol yn gofyn am reolaeth bendant a pharhaus**, ac mae ymrwymiad Casgliad y Werin yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu offer a'r wefan, fel y dangosir yn yr Astudiaethau Achos Effaith a thrwy adborth rhanddeiliaid. O ystyried

hyn, dylai Casgliad y Werin fod **yn wyliadwrus nad yw effeithiau eu cyfraniad yn cael eu ‘colli’ yng nghanol y gefnogaeth ehangach** y mae buddiolwyr yn ei derbyn. Gellir sicrhau hyn drwy frandio clir, a thrwy sicrhau bod buddiolwyr yn ymgysylltu’n gryf â rhan Casgliad y Werin o’r cymorth a roddir yn hytrach na’i ystyried fel ymarfer “ticio bocs”. Dylid hefyd ystyried strategaethau prisio priodol sy’n adlewyrchu ymroddiad ac arbenigedd y tîm a’r gwerth ychwanegol a roddir.

- 6.31 Yn ail, mynegodd nifer o randdeiliaid strategol awydd i weithio gyda Chasgliad y Werin unwaith eto, er bod diffyg eglurder mewn rhai achosion ynghylch bwriadau Casgliad y Werin o ran cydweithio pellach. Hyd yn oed mewn achosion lle mae gwaith dilynol â phartneriaid yn dibynnu ar gwblhau gweithgaredd penodol Casgliad y Werin, **dylid cyfathrebu â rhanddeiliaid yn glir ac mewn da bryd er mwyn cynnal momentwm a’r enw da cadarnhaol**, gan gynnwys y canfyddiad fod y rhaglen yn cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel a gwerth am arian.

Argymhellion ynghylch y Gynulleidfa a Defnyddwyr

Brandio

- 6.32 Mae brand Casgliad y Werin wedi cael ei gryfhau ac mae cysylltiadau cadarnhaol iddo gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid. Mewn rhai achosion, mae’r rhaglen hefyd wedi gwella enw da y sefydliadau sy’n bartneriaid, ac fel arall.
- 6.33 Fodd bynnag, mae meysydd gwaith sy’n llai amlwg yn gysylltiedig â Chasgliad y Werin – o safbwynt y defnyddiwr terfynol – megis gwaith y Culture Beacons, a amlinellir gan dîm y rhaglen fel “brandio ar wahân” a’i fod “yn hollol addasadwy”. **Dylid ymdrechu felly i gryfhau’r cysylltiadau rhwng platform Culture Beacon a’r rhaglen, er mwyn sicrhau bod mewnbyn Casgliad y Werin i ddatblygu ateb curadu o ansawdd yn cael ei gydnabod** e.e. ‘bathodyn’ ansawdd Casgliad y Werin. Bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu teimladau cadarnhaol ac i draws-hyrwyddo gwasanaethau e.e. cysylltu yn ôl i safle Casgliad y Werin, yn ogystal ag atgyfnerthu barn defnyddwyr am rwydwaith Culture Beacon trwy ddangos fod defnyddio’r platform a ddatblygwyd gan Locly yn ddull cymeradwy o ddatblygu cynnwys cysylltiedig y gellir ei addasu.
- 6.34 Ar ben hynny, ar gyfer yr achosion hynny lle ceir cydweithio, gallai fod yn fuddiol **datblygu polisi neu ganllawiau ar gyfer brandio er mwyn cadw at ofynion y rhaglen a gofynion partneriaid** yn hyn o beth.

Marchnata a Hyrwyddo

- 6.35 **Credir bod marchnata a hyrwyddo wedi’u targedu yn flaenoriaeth allweddol i’r rhaglen yn y dyfodol.** Dylid datblygu strategaeth glir sy’n cefnogi codi ymwybyddiaeth o raglen, amcanion a gwasanaethau Casgliad y Werin, yn ogystal â’i llwyddiannau hyd yn hyn ymhlith cynulleidfaoedd allweddol. Yn ogystal, dylid datblygu negeseuon allweddol i sicrhau bod targedu yn cyfleu’r wybodaeth gywir i’r cynulleidfaoedd cywir. Felly, dylai Casgliad y Werin barhau â’r gwaith a wnaed hyd yn hyn i egluro grwpiau cynulleidfa sy’n flaenoriaeth ac amlinellu dulliau o ymgysylltu, gan gydnabod fod rhaid

cael adnoddau priodol i'r gwaith h.y. sicrhau adnoddau ar gyfer unigolion sydd â'r gallu a'r sgiliau i wneud hyn.

- 6.36 Yn dilyn y newidiadau i weithgareddau marchnata yn y rhaglen, mae'n bwysig fod adnoddau a neilltuwyd ar gyfer marchnata nid yn unig yn cael eu cadw ond hefyd yn cael eu cynyddu. Mae camau cynnar yn dod i'r amlwg yn hyn o beth, megis uwchsgilio staff sydd â chyfrifoldebau marchnata allweddol, a'r Amgueddfa Genedlaethol yn cyflogi dylunydd i ddatblygu taflenni a gwefan "gwasanaethau corfforaethol".

Grwpiau Cynulleidfa

- 6.37 Dylid adeiladu ymhellach ar waith parhaus y rhaglen i ddeall y cynulleidfaoedd craidd a tharged (a ddiffinnir fel defnyddwyr presennol, a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr). ***Mae adnabod prif gynulleidfaoedd targed sy'n cyd-fynd ag amcanion y rhaglen yn flaenoriaeth*** (gan gydnabod y gall hyn ymestyn y tu hwnt i gymunedau sydd yn ymgysylltu eisoes â threftadaeth) er mwyn llywio marchnata a gweithgareddau eraill y rhaglen. Ymhellach, gallai sylweddoli fod gwahanol "becynnau" o wasanaethau o ddiddordeb i grwpiau cynulleidfa penodol gefnogi creu incwm yn fwy effeithiol h.y. ***diffinio'n glir y cynulleidfaoedd targed mewn perthynas â gwasanaethau'r rhaglen sydd am ddim ac/neu y telir amdanynt a sut y gellir ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cynulleidfaoedd hynny.***
- 6.38 Yn ogystal, gallai dealltwriaeth fanwl o anghenion (a dewisiadau, gwerthoedd ac ati) cynulleidfa helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chynnyrch yn y dyfodol. Dylid rhoi pwyslais ar ddeall cymhellion defnyddwyr er mwyn datblygu "profiad y defnyddiwr". Mae llwybrau posibl i'w harchwilio yn cynnwys profi defnyddioldeb i ddeall sut mae cynulleidfaoedd ar hyn o bryd yn profi'r wefan, yn ogystal â dathlu eu cyflawniadau, er enghraifft, archwilio ymhellach eitemau "nodwedd" neu gynnwys deinamig arall i gydnabod a dathlu cyfraniadau defnyddwyr ac i annog rhyngweithio â chynnwys sy'n bodoli eisoes.
- 6.39 Byddai'n fuddiol cael gwybodaeth wedi'i thargedu ar y wefan sydd wedi'i hanelu at gynulleidfaoedd penodol allweddol e.e. anelu at anghenion gwahanol prifysgolion, gweithwyr proffesiynol yn y sector, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, myfyrwyr, pobl sy'n ymddiddori mewn treftadaeth, twristiaid, unigolion. I gynorthwyo hyn, gellid ystyried ymhellach y "daith ymgysylltu" i grwpiau cynulleidfa penodol h.y. sut byddai orau i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd penodol, sut maent yn rhyngweithio â'r rhaglen, a beth sy'n eu hannog i gymryd rhan yn weithredol (h.y. i argymhell a chefnogi'r rhaglen).

Creu incwm

- 6.40 ***Dylid datblygu model prisio sy'n ystyried anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd gwahanol o safbwynt gwasanaethau sydd am ddim yn y man defnyddio a gwasanaethau i dalu amdanynt,*** gan gydnabod bod gwahanol strategaethau yn briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd (o bosibl hyd yn oed wrth ystyried yr un cynnyrch neu gynhyrchion tebyg). Mae ystyriaeth fanwl i grwpiau

cynulleidfa mewn perthynas â chreu incwm yn bwysig, yn enwedig er mwyn osgoi gwrthdaro posibl ag amcanion ac egwyddorion craidd y rhaglen o fod yn adnodd anfasnachol “agored” a “dibynadwy”. Fodd bynnag, os bydd y cyfle i harneisio cyfraniadau ariannol gan gynulleidfaoedd penodol yn sicrhau bod gwasanaethau “am ddim” ar gael i'r rhai na allant dalu, yna gallai hyn sicrhau mwy o gynaliadwyedd i'r rhaglen.

- 6.41 ***Dylid hefyd ystyried atebion creadigol i greu incwm mewn perthynas â gwahanol gynulleidfaoedd***, o dalu am hyfforddiant ar-lein neu wyneb-yn-wyneb, i ymgyrchoedd creadigol megis “noddwch iBeacon”, er enghraifft. At hynny, byddai rhai defnyddwyr nad ydynt o bosibl yn gallu (neu'n dymuno peidio) gwneud cyfraniad ariannol efallai yn barod i gyfrannu amser ac egni; dylid archwilio hyn hefyd yng nghydestun adeiladu'r adnoddau sydd ar gael i'r rhaglen.

Pencampwyr Casgliad y Werin

- 6.42 Mae adborth yn dangos bod Pencampwyr Casgliad y Werin yn adnodd allweddol i'r rhaglen. Dengys yr atebion i'r e-Holiadur i Ddefnyddwyr nad oedd pawb a oedd yn ystyried eu hunain yn Bencampwr yn glir ynghylch a ellid yn “swyddogol” eu galw yn bencampwyr. Gan nodi'r gwaith allweddol y mae Pencampwyr yn ei gyflawni, megis hyrwyddo rhaglen Casgliad y Werin yn ehangach, a helpu cymunedau i ddigideiddio adnoddau yn y Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol (gall digideiddio ar raddfa fawr fod yn llafurddwys iawn), ***dylid cael llwybrau clir sy'n adnabod, cydnabod, cefnogi, a dathlu Pencampwyr***. Gallai hyn fod drwy Gynllun Gwobrwyo Gwirfoddolwyr, hyfforddiant wedi'i deilwra etc.
- 6.43 Mae potensial hefyd i gefnogi Pencampwyr drwy ddatblygu “cymuned ar-lein” i hwyluso mynediad i hyfforddiant ac/neu adnoddau ar-lein, templedi brand Casgliad y Werin, amserlenni ar gyfer datblygiadau newydd i'r wefan neu wasanaethau, cyfle i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau maent yn eu cynllunio ac i gysylltu â Phencampwyr eraill. Byddai Pencampwyr wedyn mewn sefyllfa i fedru rhaeadr'u math hwn o wybodaeth i ddefnyddwyr eraill a phartneriaid.
- 6.44 Un awgrym a gododd drwy'r ymgynghoriadau oedd y posibilrwydd o gael “Hyrwyddwyr Treftadaeth Rhanbarthol”, sef bod gwirfoddolwyr yn gweithredu fel pwynt cyswllt i bobl yn eu hardal sydd eisiau gwybod mwy am y rhaglen a'i gwasanaethau. Gellid cael gafael ar yr unigolion hyn naill ai drwy ddigwyddiadau neu gyfarfodydd lleol, neu drwy dudalen ar y we “dewch i gymryd rhan” neu “yn eich ardal chi”. ***Dylai'r rhaglen ymchwilio i'r potensial i recriwtio a hyfforddi hyrwyddwyr treftadaeth rhanbarthol***, efallai drwy adeiladu ar lwyddiant cynnar y model Hyfforddi'r Hyfforddwr.

Cymunedau Ar-lein

- 6.45 Gellid gwneud gwaith pellach i adeiladu cymunedau ar-lein ac i ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn ddigidol, gan deilwra dulliau ymgysylltu i gyd-fynd â diddordebau penodol y cynulleidfaoedd hynny. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft: cysylltu ag academyddion (e.e. cylchlythyr bob X mis sy'n dweud wrthynt beth sydd wedi cael ei

ychwanegu at y safle); blog i gynulleidfaoedd rhyngwladol, neu hyd yn oed wiki a rennir i ddatrys problemau technegol sy'n codi er mwyn arbed adnoddau'r tîm eu hunain.

Cystadleuwyr

- 6.46 Gan gydnabod bod defnyddwyr digidol yn gweithredu ar draws nifer o blatfformau, ac y gall gwahanol blatfformau ategu ei gilydd, gallai fod yn fuddiol datblygu perthynas bellach sy'n hwyluso croes-bostio rhwng safleoedd.

Argymhellion Gweithredol

Arloesi

- 6.47 Gan adeiladu ar Argymhellion yr Adroddiad Interim, mae Casgliad y Werin wedi datblygu ei dealltwriaeth o arloesedd i fod yn deillio o elfennau technegol ac elfennau nad ydynt yn dechnegol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'r amser rhwng a) cynhyrchu syniad a'i gyfleu i randdeiliaid hyd at b) yr amser gwireddu allbynnau wedi cael ei ymestyn (er enghraifft, bu oedi yn y gwaith cael rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau [API] oherwydd problemau caffael ac fe'i cwblhawyd yn fewnol wedyn.). Byddai cysylltu gwaith arloesi ***yn agosach â chyfnod o brofi a threialu yn erbyn amserlenni clir a cherrig milltir, yn ogystal â diffinio amcanion clir, o bosibl yn helpu i hybu'r elfen hon ac i weld yn gyflym beth sy'n gweithio a beth y dylid ei gyflwyno'n ehangach.***
- 6.48 Yn ogystal, dylai unrhyw weithgarwch arloesi anelu at gyflawni diben neu alw clir o safbwynt y rhaglen a'r defnyddiwr terfynol h.y. cynhyrchu syniad yn seiliedig ar alw clir a bod adnoddau ar gael> [Treialu](#) a phrofi'r syniad o fewn amserlen benodol> [Lledaenu a'i lunio i raddfa \(dull yn seiliedig ar dystiolaeth\)](#).
- 6.49 O fewn y llinell amser hon, dylid hefyd ystyried yn ofalus pryd fyddai'n briodol cyhoeddi'r cynigion hyn i randdeiliaid er mwyn cynnal momentwm a diddordeb.
- 6.50 Ystyrir bod y "map ffordd" hwn ar gyfer datblygu syniadau yn gweithio'n dda yng ngwaith Culture Beacon (yn dilyn ymchwil cychwynnol a wnaed gyda Chastell Caerlŷr a Phrifysgol Caerlŷr). Pan gafwyd arloesedd i gefnogi nod y rhaglen, a bod technoleg yn elfen o becyn cefnogaeth clir (wedi'i hategu gan elfennau nad ydynt yn dechnolegol), mae hyn wedi gweithio'n dda o fewn y rhaglen.

Ymgysylltu â'r Gymuned

- 6.51 Mae ymgysylltu â'r gymuned a meithrin cysylltiadau yn mynd â llawer o amser ac yn gofyn am ymrwymiad tymor hir. Ystyrir bod tîm Casgliad y Werin yn ***adnodd*** allweddol yn y rhaglen a chafwyd adborth cadarnhaol yn gyson am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad. Dylid ystyried sut orau i gadw'r cryfderau hyn hyd yn oed mewn achosion pan fo angen cwtdogi'n raddol ar waith y staff craidd 'ar lawr gwlad'. Gellid cefnogi hyn o bosibl gan ***"strategaeth ymadael" glir*** a model ymgysylltu sy'n rhoi modd i'r

cymunedau eu hunain barhau â'r gwaith a ysgogwyd gan Gasgliad y Werin. Dyma'r bwriad y tu ôl i'r symud tuag at "Hyfforddi'r Hyfforddwr".

- 6.52 Mewn rhai achosion, mae perthynas tymor hir a chymorth parhaus wedi'u cynnig i sefydliadau/mudiadau ar hyd nifer o flynyddoedd. Mae'r cysylltiadau hyn yn werthfawr, er y dylid o bosibl, er budd defnydd effeithlon o adnoddau a sicrhau bod y nifer uchaf posibl o bobl yn gallu elwa o'r rhaglen a chael eu grymuso ganddi, archwilio dull ymgysylltu sydd wedi'i ddiffinio sy'n rhoi ystyriaeth i awtonomiaeth cymunedau yn y pen draw. Byddai hyn hefyd yn cynnwys diffiniad clir o gylch gwaith Casgliad y Werin o fewn unrhyw ryngweithio ac ar ba adeg y gellir ystyried bod y rhyngweithio hwn wedi dod i ben; fodd bynnag, byddai hefyd yn briodol datblygu "strategaethau ymestyn" er mwyn iddi fod yn amlwg ar unwaith a oes cyfle dilynol ar gael i ddefnyddiwr neu grŵp penodol (h.y. beth arall y gellir ei wneud nesaf o fewn y rhaglen, beth y gellir ei gynnig yn y dyfodol i rywun sydd wedi cymryd rhan o'r blaen, e.e. argymhellwyd hyfforddiant gloywi gan un ymgynghorai iBeacon). Mae Hyfforddi'r Hyfforddwr yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad hwn.
- 6.53 Dylid hefyd roi ystyriaeth bellach i **gwmpas daearyddol mewn perthynas â gweithgareddau penodol y rhaglen** h.y. pa ddulliau sy'n gweithio orau neu sydd fwyaf ymarferol i gymunedau neu leoliadau penodol? Pa ddulliau sydd hawsaf i dorri'n ôl arnynt? Pa weithgareddau sy'n benodol i leoliad neu ranbarth? Yn enwedig o ran ymgysylltu â'r gymuned, gallai dull sy'n seiliedig ar alw fod yn briodol, yn dibynnu ar ddiddordebau'r cynulleidfaoedd targed. Gallai hyn ystyried nad yw un strategaeth "addas i bawb" yn briodol ar draws y gwahanol grwpiau cynulleidfa.
- 6.54 Mae ymgysylltu â'r gymuned o ran natur yn ddwys iawn ar adnoddau ac yn golygu bod angen sgiliau ar lefel benodol, yn ogystal â chysondeb i gymryd rhan mewn ffordd ystyrion ar ansawdd uchel. Mae ymgysylltu wyneb-yn-wyneb yn elfen werthfawr o'r rhaglen ac ni ddylid ei cholli'n llwyr, er y dylid cydnabod nad yw hyn bob amser yn ymarferol (oni bai ei fod yn cael ei gyllido'n uniongyrchol), yn arbennig ar gyfer tîm anhygoel o fach sy'n gweithredu'n genedlaethol. **Felly, dylid canolbwyntio adnoddau ar ardaloedd sy'n targedu cynulleidfaoedd blaenoriaeth neu'n cyfrannu at amcanion hirdymor, ac mae rheoli disgwyliadau yn hollbwysig.**
- 6.55 Byddai adnabod cynulleidfaoedd targed o gymorth i fedru cyfeirio adnoddau at y cymunedau a'r unigolion hynny a allai elwa fwyaf o sesiynau cyfryngu, yn ôl blaenoriaethau'r rhaglen. **Mae sesiynau wedi'u cyfryngu yn hanfodol ar gyfer grwpiau cynulleidfa penodol er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn hyfforddiant.**

Monitro a Gwerthuso

- 6.56 Dylid gwneud mân newidiadau i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gweithgarwch presennol y rhaglen ac yn cyfrannu gwybodaeth fonitro ystyrion. Gellid gwella mesuriadau hefyd drwy safoni diffiniadau penodol ledled y rhaglen, er enghraifft, ar gyfer gwahanol grwpiau cynulleidfa, neu

ddefnyddio enwau safonol ar gyrsiau hyfforddiant (gan gofio y bydd rhai termau ar gyfer cyfeirio mewnol yn unig ac y gall rhai termau fod yn ddefnyddiol ar gyfer defnydd allanol).

- 6.57 Yn ogystal, o ran monitro a gwerthuso ehangach, dylai'r rhaglen geisio adeiladu ymhellach ar eu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng data perfformio (beth sydd wedi cael ei wneud?) a data effaith (pa effaith mae hyn wedi'i gael h.y. beth sydd wedi newid o ganlyniad?). Gan adlewyrchu ymrwymiad y rhaglen i werthuso a dysgu, dylid cynllunio ar gyfer monitro mewnol a gwerthuso yn y tymor hwy. Mae casglu data am effaith yn gofyn am adnoddau penodol ar gyfer hynny, a gallai casglu data effaith yn y dyfodol gan dîm y rhaglen olygu bod angen prosesau newydd nad oes modd, mewn rhai achosion, eu rhoi ar waith yn syth; a dyna pam fod angen edrych i'r dyfodol er mwyn integreiddio'r gweithgaredd hwn.
- 6.58 Dylid rhoi blaenoriaeth i ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar hyd pob llinyn gweithgarwch.

Cydweithio agosach rhwng llinynnau

- 6.59 Gallai cydweithio agosach rhwng llinynnau fod yn briodol i wneud y mwyaf o effaith gweithgareddau penodol. Er enghraifft, byddai cysylltu'n agosach weithgareddau'r Llinyn Dysgu a'r Llinyn Ymgysylltu â'r Gymuned yn gallu creu mwy o gyfleoedd i gyfrannu at waith pontio rhwng y cenedlaethau neu gydlyniant cymunedol wrth gyflawni amcanion craidd y rhaglen.

Gweithio'n Ddigidol

- 6.60 Mae'r rhaglen hefyd wedi dechrau archwilio ffyrdd o ymateb i'r galw heb fod angen i aelodau tîm Casgliad y Werin fod yn gyson 'ar lawr gwlad', megis dysgu cyfunol ar-lein a chymorthfeydd Skype. Gallai gweithio ac ymgysylltu yn ddigidol fod yn ateb allweddol i gyflwyno gwasanaethau yn raddol e.e. ysgogi cymunedau ar-lein. Er mwyn gwneud hyn, dylai Casgliad y Werin ystyried a yw 'gweithio'n ddigidol' yn cael ei ymgorffori'n llwyddiannus ledled y sefydliadau partner ac a oes angen unrhyw uwchsgilio. Byddai hyn hefyd o gymorth pellach wrth weithio'n rhyngwladol.
- 6.61 Yn ogystal, ystyrir bod Casgliad y Werin yn arbenigo ar gyflawni ei gynnig craidd. O ran rhannu arbenigedd ac arfer gorau, dylai'r rhaglen chwilio am gyfleoedd i ddatblygu **cyfnewid gwybodaeth ddwyffordd**, gan adeiladu ar gydweithio e.e. sut y gall Casgliad y Werin rannu a derbyn yr arferion gorau mewn treftadaeth ddigidol yn effeithlon e.e. trwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau cydweithredol neu ddigwyddiadau cyfnewid gwybodaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion

- 6.62 Mae argymhellion y Gwerthusiad Terfynol wedi'u crynhoi yn Nhabl 7 isod. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion strategol, gweithredol a chynulleidfaoedd a defnyddwyr, yn ogystal â'r thema drawsbynciol creu incwm sy'n cwmpasu'r meysydd strategol,

gweithredol a chynulleidfaoedd. Mae argymhellion blaenoriaeth a awgrymir ar draws pob thema wedi'u dangos mewn glas i'w hystyried gan reolwyr y rhaglen.

Tabl 7: Argymhellion Gwerthusiad Effaith 2016
Strategol
Adnewyddu a diwygio Blaenoriaethau Strategol y rhaglen, yn enwedig o ran cydweithio rhyngwladol, arweinyddiaeth ddigidol, a blaenoriaethau polisi sy'n codi e.e. lles, cydlyniant
Er nad oes llwybr pendant wedi'i dargedu i gael effaith economaidd, dylid canolbwyntio mwy ar flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â chyflawni 'triongl' o effeithiau cymdeithasol, arloesedd, ac effaith, lle cafwyd y llwyddiannau pennaf (hyd yma).
Targedu adnoddau at weithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y meysydd blaenoriaeth a nodwyd (h.y. ymgysylltu â'r gymuned, cynnal y platfform technegol, hyrwyddo'r rhaglen, a datblygu creu incwm ac/neu gynaliadwyedd ariannol), gan nodi cyswllt clir rhwng y budd a'r adnoddau a fuddsoddwyd.
Gweithio drwy gyfryngwyr sydd â chysylltiadau sefydledig â chymunedau (o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol a thu allan iddo) er mwyn cael mynediad at gymunedau a sicrhau adnoddau er budd pawb.
Sicrhau bod cyfraniad Casgliad y Werin yn cael ei gydnabod gan fuddiolwyr drwy gael brandio clir a chyfathrebu effeithiol ynghylch cyfraniad Casgliad y Werin.
Parhau i gyfathrebu'n effeithiol ac amserol (ynghyd â chyfathrebu dilynol wedyn) â phartneriaid strategol a rhanddeiliaid er mwyn cynnal y momentwm a'r enw da a grëwyd drwy ryngweithio â'r rhaglen.
Argymhellion o ran Cynulleidfa a Defnyddwyr
Cysylltu 'brand' Casgliad y Werin lle bynnag y bo modd â gwaith sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, er mwyn atgyfnerthu'r canfyddiadau cadarnhaol hyn a thraws-hyrwyddo gwasanaethau.
Datblygu polisi neu ganllawiau ar gyfer brandio i gadw at ofynion y rhaglen a rhai partneriaid wrth gydweithio.
Ystyrir bod marchnata a hyrwyddo wedi'u targedu yn flaenoriaeth allweddol i'r rhaglen yn y dyfodol. Dylid datblygu strategaeth glir sy'n cefnogi codi ymwybyddiaeth am raglen Casgliad y Werin, am ei hamcanion a'i gwasanaethau, yn ogystal â llwyddiannau allweddol hyd yn hyn ymysg cynulleidfaoedd targed gan ddeall yr adnoddau penodol sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn.
Diffinio'n glir gynulleidfaoedd targed sy'n flaenoriaeth i'r rhaglen, os yw hynny'n berthnasol o ran gwasanaethau a chynnyrch penodol y rhaglen. Anelu i ddeall yn well anghenion cynulleidfa benodol mewn perthynas â gwasanaethau sydd am ddim ac y telir amdanynt (a strategaeth brisio gysylltiedig), yn ogystal â 'phrofiad y defnyddiwr' a 'theithiau ymgysylltu'.

Cael llwybrau clir i adnabod, cydnabod, cefnogi, a dathlu Pencampwyr. Gallai hyn fod drwy Gynllun Gwobrwyo Gwirfoddolwyr, hyfforddiant wedi'i deilwra, datblygu 'cymuned ar-lein' etc. Archwilio ymhellach lwybrau i ymgysylltu â defnyddwyr yn ddigidol.
Dylai'r rhaglen ymchwilio i'r potensial i recriwtio a hyfforddi Hyrwyddwyr Treftadaeth Rhanbarthol, gan efallai adeiladu ar lwyddiant cynnar y model Hyfforddi'r Hyfforddwr, sydd hefyd yn gyfle allweddol.
Argymhellion Gweithredol
Dyblygu'r 'map' a ddefnyddiwyd i weithredu prosiectau iBeacon yn llwyddiannus wrth gynnal gweithgareddau newydd h.y. Cynhyrchu syniad yn seiliedig ar alw clir a bod adnoddau ar gael> Treialu a phrofi'r syniad o fewn amserlen benodol> Lledaenu a'i lunio i raddfa (dull yn seiliedig ar dystiolaeth)
Mae ymgysylltu â'r gymuned a meithrin cysylltiadau yn mynd â llawer o amser ac yn gofyn am ymrwymiad tymor hir felly mae defnyddio adnoddau yn effeithlon yn hollbwysig. Gellid cynorthwyo hyn drwy ddiffinio'r prif flaenoriaethau o ran ymgysylltu ac o ran y cynulleidfaoedd i'w targedu, yn ogystal â diffinio strategaethau 'ymadael' a 'dilynol' clir.
Dylid egluro Cwmpas Daearyddol gweithgareddau'r rhaglen h.y. pa ddulliau sy'n gweithio orau neu sy'n fwyaf ymarferol o fewn cymunedau neu leoliadau penodol?
Mae sesiynau cyflwyno wedi'u cyfryngu yn hanfodol i grwpiau cynulleidfaoedd penodol er mwyn galluogi eu cyfranogiad llawn mewn hyfforddiant. Dylai adnabod cynulleidfaoedd targed gynorthwyo wrth fedru cyfeirio adnoddau at y cymunedau a'r unigolion hynny a allai elwa fwyaf o sesiynau wedi'u cyfryngu, yn ôl blaenoriaethau'r rhaglen.
Gweithredu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws pob maes gweithgarwch yn y rhaglen. O gymorth i hyn fyddai adnewyddu ychydig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y rhaglen, a chynllunio mwy i'r tymor hir o ran prosesau monitro a gwerthuso mewnol.
Gallai cydweithio agosach rhwng llinynnau fod yn briodol i wneud y mwyaf o effaith gweithgareddau penodol; er enghraifft, byddai cysylltu'n agosach weithgareddau'r Llinyn Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Llinyn Dysgu yn gallu creu mwy o gyfleoedd i gyfrannu at waith pontio rhwng y cenedlaethau neu gydlyniant cymunedol wrth gyflawni amcanion craidd y rhaglen.
Creu incwm (trawsbynciol ar draws y tair thema blaenorol)
Egluro ymhellach a datblygu cyfleoedd i greu incwm ochr yn ochr â gweithgareddau craidd. Dylid ystyried hyn ar lefel strategol, gweithredol a chynulleidfaoedd. Mae meysydd i'w harchwilio yn cynnwys twristiaeth, ehangu talu-am-wasanaethau a chynnyrch, strategaethau prisio haenedig ar gyfer grwpiau cynulleidfaoedd penodol, ac/neu ymgyrchoedd ariannu creadigol e.e. ariannu torfol neu 'noddi Beacon' etc

ATODIAD 1: RHESTR O'R PARTNERIAID PROSIECT A RHANDDEILIAID ALLANOL YR YMGYNHORWYD Â HWY

A1.1 Mae Tabl A.1 isod yn dangos y Partneriaid Prosiect a'r Rhanddeiliaid Allanol yr ymgynghorwyd yn llwyddiannus â hwy fel rhan o'r Gwerthusiad Terfynol, 2016. Nid yw'r tabl isod yn cynnwys Partneriaid Prosiect a Rhanddeiliaid Allanol yr ymgysylltwyd â hwy fel rhan o'r Astudiaethau Achos Effaith.

Tabl A.1: Partneriaid Prosiect a Rhanddeiliaid Allanol yr ymgynghorwyd â hwy	
Sefydliad	Enw
MALD, Llywodraeth Cymru	Tom Cosson
Prifysgol Caerlŷr	Gisemi Vavoula
Prifysgol Caerdydd	Gethin Matthews
Locly	Rhys Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Andrew Harradine
Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon	Allan Herbert
Rhyngwyneb Fflandrys ar gyfer Treftadaeth Ddiwylliannol (FARO)	Bart De Nil
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau	Zoe Gealy
Y Cyngor Prydeinig	Walter Ariel Brooks
Y Cyngor Prydeinig	Jenny Scott